

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Hanes Geiriaduraeth yng Nghymru o 1547 hyd 1914 : gyda sylw arbennig i ddylanwad John Walters a William Owen Pughe ar eiriadurwyr 1805-1850

Morgan, Menna E.

Award date:
2002

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 17. Jul. 2024

Hanes Geiriaduraeth yng Nghymru


o 1547 hyd 1914

**gyda sylw arbennig i ddylanwad John Walters a
William Owen Pughe ar eiriadurwyr 1805 - 1850**

Menna E. Morgan

Ph.D.

2002



Cyfrol 2

Pennod 7

Gweithgarwch geiriadurol Daniel Silvan Evans

(1818 - 1903)


Yn ôl Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, oes aur yr offeiriaid llengar yng Nghymru oedd y deugain mlynedd rhwng 1818 ac 1858.¹ Rhannent yr un delfrydau a chan fod y cyfleusterau, y cysylltiadau a'r amser angenrheidiol ganddynt, hwy fu'n bennaf cyfrifol am gynnal dysg a hynafiaethau Cymraeg. Un o'r gwŷr olaf yn llinach yr hen offeiriaid llengar - ond un o'r rhai mwyaf gweithgar a chynhyrchiol - oedd Daniel Silvan Evans.² Dywedodd Morgan D. Jones:

Os oes un gŵr y gellir dweud amdano ei fod yn ddrych teg o weithgarwch llenyddol ac ysgolheigaidd y ganrif odid nad Daniel Silvan Evans (1818-1903) yw hwnnw.³

Dechreuodd Silvan ymddiddori o ddifrif ym maes geiriaduraeth yn gynnar yn ei yrfa; gwyddys ei fod wrthi'n paratoi *Gwreiddiadur o'r Iaith Gymraeg* tua 1840.⁴ Ceir ambell gyfeiriad at y gwaith hwn yn y cylchgronau Cymreig yn ystod y blynyddoedd dilynol ac wrth adolygu *Blodeu Ieuanic*, sef cyfrol o ganeuon ac ysgrifau o eiddo Silvan, nododd golygydd *Y Drysorfa Gynulleidfaol*:

Mae'r awdur medrus yn paratoi i'r wasg *Wreiddiadur Cymreig* Pris 3/-. Carem weled ei fwriad wedi ei gyflawni gan fod angen y fath orchwyl ar y Cymry ...⁵

'Roedd gan Ieuan Gwynedd bob ffydd yng ngallu Silvan i gyflawni'r gwaith a gobeithiai ei weld yn cael ei gyhoeddi'n fuan.⁶ Er hynny, nid oedd ar Silvan unrhyw frys i'w orffen. Mewn llythyr a anfonodd at John Jones (Ivon) ym 1844 dywedodd:



¹ Bedwyr Lewis Jones, 'Yr Offeiriaid Llengar', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir* (Llandybïe, 1968), t.49.

² Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt.207-8.

³ Morgan D. Jones, 'Geiriadur Cymraeg Daniel Silvan Evans', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, viii, t.24.

⁴ Mewn nodyn dyddiedig 25/6/1840 yn Cwrtmawr 755C, nodir:

"Paratoi i'r wasg - *Gwreiddiadur (Etymological Dictionary) o'r Iaith Gymraeg*, gan D. Silvan Evans. Pris 3/-. E. Williams, Argraffydd, Aberystwyth".

⁵ *Y Drysorfa Gynulleidfaol*, Mehefin 4ydd, 1844, t.144.

⁶ *Y Traethodydd*, Ebrill 1847, t.203.

O barthed y Gwreiddiadur, y mae yn dyvod ambell dipyn yn y blaen yn awr ac eilwaith, a dichon y cwblheir ef rywbyrd, ond nid wyv yn bwriadu ei gyhoeddi byth ar fy nhraul fy hun.⁷

Ni chyhoeddwyd y *Gwreiddiadur* hwn, ond trwy gasglu deunyddiau ar ei gyfer 'roedd Silvan mewn sefyllfa i dderbyn cynnig gan Thomas Gee ym 1847 i olygu pumed argraffiad o'r *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg* a luniwyd gan Thomas Jones, Dinbych.⁸ Bwriad gwreiddiol Gee oedd cyhoeddi'r geiriadur hwnnw gydag "ychwanegiad mawr" ato, eithr ni fodlonodd Silvan ar ychwanegu'n unig.⁹ Gwell oedd ganddo, fel y cyfaddefodd yn ddiweddarach, greu gwaith cwbl newydd:

... nid diwygio a helaethu y *Geiriadur* hwnnw a wnaethym i ond ysgrifenu gwaith newydd o'r dechreu i'r diwedd.¹⁰

Yn rhagair y geiriadur, dywed Silvan mai'r hyn a'i hysgogodd i ymgymryd â'r dasg oedd yr awydd i ddiwallu'r angen cynyddol am eiriadur Saesneg-Cymraeg cynhwysfawr. Teimlai fod gwybodaeth o'r Saesneg yn hanfodol i fwyafrif trigolion Cymru'r adeg honno ac na ellid gwneud heb eiriadur pwrpasol.¹¹ Ni wyddys yn union faint o amser a dreuliodd yn paratoi'r *Geiriadur Seisoneg a Chymraeg* ond bu'n gweithio mor ddyfal fel na châi fawr o gyfle i droi at unrhyw waith arall. Pan ofynnwyd iddo am gyfraniad i'r *Traethodydd* ym 1849, cyfaddefodd na fedrai ymateb:

As the Dictionary takes up all the moments, that I can spare for literary purpose, I regret to say that I cannot, at present, engage to furnish you with any contributions for the *Traethodydd* ...¹²

Cychwynnodd Gee ar y dasg o argraffu'r geiriadur ym 1847 ac ni ddaethpwyd i ben â'r gwaith tan 1858, felly bu Silvan yn ymhel â'r geiriadur am un mlynedd ar ddeg heb sôn am y blynyddoedd a dreuliodd yn ei baratoi ymlaen llaw. Yn gynnar ym 1848, ymddangosodd hysbyseb ar gyfer rhan gyntaf y geiriadur yn brolio ei fod yn cynnwys yr holl eiriau a geid yng ngeiriaduron Johnson a

⁷ LLGC 3291E.

⁸ Thomas Jones, *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary; in which the English Words with many of the English Phrases are explained by those which Synonymise or Correspond with them in the Welsh Language. Compiled from the best Sources and Materials ...* (Caer, 1800).

⁹ *Y Faner*, Mehefin 2il 1858.

¹⁰ Llythyr Silvan i'r *Arweinydd*, Gorffennaf 8ed, 1858.

¹¹ 'Rhagair' ar ddechrau Cyfrol II, Daniel Silvan Evans, *An English and Welsh Dictionary, adapted to the present state and literature, in which the English words are deduced from their originals, and explained in the Welsh language* (Dinbych, 1852 - 1858).

Webster, gan gynnwys termau gwyddonol a llenyddol, ynghyd â miloedd o eiriau ac idiomau ychwanegol a godwyd o wyddoniaduron a ffynonellau eraill.¹³ Nodwyd hefyd y byddai tarddeiriau'r Saesneg yn cael eu dangos ac y câi pob term ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i ddiffinio. Ymddangosodd y rhan gyntaf ym mis Chwefror 1848 ac fe'i dilynwyd gan Ran II a III ym mis Chwefror 1849. Erbyn mis Ionawr 1850 'roedd Rhan IV a V wedi dod o'r wasg ac ym 1852 cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf, sef A hyd ddiwedd y llythyren G. Daeth gweddill y rhannau o'r wasg yn rheolaidd ac fe gyhoeddwyd yr ail gyfrol ym 1858.

Soniwyd eisoes am y ffræ a gododd rhwng Caerfallwch ar y naill law a Silvan a Thomas Gee ar y llaw arall. Pan fu'r tri'n dadlau yn gyhoeddus rhwng tua 1848 ac 1851, 'roedd Silvan a Gee yn gweld lygad yn llygad. Ysgrifennent at ei gilydd yn gyson ac unwaith i Gee ddechrau paratoi ar gyfer cyhoeddi'r *Gwyddoniadur Cymreig*, ymgynghorai â Silvan ac ysgrifennodd yntau bron i ddeugain erthygl i'w cynnwys ynddo.¹⁴ Trodd y berthynas gyfeillgar hon yn chwerw ar ôl i ail gyfrol *An English and Welsh Dictionary* ymddangos ym 1858. Erbyn 1857, 'roedd Gee wedi hen flino ar ddiffyg trefn a blerwch Silvan felly aeth ati i gyhoeddi gweddill y geiriadur o'r gair '*tusk*' i'r diwedd heb anfon proflenni ato i'w golygu. At hyn, penderfynodd dalfyrru rhywfaint ar y cynnwys. Nid oes ryfedd i Silvan wylltio ac yntau, ar ôl cymaint o flynyddoedd, bron â gorffen y gwaith. Anfonodd lythyr at nifer o'r cylchgronau ym mis Chwefror 1858 yn cyhuddo Gee o dalfyrru ac andwyo'r geiriadur a mynnodd nad oedd ef ei hun yn gyfrifol am gynnwys cyfran helaeth ohono.¹⁵ Pwysleisiodd na chafodd y cyfle i gywiro'r proflenni o gwbl, gan ychwanegu:

Ei dalfyru a wnaeth ... a'i gyfnewid i'r fath raddau fel yr wyf dan angenrheidrwydd i hysbysu i'r wlad yn gyffredinol nad wyf i mewn modd yn gyfrifol am ansawdd y gwaith o'r gair *Tusk* hyd ddiwedd y llythyren Z ... Y mae yr ychydig ohono a gafodd ei gyhoeddi, wedi ei *argraffu mor wallus*, a'i lurgunio yn y fath fodd, fel nas gall, i'm tyb i, fod o nemawr ddyben i neb ymgynghori ag ef.¹⁶

¹² Llythyr dyddiedig Ebrill 11eg 1849 yng nghasgliad Thomas Charles Edwards yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

¹³ Gw. er enghraifft *Y Diwygiwr*, Ionawr 1848.

¹⁴ Morgan D. Jones, 'Daniel Silvan Evans: ei gysylltiadau llenyddol a'i waith, gan fanylu ar ei gyfraniad i ysgolheictod Cymraeg', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru Caerdydd, 1952, t.50.

¹⁵ Gw. er enghraifft *Yr Arweinydd*, Mawrth 4ydd 1858; *Yr Haul*, 1858, t.94; *Yr Amserau*, Awst 18ed 1858; *Baner Cymru*, Awst 18ed 1858.

¹⁶ *Yr Arweinydd*, Mawrth 4ydd 1858.

Atebodd Gee'r cyhuddiadau trwy ddweud na olygodd ac na lurguniodd ef ddim ar y gwaith ond cyfaddefodd iddo hepgor llawer o frawddegau byrion a thrigain a phedwar o eiriau nad oedd eu hangen yn ei dyb ef.¹⁷ Hen eiriau ansathredig oedd y rhain ac enwau anifeiliaid, arian a metelau heb gyfieithiad Cymraeg ar eu cyfer. Aeth yn ei flaen i esbonio ei fod wedi talfyrru'r cynnwys o'r gair 'wane' - nid 'tusk' - i'r diwedd oherwydd bod maint y gwaith wedi chwyddo'n ormodol ac oherwydd ei fod am orffen ei argraffu cyn gynted â phosib. Eglurodd hefyd mai canlyniad arafwch Silvan yn anfon y proflenni'n ôl oedd y gwallau a'r annibendod ar ddiwedd y geiriadur a bod yr holl gywiriadau wedi eu gwneud. Parhaodd y ddadl rhyngddynt am gryn amser a llusgwyd Gweirydd ap Rhys i'r ffræe pan gyhoeddwyd y *Geiriadur Cynaniadol* a pheri i Silvan gyhuddo Gee o ddefnyddio ei eiriadur ef yn sylfaen i'r gwaith hwnnw.¹⁸ Nid oedd sail i'r cyhuddiad mewn gwirionedd oherwydd 'roedd natur cynnwys y ddau eiriadur yn wahanol a chyhoeddased rhifyn olaf geiriadur Gweirydd bron i flwyddyn cyn i Silvan anfon ei lawysgrif olaf at Thomas Gee. Ar ôl y ffræe, ni fynodd Silvan wneud dim â gwasg Gee a throdd i roi ei gwstwm i William Spurrell a Robert Isaac Jones o Dremadog. Ymddengys ei fod yn ystyried cyhoeddi ail argraffiad o'r geiriadur ar un adeg oherwydd mewn rhifyn o'r *Brython* a gyhoeddwyd ym 1862, dywedir:

Yr ydym wedi clywed ... fod D. Silvan Evans ... yn prysur drefnu mesurau i ddwyn allan argraffiad newydd *diwygiedig* o'i Eiriadur Saesneg a Chymraeg yr argraffiad cyntaf o'r hwn ... a ddyfethwyd gan yr argraffydd ... Bydd yr argraffiad hwn ... yn tra rhagori ar yr argraffiad cyntaf.¹⁹

Ni cheir cyfeiriad arall at y bwriad hwn ac nid ymddangosodd ail argraffiad o'r geiriadur.

Fel canlyniad i'r holl ffræeo, cafodd y tri geiriadur - *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg* Caerfallwch, *An English and Welsh Dictionary* Silvan a *Geiriadur Cynaniadol* Gweirydd ap Rhys - gryn gyhoedduswydd ym mhumdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.²⁰ Ymateb cymysg a gafodd geiriadur Silvan.

¹⁷ *Baner Cymru*, Mawrth 17eg 1858, t.165; *Yr Haul*, 1858, t.125.

¹⁸ R. I. Prys, *An English and Welsh Pronouncing Dictionary. Geiriadur Cynaniadol Saesneg a Chymraeg ...* (Dinbych, 1857).

¹⁹ *Y Brython*, 1862, t.355.

²⁰ Thomas Edwards, *Geirlyfr Seisoneg a Chymraeg. An English and Welsh Dictionary, also an Analysis of the Orthography of the Welsh Language* (Treffynnon, 1850).

AN
ENGLISH AND WELSH
DICTIONARY,

ADAPTED TO THE
PRESENT STATE OF SCIENCE AND LITERATURE:

IN WHICH

The English Words

ARE DEDUCED FROM THEIR ORIGINALS, AND EXPLAINED
BY THEIR SYNONYMS

IN THE

WELSH LANGUAGE.

BY

DANIEL SILVAN EVANS.

VOL. I.

DENBIGH:
PRINTED AND PUBLISHED BY THOMAS GEE.

—
MDCCCLII.

Wrth reswm, cafodd ei gymeradwyo a'i werthfawrogi'n gyffredinol gan fod angen gwaith o'r fath. Yn ei grynswth, 'roedd yn cynnwys dros 1,900 o dudalennau ac oddeutu 85,000 prifair mewn colofnau dwbl a phrint gweddol fân. Fe'i canmolwyd am fod yn ddibynadwy ac yn gyflawn ac am ei fod yn cwmpasu bron bob cangen o wybodaeth. Dyma farn un adolygydd amdano:

The compiler shows that he is very capable of well performing his task; and in compounding Welsh words as equivalents to the English scientific and technical terms, he does not presume to substitute any crude fancies of his own, for the unchangeable and unmistakeable laws of the Welsh language. It will be indispensable to the Welshman who wants to obtain a right knowledge of English, as well as to the Englishman who wants to learn the Welsh language.²¹

Eto i gyd, gan fod geiriaduron Caerfallwch a Silvan yn ymddangos tua'r un adeg, teimlwyd nad oedd angen dau eiriadur cynhwysfawr a oedd mor debyg o ran maint a chynnwys. Wrth drafod y tebygrwydd rhwng y ddau waith yn *Y Diwygiwr* ym 1848 dywedodd Mathetes y byddai'r ddau eiriadurwr yn debygol o ddioddef colled ariannol:

Nid oedd angen am ddau Eiriadur o'r fath hyn, buasai un yn rhesymol i ddynion wedi gorfod gwneyd cyhyd heb un ... Mae yn lled debyg na thal y ddau byth, am eu hargraffu. Ond trueni fyddai i ddyn wedi treulio ei oes i fyfyrion yr iaith Gymraeg i orfod talu, wedi y cwbl, am wasanaethu ei genedl.²²

Er i adolygydd *Seren Gomer* geisio osgoi cymharu un geiriadur yn erbyn y llall, daeth i'r casgliad bod:

... eiddo Daniel Las yn rhagori ar bob un arall mewn rhai pethau, - mae yn dra chynhwysfawr, a rhodda darddiad pob gair Seisnig, ac y mae ynddo hefyd fwy o frawddegau byrion yn cael eu cyfieithu, nag a welsom mewn un Geiriadur arall yr hyn a'i gwna yn dra gwerthfawr i efrydwyr ieuainc yn neillduol, gan y canfyddant yno briod-ddull yr iaith, mewn gwahanol amgylchiadau, yn well nag mewn un modd arall.²³

Trwy gynnwys gwybodaeth am etymoleg y prifeiriau Saesneg, cyflwynodd Silvan elfen gwbl newydd yn ei eiriadur. Dywed yn ei ragymadrodd iddo ddefnyddio *American Dictionary* Noah Webster fel ffynhonnell:²⁴

²¹ *Archaeologia Cambrensis*, 1848, t.186.

²² *Y Diwygiwr*, 1848, t.184.

²³ *Seren Gomer*, 1848, t.208.

²⁴ Noah Webster, *An American Dictionary of the English Language* (Boston, 1828).

In giving the etymologies of the English words, I have, in general, followed Dr. Webster, as being by far the best authority on that subject ...

Er bod geiriadur Webster yn waith nodedig a phoblogaidd, ni ellid dibynnu'n llwyr arno oherwydd bod syniadau Webster am eirdarddiad, hyd yn oed yn yr oes yr oedd yn byw ynddi, yn ddiffygiol. Adeg cyhoeddi'r geiriadur, 'roedd syniadau ieithyddol yn newid ac yn datblygu'n gyflym ac 'roedd darganfyddiadau pwysig rhai o ieitwegwyr yr Almaen, megis Jacob Grimm, yn dechrau dod yn hysbys. Er bod Webster ei hun yn gyfarwydd â hwy, ni roddodd lawer o bwys arnynt. Yn ôl Sidney Landau:

... Webster's natural arrogance, contentiousness and contempt for any theory that controverted his own blinded him to the significance of even those discoveries with which he was familiar.²⁵

Nododd Landau hefyd mai "fantastic speculations" oedd llawer o'i syniadau am eirdarddiad ac nad oes unrhyw werth yn perthyn iddynt.²⁶

Yr unig ddau waith arall a grybwyllir gan Silvan fel ffynonellau a ddefnyddiodd wrth lunio *An English and Welsh Dictionary* yw geiriaduron John Walters a William Owen Pughe. Pan gyhuddwyd Gweirydd ap Rhys o elwa ar waith Silvan, atebodd trwy ddweud:

Er hyn i gyd, byddai yn hawdd profi na wnaethym i fwy o ddefnydd, os cymmaint, o'i Eiriadur ef, ag a wnaeth yntau, nid yn unig o waith Walters, Pughe, a Webster, yr unig rai a gydnebydd, ond o waith y Dr. Dafis, E. Llwyd, T. Richards, W. Richards, T. Jones, a'r holl fan eiriaduron eraill, ac y mae wedi dyhysbyddu hyd yn oed Caerfallwch ei hun.²⁷

Mae'n ddiddorol sylwi nad yw Silvan yn sôn am *Eiriadur Saesoneg a Chymraeg* Thomas Jones, Dinbych o gwbl, yn enwedig o gofio mai golygu'r pumed argraffiad ohono oedd y bwriad yn y lle cyntaf. Gan fod gwaith Silvan gymaint mwy cynhwysfawr nag eiddo Thomas Jones, ni ellir eu cymharu ochr yn ochr â'i gilydd yn hwylus. Mae mwy o debygrwydd rhwng gwaith Silvan a Chaerfallwch a chan y daethai'r *Geirlyfr* o'r wasg ers 1850, gellir tybio bod Silvan wedi pori drwyddo a gwneud defnydd ohono tra lluniai ei waith ei hun. Dangosodd

²⁵ Sidney I. Landau, *Dictionaries: The Art and Craft of Lexicography* (Caergrawnt, 1989), t.61.

²⁶ Ibid.

²⁷ *Y Faner*, Mehefin 16eg, 1858.

Morgan D. Jones fod Silvan yn ddyledus i Gaerfallwch am fathu termau gwyddonol a bod nifer o'i gofnodion yn union yr un fath â chofnodion Caerfallwch.²⁸ Dylid pwysleisio hefyd bod gan Silvan gynigion ychwanegol o'i eiddo'i hun yn aml iawn, er bod hynny'n siŵr o gymhlethu'r dewis i'r defnyddiwr. Sylwer ar y cyfystyron 'newydd' sydd ganddo yn yr enghreifftiau a ganlyn:

GEIRLYFR SAESONEG A CHYMRAEG (1850)	AN ENGLISH AND WELSH DICTIONARY (1847 - 1858)
Crustacea/Crustaceans, <i>s.pl.</i> cragogion, crawogion, crestogion, crestfilod.	Crustacea/Crustaceans, <i>s.pl.</i> (Ll. <i>crusta</i>) crestogion, crofenogion, crawenogion, crawogion, crestfilod : <i>sing.</i> crestfil, crestogyn.
Nitrogen, <i>s.</i> blorai, trengnwy.	Nitrogen gas, blornwy, nwy blorig, nwy blorai; blorai.
Trachea, <i>s.</i> brefant, corn gwddf, pibell wynt.	Trachea, <i>s.</i> (Ll.; Gr. <i>tracheia</i>) breuant, brefant, corn chwyth, pibell wynt, corn y geg, corn gwddf, corn breuant, pibell yr ysgyfaint.
Vapour/Vapourize, <i>v.n.</i> tarthio; brolio, gwagfostio, tarthfadd, baddon tarth.	Vapour, <i>v.</i> tarthu, tarthio, tarthian, ageru, agerddu, mygdarthu; bygylu, bocsachu, brolio, ymffrostio, trystio.

Amlygodd Silvan ei awydd i geisio cyflenwi diffygion geirfaol y Gymraeg mewn amrywiol ganghennau o wybodaeth ym mhedwardegau'r ganrif ac awgrymwyd mai dilyn yr esiampl a osododd Caerfallwch a wnâi pan anfonai restrau o eiriau Cymraeg at y cylchgronau.²⁹ Ym 1844 cyhoeddwyd ei restrau o "eiriau newydd a diwygiedig" yn *Y Cwmwl* ac i'r *Drysorfa Gynulleidfaol* ym 1846.³⁰ Fel y mae teitl y rhestrau'n awgrymu, cymysgedd o fathiadau a hen eiriau sydd ganddo gydag ystyr newydd wedi ei briodoli i'r geiriau a atgyfododd. Gwelir yma ymgais i ddilyn traddodiad 'brodorol' poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddisgrifiwyd gan R. Elwyn Hughes fel traddodiad lle'r arferai'r Cymry:

... fanteisio ar adnoddau cynefin y Gymraeg un ai trwy atgyfodi hen dermau darfodedig a'u gwisgo ag ystyr newydd, neu trwy fathu neu synthesu termau llwyr newydd gan dynnu ar adnoddau brodorol yr iaith.³¹

Y nod felly, oedd tynnu ar yr adnoddau a fodolai eisoes yn yr iaith er mwyn cyfoethogi'r Gymraeg a rhoi bywyd newydd iddi ac fe welir bod rhai o'r cynigion a gyhoeddodd Silvan yn *Y Cwmwl* a'r *Drysorfa Gynulleidfaol* yn ddigon

²⁸ Morgan D. Jones, op. cit., t.96.

²⁹ Ibid., t.83.

³⁰ *Y Cwmwl*, Alban Eilir 1844; Gorffennaf 1844; Awst 1844; Medi 1844; Hydref 1844. *Y Drysorfa Gynulleidfaol*, Mehefin 1846; Gorffennaf 1846.

³¹ R. Elwyn Hughes, *Nid Am Un Harddwch Iaith: Rhyddiaith Gwyddoniaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1990), t.10.

derbyniol, er enghraifft: 'dyleb' ('invoice'), 'mwyadur' ('microscope'), 'olddyled' ('arrear') a 'tolnod' ('apostrophe'). Ceisiodd Silvan boblogeiddio egwyddorion a bathiadau William Owen Pughe hefyd oherwydd mae toreth o'r geiriau a gyhoeddwyd ganddo yn *Y Cwmwl a'r Drysorfa Gynulleidfaol* naill ai'n eiriau a fathwyd gan Pughe ac a ymddangosodd gyntaf yn ei eiriadur, neu'n eiriau a fathwyd gan rai o'i ddilynwyr. Credir mai Silvan oedd yn gyfrifol am fathu'r gair 'telyneg'³² yn ogystal â 'gwyddoniadur'³³ ac mae'n bosib bod 'allfori' ('to export'), 'delweddu' ('to portray'), 'llofnodi' ('to sign') a 'pwyllgor' ('committee') wedi plwyfo yn yr iaith fel canlyniad i'r sylw a roddodd iddynt. Serch hynny, methiant fu ei ymdrech i boblogeiddio geiriau megis 'arwaeseb' ('certificate') a 'clasgor' ('college'). Un rheswm posib paham nad ymgartrefodd llawer o'i gynigion yn y Gymraeg yw'r ffaith eu bod yn dermau dianghenraid. 'Roedd 'tystysgrif' eisoes yn cael ei arfer am 'certificate' ac fe gâi 'coleg' ei ddefnyddio am 'college'. 'Roedd yr awydd ymhlith y Cymry yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gyfoethogi geirfa'r Gymraeg wedi peri i nifer fathu termau newydd pan oedd termau digon cyffredin ac adnabyddus yn bodoli eisoes. Meddylier er enghraifft am 'coras' a gafodd ei gynnig yn rhestrau Silvan fel term Cymraeg am 'circumference'. Câi 'amgylchedd', 'cylched' a 'cylchedd' eu defnyddio'n barod ond os edrychir am 'circumference' yng ngeiriaduron Caerfallwch a Silvan deuir ar draws hyd yn oed fwy o gyfystyron:

GEIRLYFR SAESONEG A CHYMRAEG (1850)	AN ENGLISH AND WELSH DICTIONARY (1847 - 1858)
Circumference, sir-cym'-ffe-rens, s. cylch, cwmpas, cylched, cylchedd, amgant, cant, troniad, côras.	Circumference, s. (Ll. <i>circumferentia</i>) amgylchedd, cylchedd, rhygylch, cylch, amgant, cwmpas, cylched, coras, cant, tronad, dargylchiad, gogylch, gogylchedd.

Gyda threigl y blynyddoedd, magodd Silvan fwy o hyder wrth iddo ddechrau arbrofi gyda geirfa dechnegol. Ar ddechrau'r pumdegau, golygodd ddwy gyfrol fechan yn seiliedig ar *Joyce's Scientific Dialogues*, sef *Elfennau Gallofyddiaeth*³⁴ ac *Elfennau Seryddiaeth*,³⁵ i ddangos bod modd defnyddio'r Gymraeg i drin a thrafod pynciau technegol. Cyfrol ar Fecaneg oedd *Elfennau Gallofyddiaeth* ac ynddi cyfeirir at yr anawsterau a wynebai'r sawl a oedd am greu rhyddiaith

³² T. H. Parry-Williams, *Elfennau Barddoniaeth* (Caerdydd, 1935), t.21.

³³ Morgan D. Jones, op. cit., t.103.

³⁴ Daniel Silvan Evans, *Elfennau Gallofyddiaeth* (Dinbych, 1850).

³⁵ Daniel Silvan Evans, *Elfennau Seryddiaeth* (Dinbych, 1851).

wyddonol Gymraeg. Prinder geirfa addas oedd y brif broblem, wrth gwrs.

Dyweddodd Silvan:

Un o'r anhawsterau mwyaf yn ffordd yr ymgais i ysgrifenu yn eglur ar destun perthynol i anian a chelfyddyd, mewn iaith nad ysgrifenydd ond ychydig neu ddim arno ynddi o'r blaen, ydyw y diffyg o eiriau priodol a dealladwy. Ar bwnc newydd, annichonadwy yn fynych yw cael geiriau sathredig a hysbysant y meddwl; ac os arferir rheolaidd o wreiddiau Cymreig, byddant yn aml yn annealladwy i ddarllenwyr cyffredin.³⁶

Dengys y drafodaeth yn *Elfennau Gallofyddiaeth* fod Silvan yn coleddu'r un math o syniadau â William Owen Pughe a Chaerfallwch a bod ganddo yntau'r un ffydd yn hunan-ddigonolrwydd y Gymraeg. Credai y medrai "galluoedd digyffelyb y Gymraeg" ateb bob diben gwyddonol.³⁷

Cafodd Silvan gyfle arall i arbrofi gyda geirfa yn fuan wedi cyhoeddi *Elfennau Gallofyddiaeth ac Elfennau Seryddiaeth* pan fu'n cynorthwyo Thomas Gee gyda rhifynnau cyntaf *Y Gwyddoniadur Cymreig* a phan fu'n ysgrifennu erthyglau ar eu cyfer. Gellir tybio mai ef fu'n gyfrifol am gyfrannu llawer o'r termau Cymraeg a geir yn y rhifynnau hynny oherwydd mae un o'i lyfrau nodiadau'n cynnwys rhestr faith o dermau'n dwyn y pennawd "Attodiad i Fynegai Y Gwyddoniadur Cymreig".³⁸ Mewn llyfrau nodiadau eraill o'i eiddo ceir rhagor o restrau tebyg sy'n cynnwys geiriau Saesneg ansathredig a chyfystyron Cymraeg ar eu cyfer.³⁹

Trwy gydol yr amser, nod Silvan oedd llunio geiriadur cynhwysfawr a fyddai'n dangos y Gymraeg yn ei helaethrwydd ac a brofai ei bod hi'n gydradd â'r Saesneg. Cododd Silvan enwau o lysieulyfrau gwahanol gan wneud defnydd arbennig o waith Hugh Davies, sef *Welsh Botany* ac 'roedd yn ddigon bodlon cynnwys termau newydd a oedd wedi ymgartrefu yn yr iaith yn barod.⁴⁰ Serch hynny, 'roedd yn gyndyn ar adegau i gynnwys geiriau Cymraeg a fenthyciwyd o'r Saesneg.⁴¹ Mae'n bosib mai dilyn esiampl Pughe yr oedd gan ei fod yntau wedi ceisio osgoi eu cynnwys yn ei eiriadur ef. Credai Pughe ym

³⁶ Ibid., t.2.

³⁷ Ibid.

³⁸ Cwrtmawr 849B.

³⁹ Ibid.

⁴⁰ Hugh Davies, *Welsh Botany* (Llundain, 1813).

⁴¹ Morgan D. Jones, op. cit., t.95.

mhurdeb y Gymraeg a chredai bod modd defnyddio'i hadnoddau cynhenid i fathu termau Cymraeg pur yn lle derbyn benthyciadau Saesneg.

Pwysleisiodd Silvan ar yr wyneb-ddalen mai geiriadur "adapted to the present state of science and literature" ydoedd ac yn y rhagymadrodd dywed:

... Welsh is one of those comparatively few languages capable of furnishing from native roots a complete terminology for all the varied branches of human learning; and that not a few of the terms, especially those relating to science and art, first brought into notice in these pages, have already passed into our literature, where they are likely to maintain their ground.

Dengys y cyfeiriad at "native roots" fod Silvan, yn ystod cyfnod creu'r geiriadur Saesneg-Cymraeg, yn perthyn yn driw i linach William Owen Pughe. 'Roedd y syniad bod y Gymraeg yn gyfrwng cymwys a digonol i gwrdd â gofynion yr oes a bod modd creu geiriau newydd o "elfennau unsill" wedi cydio ym meddwl Silvan. Nid yw'n syndod gweld nifer o elfennau unsill Pughe yn ymddangos yng ngeiriadur Silvan. O eiriadur Pughe y cododd 'amp' am 'calm' mae'n siŵr, yn ogystal â ffurfiau megis 'as', 'ith' a 'til' am 'atom', 'aw' am 'fluid' ac 'erth', 'erthi', 'erthwch', 'bloth' a 'blwth' am 'puff'. At hyn, chwyddwyd ochr Gymraeg y geiriadur yn afreidiol gan bob math o gyfansoddeiriau a grëwyd naill ai gan William Owen Pughe neu gan ei ddilynwyr. Fel esiampl o'r bathiadau diangen a geir yn y geiriadur, cymerer y cofnod sydd gan Silvan ar gyfer 'astronomy', 'elevation' a 'preparation':

Astronomy, s. (Gr. *astronomia*) seryddiaeth, seroneg, seroniaeth, serofyddiaeth, sywedaeth, sewedyddiaeth, sywed, seryddiant.

Elevation, s. (Ll. *elevatio*) dyrchafiad, derchafiad, dyrchafad, codiad, cyfodiad, dyrchafiaeth, derchafiaeth, derchafedd, dyrchafawd, derchawd, derchafed, derchafiant, arddyrchafiad, dyrchafedigaeth, arddyrchafael, dyrchiad, derchiad, derchafael; uchelder, uchder, ucheliant, ucheledd; uchelfan, twyn; briad, bri, urddas; mygdarthiad.

Preparation, s. (Ll. *præparatio*) paratoad, darpariad, darpar, darpariaeth, darparaeth, armerth, darmerth, parodiant, parodiad, parodiaeth, darparedigaeth, parodhad, rhagddarpar, cynnarpar, cyfarpar, arddarpar, arparaeth, arpariad, armerthiad, cynarmerth, cyfarpariad; arlwy, rhagarlwy, arlwyant (*pl.* arlwyannau), arlwyad; cyweiriaeth, cyweirdeb; cyfaredd, cyflaeth.

Heb os, 'roedd Silvan yn orawyddus i ddatblygu geirfa'r Gymraeg gan ei fod yn dueddol o gynnig detholiad o gyfystyron Cymraeg ar gyfer y prifeiriau Saesneg. Mae ganddo chwe deg o gyfystyron ar gyfer 'foul' er enghraifft, heb ddim ond gwahannod i wahanu grwpiau o eiriau sy'n rhannu'r un ystyr oddi wrth ei gilydd. O dan 'cut', mae'n rhestru chwe deg pedwar enw Cymraeg ac o dan 'to sink'

ceir tri deg wyth o gyfystyron. Wrth gymharu cofnodion Silvan a Chaerfallwch, fe welir bod Silvan yn nodi mwy o gyfystyron fel arfer, er enghraifft:

GEIRLYFR SAESONEG A CHYMRAEG (1850)	AN ENGLISH AND WELSH DICTIONARY (1847 - 1858)
Air, s. awyr; awel; wybr; wybren; âw; air ... <i>Musical air</i> , — alaw	Air, s. (Ff. <i>air</i> ; Ll., Gr., a Gw. <i>aer</i>) awyr; awel, chwa; ffên; gwynt; wybr, wybren; dygan, alaw, prifalaw; melodeg; trem, golwg, pryd, gwedd, edrychiad, ystum, gosgedd, ymddangosiad; mursendod, cymhendod, ucheldrem, ffroenuchder; ffromder, coegedd
Cadence, s. lleddfeb; lleddflais, lleddfleisiad, disgynsain	Cadence/Cadency, s. (Ff. <i>cadence</i> ; Ll. <i>cadens</i>) gostyngiad, disgyniad, cwyp; disgynsain, lleddfeb, lleddflais, gostyngiad y llais, amrywiad llais, disgynlais; goslef, tôn, sain; saib, gorphwysfa, gorphwys; cloaddurn, seibaddurn; persain; cyfysgogiad, tegdroediad; gwahaniaeth teuluoedd; iawn-fesuriad
Evaporate, v.n. tARTHIO, mydgarthio; gwasgaru	Evaporate, v. (Ll. <i>evaporo</i>) tARTHU, anweddu, mydgarthu, ageru, agerddu, tARTHAIN, anwyddo, mygu allan, mygu, dydarththu; bwrw ager, agerdd, mydgarth, <i>neu</i> anwedd; bwrw allan dARTH <i>neu</i> fygdARTH; bwrw allan ager <i>neu</i> anwedd; esgyn yn dARTH <i>neu</i> anwedd; myned yn dARTH <i>neu</i> anwedd; myned i fyny yn dARTH, ager, <i>neu</i> anwedd; codi yn dARTH <i>neu</i> ager; anadlu, chwythu allan; chwysu allan; gwasgaru, gwasgar
Flute, s. mosbib, pillrych, gwlf, sylch <i>Octave flute</i> , — wythonbib	Flute, s. (Ff. <i>flûte</i> ; Al. <i>flöte</i> ; It. <i>flauto</i> ; Ll. ac Ysp. <i>flauta</i>) mosbib, chwibanogl, pibell, pib; sylch, rhigol, gwlf, rych, colofrych, pillrych, pillgwys, rhygn; hirlong, pibellfad
Gamut, s. seinradd	Gammut/Gamut, s. (Ysp. <i>gamma</i> ; Ff. <i>gamme</i>) graddfa, seinradd, grisiau cerdd arwest, graddeg, griseg
Globosity/Globularness, s. crynedd, amgrynedd, crynder, argryniad, argrynedd	Globosity, s. crynder, cyfrgrynder, crynrwydd, cynghrynrywdd, crynedd, cyfangrynedd, cryneiddrwydd, cronellogrwydd, cronenogrwydd, crwmach
Harmony, s. cysondeb; cynghanedd, cysonedd, ceiniedi; peroriaeth, cynghord, eilion	Harmony, s. (Gr. a Ll. <i>harmonia</i>) cyssondeb, cysonedd, cyssondra, cysseinedd, cydseinedd, cytundeb, cynghanedd, cynghan, peroriaeth; cyttonedd, cynhonedd, ceiniedi, cysseiniaeth, cydseiniaeth, cydseiniant; cydgan, cydgerdd, cyngherdd, cynghord, cydgord; alaw, cerddoriaeth, cywyddoliaeth, eilon, eilwy, eilyw, eilyg, eilw, alawn, anant, cyfeilyw; cydweddiad, cydfod
Hydrometry, s.gwyfydriad, gwyfeidriad	Hydrometry, s. dyfrfesuriaeth, dyfrfydraeth, gwyfesuriaeth, awfesuriaeth, gwyfydraeth, dyfrfydriad, gwyfydriad
Piano-Forte, s. pêrdoneg	Piano-forte, s. (It.) perdonell, perdoneg, eiloneg
Prosody, s. acenyddiaeth; lleisiadaeth, silliadaeth; mydrofyddiaeth	Prosody, s. (Gr. <i>prosōdia</i>) tonyddiaeth, mydrofyddiaeth, tonofyddiaeth; acenyddiaeth; mydryddiaeth; celfyddyd mydru <i>neu</i> bydru; lleisiadaeth

Er bod gan Silvan a Chaerfallwch fwriadau hollol ddidwyll o estyn terfynau'r Gymraeg i gwrdd â gofynion yr oes, nodweddid ymdrechion y ddau gan wendidau amlwg. Fe gofir bod Caerfallwch yn newid ei feddwl yn gyson wrth chwarae â geiriau ac nad oedd hi'n anarferol gweld ei gynigion am derm arbennig yn Saesneg yn amrywio o un rhestr i'r llall. Ni welai Silvan yr angen i ddewis a dethol geiriau. Yn ei olwg ef, gorau po fwyaf o amrywiadau ar derm a geid oblegid fe fyddent oll yn ychwanegu at gyfoeth y Gymraeg. Mae'n siŵr bod anghysondeb Caerfallwch a'r llu cyfystyron a gyflwynai Silvan ar gyfer termau Saesneg wedi peri dryswch i unrhyw un a borai drwy eu geiriaduron. Yn absenoldeb unrhyw fanylion i wahaniaethu rhwng y gwahanol dermau neu unrhyw ganllaw i ddynodi ym mha gyd-destun y gellid eu defnyddio, byddai'n rhaid i'r defnyddiwr ddewis un term ar fympwy a gobeithio'r gorau.

Rhoddodd Silvan le amlycach i idiomau ac ymadroddion nag a wnaeth Caerfallwch. Dyna un o brif ragoriaethau geiriadur John Walters wrth gwrs ac nid oes amheuaeth nad oedd Silvan wedi gwneud cryn ddefnydd ohono. Yn wir, honnodd Thomas Parry mai sylfaenu ei eiriadur ar waith Walters a wnaeth Silvan.⁴² Gwelir o'r ychydig enghreifftiau a ganlyn pa mor ddyledus ydoedd i'w ragflaenydd:

AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794)	AN ENGLISH AND WELSH DICTIONARY (1847 - 1858)
¶ <i>Before the ceremony was over</i> , Cyn gorphen y gwasanaeth. <i>I went thither only out of ceremony</i> , Mi a aethym yno yn unig o ran defod ac arfer. ¶ <i>Without ceremony</i> , Heb na rhwysg na rhodres. <i>Master of the ceremonies</i> , Cyfeistyddiwr llŷs; meistr y chwaraeon.	Before the ceremony was over—cyn gorphen y gwasanaeth. I went there only out of ceremony—aethym yno yn unig o ran defod ac arfer. Without ceremony—heb na rhwysg na rhodres; yn ddiymannerch; heb na moes na defod. Master of ceremonies—cyfeistyddiwr llys; meistr y chwaraeon; meistr y moesffurfiau.
¶ <i>To overhale a horse, &c.</i> [make him hale or work beyond his strength] Peri (gwneuthur) i geffyl, <i>neu'r cyffelyb</i> , weithio'n rhy galed; ¶ gweithio ceffyl, <i>neu ryw anifail arall</i> , yn rhy galed (y tu hwnt i'w allu). ¶ <i>To overhale (goods) &c.</i> [rummage in order to find out some article] Chwilio drosodd (drosto <i>neu drostynt</i>), symmudo bob yn un, edrych drosodd (drosto <i>neu drostynt</i>). ¶ <i>To overhale accmpts &c.</i> [re-examine, or	To overhaul a horse—peri <i>neu wneuthur</i> i geffyl weithio yn rhy galed; gweithio ceffyl yn rhy galed; gweithio ceffyl tu hwnt i'w allu. To overhaul (goods)—chwilio drosodd, drosto, <i>neu drostynt</i> ; symmudo bob yn un; edrych drosodd, drosto, <i>neu drostynt</i> . To overhaul accounts—ail holi <i>neu ail chwilio</i> cyfrifon; edrych, rhedeg, <i>neu fyned</i> dros gyfrifon yr eilwaith; edrych, rhedeg, <i>neu fyned</i> dros gyfrifon o newydd. To overhaul a matter—myned dros beth o

⁴² Thomas Parry, 'Daniel Silvan Evans, 1818 - 1903', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1981, t.116.

<p>run over anew] Ail-holi (ailchwilio) cyfrifon; edrych (rhedeg, myned) tros gyfrifon yr eilwaith <i>neu</i> o newydd.</p> <p>¶ To overhale a matter [go over, or bring up, afresh] Myned tros beth (dwyn peth i fyny <i>neu</i> i'r holfa) o newydd.</p>	<p>newydd; dwyn peth i fyny o newydd; dwyn peth i'r holfa o newydd.</p>
<p>¶ To sleep lightly [not soundly] Gogysgu, dygysgu, dargysgu, darhuno, darren, heppian; amrant-huno.</p> <p>¶ To sleep soundly [be in a fast or sound sleep] Cysgu yn drwm, trwm-gysgu, bod mewn trymgwsg.</p> <p>¶ To sleep a dog's sleep, Cymmeryd arno gysgu, dynwarded cysgu, rhith-gysgu, esgus-gysgu.</p> <p>¶ To sleep in a whole skin, Ymgadw yn groen gyfan (yn ddiāsgen, yn ddiberygl); cadw ei droed o'r fagl.</p> <p>¶ To sleep away cares, Cysgu ymaith ei ofalon; ¶ bwrw (gadaw) ei ofalon ar y gobenydd.</p>	<p>To sleep lightly—gogysgu, dargysgu, dygysgu, heppian, amrantuno.</p> <p>To sleep soundly—cysgu yn drwm, trwm gysgu, trymgysgu, bod mewn trymgwsg, trymhuno.</p> <p>To sleep a dog's sleep—cymmeryd arno gysgu; dynwarded cysgu, coegio cysgu, rhith-gysgu, esgus-gysgu.</p> <p>To sleep in a whole skin—ymgadw yn groen-gyfan, yn ddiāsgen, <i>neu</i> yn ddiberygl; cadw ei droed o'r fagl.</p> <p>To sleep away cares—cysgu ymaith ei ofalon; bwrw <i>neu</i> adaw ei ofalon ar y gobenydd.</p>

Benthycodd Silvan liaws o gofnodion Walters air am air ac mae'r idiomau a gyfieithir gan y ddau yn dilyn yr un drefn fel arfer ond rhaid cofio bod defnyddio cofnodion geiriadurwr arall fel ag yr oeddent yn beth digon cyffredin yn hanes geiriaduraeth. Yn amlach na pheidio, gan Walters y ceir y cofnodion mwyaf trefnus a chlr. O edrych ar yr hyn sydd gan y ddau ar gyfer yr enghreifftiau a ganlyn, gwelir bod Walters yn tueddu i nodi'r gwahaniaeth rhwng yr ystyron gwahanol yn fwy gofalus na Silvan:

AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794)	AN ENGLISH AND WELSH DICTIONARY (1847 - 1858)
<p>To charm [inchant or fascinate] Swyno, swynogli, arganfod, llygad-dynnu, gorchanu, rheibio.</p> <p>To charm [please or delight very much] Boddhâu yn fawr dros ben (tu hwnt i fesur), llonni, llonnychu. <i>Music charmeth the ears</i>, Llonna cerddwriaeth y clustiau.</p> <p>To charm [win or engage the affections of] one, Denu (tynnu, hudo, llithio, ynnill) serch un.</p> <p>To charm [appease, or allay] Dyhuddo; lliniaru.</p>	<p>Charm, v.a. swyno, rhinio, rhino, swynogli, cyfareddu, llygattynu, hudo, llithio, denu, boddio, dyhuddo, lloddi, llinaru, lloni, llonychu; tynu <i>neu</i> ennill serch; rhempio, ystrempio, arganfod, rheibio; gorchanu, cynghanu, cynghanseinio</p>
<p>To hárbour, Llettŷu, croesawu i lettŷa, derbyn yn groesawus, arfolli, &c. (See to Entertain [receive hospitably, &c.]); goddef i aros; cynnwys, goddef, gadael i fod, &c. (See to Admit, in it's 1st and 2nd Acceptation): nodd, achlesu, ymgeleddu, &c. (See to Countenance [protect, &c.]): llochesu; clogi.</p> <p>To harbour [take up one's lodging] Llettŷu, lettŷa, cymmeryd (gwneuthur) ei letty, cymmryd lletty; cartrefu, &c.</p>	<p>Harbour, v. llettya, arfolli, croesawu, croesaw, groesawu, gresaw, arfoll, llettyu; croesawu i lettya; derbyn yn groesawus; llochesu, achlesu, amgeleddu; cysgodi, gwasgodi, nodd, diogelu, dirgelu, celu, gogelu; anwesu, amwesu, mynwesu, coleddu; goddef i aros; cynnwys; gadael i fod; rhoi lle i; cartrefu; cymmeryd/gwneuthur ei letty; cymmeryd lletty; ymnoddi, ymlechu, llechu; myned i orwedd; myned i'w loches; cymmeryd ei orwedd</p>

<p><i>To harbour</i> [cherish or savour] an opinion. See <i>to Entertain</i> [admit, &c.] ¶ <i>To harbour</i> [lodge or go to rest, as a stag, &c.] Myned i orwedd, cymmeryd ei orweddfa, myned i'w loches.</p>	
<p><i>Rough</i> [not even, rugged, &c.] Garw, agarw, gerwin, anwastad; ysgryd, &c. See <i>Craggy</i>. <i>Rough</i> [not smooth, unpolished] Anllyfn, anllathr, aflathraidd, anghabol. <i>Rough</i> or <i>tempestuous</i> [as the sea or weather] Garw, rhyferthwyog, tymmhestlog... <i>Rough</i> or <i>coarse</i>. See <i>Coarse</i>, in it's several Acceptations. <i>Rough</i> [shaggy, &c.] Blewog, <i>Jer.</i> li. 27 – hyll. See <i>Hairy</i>, and <i>Bristled</i>. – See also <i>rough Hair</i>, and <i>rough Haired</i>, both under <i>H</i>. <i>Rough</i> [apply'd to the look or looks, &c.] See <i>Grim</i>. <i>Rough</i> [apply'd to the Temper, to Treatment, to Taste; to Sound; &c.]. See <i>Harsh</i>, in it's several Acceptations.</p>	<p><i>Rough</i>, a. (S. <i>hreog</i>, <i>hrug</i>, <i>rug</i>; Is. <i>ruig</i>) garw, gerwin, agarw, gerwinol; anwastad, clogyrnog, ysgryd; bras; aflyfn, anllyfn, anllathr, anllathraidd, aflathr, aflathraidd anghabol; tonog, tymhestlog, rhyferchwyog; sarig, afrywiog, anfwyn, difoes; hyll; hagr; crych; cryg; ysgethrog; blewog; sur; chwerw; chwefr</p>

Tynnodd Morgan D. Jones sylw at y diffyg cymesuredd yng ngwaith Silvan gan ddweud ei fod yn llithro dros ambell air pwysig man hyn a man draw a'i fod yn ymhelaethu gormod ar eiriau cymharol ddibwys.⁴³ Yr enghraifft y bu'n ei thrafod oedd ei gofnod am 'ask'. Rhydd Silvan ddeg o gyfystyron a dau ymadrodd yn unig ond neilltuodd Walters dudalen a hanner i ymdrin ag 'ask'. Anaml iawn y mae idiomaau a phriod-ddulliau Silvan yn rhagori ar rai Walters. Ymddengys mai'r ffordd orau, i geisio gwella ar waith ei ragflaenwyr a chyfoethogi'r Gymraeg, yng ngolwg Silvan, oedd gofalu bod digonedd o gyfystyron Cymraeg ar gyfer pob gair Saesneg. Canolbwyntiodd felly ar luosogi enghreifftiau yn hytrach na dewis a dethol y goreuon.

Un o brif nodweddion geiriadur William Owen Pughe yw'r hen eirfa Gymraeg a geir ynddo, geirfa a gododd o'r hen destunau rhyddiaith a'r hen ganu. Erbyn heddiw, gwyddys nad yw nifer fawr o'r ffurfiau sydd ganddo a'r ystyron a rydd iddynt yn ddibynadwy oherwydd ei fod wedi eu camddarllen a'u camgopïo, ond yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ystyrid Pughe yn awdurdod ar y Gymraeg ac ar y cyfan ychydig iawn oedd yn amau dilysrwydd ei waith. Pan drodd Silvan at eiriadur Pughe, daeth ar draws crugyn o eiriau na welsai o'r blaen mewn unrhyw eiriadur arall. Gan ei fod yn anelu at ddangos cyfoeth y Gymraeg a'i fod am nodi cymaint o gyfystyron â phosib, cododd lawer

⁴³ Morgan D. Jones, op. cit., t.106.

iawn o hen eiriau Pughe i'w cynnwys yn ei eiriadur ei hun. Gosododd hen eiriau hollol anymarferol a fuasai farw ers amser ymhlith nifer o gyfystyron Cymraeg eraill a hynny heb nodi mai geiriau hynafol oeddent. Mae ganddo 'aer' ac 'aergad' am 'battle', 'ardduo' am 'to darken', 'buria' am 'carcass', 'gne' am 'cast' ac 'erfid' am 'encounter'. Gresyn na ddilynodd esiampl John Davies neu Thomas Richards trwy ddefnyddio obelisc (†) i ddynodi hen eiriau. Gresyn hefyd iddo gael ei gamarwain droeon gan Pughe. Mae'r ffurfiau a dyfynnwyd uchod yn gywir ond cynhwysodd ambell ffurf a gamddarllenwyd ac a gamgopiwyd o hen destunau gan Pughe ond gan nad oedd Silvan wedi cychwyn astudio hen eirfa'r Gymraeg yn iawn pan oedd yn paratoi'r geiriadur Saesneg-Cymraeg, ni ddylid ei feirniadu'n ormodol am gael ei gamarwain ganddo. Yn ddiweddarach, aeth Silvan ati i astudio hen eirfa'r Gymraeg yn fanwl ac fel y cawn weld, tynnodd sylw at y ffurfiau a gamgopiwyd ac a gamddarllenwyd gan Pughe.

'Roedd orgraff y Gymraeg yn dal yn bwnc dadleuol pan gyhoeddwyd y geiriadur Saesneg-Cymraeg ac mae rhai o'r cofnodion a geir ynddo yn dangos pa mor ansefydlog oedd yr orgraff yn ystod y cyfnod hwnnw. 'Roedd Silvan ei hun yn ddigon ansicr ei feddwl a chan nad oedd ganddo reolau neu ganllawiau pendant i'w dilyn, tueddai i gynnwys geiriau yn eu holl amrywiol ffurfiau orgraffyddol. Dyna'i ffordd ef o geisio plesio pawb mae'n rhaid.

Anfonodd Silvan gyfraniadau i'r wasg Gymreig yn gynnar yn ei yrfa. Dengys ei sylwadau ar orgraff yr iaith, a gyhoeddwyd yn *Y Diwygiwr* ym 1839, ei fod yn ddisgybl ffyddlon i William Owen Pughe yr adeg honno.⁴⁴ Yn *Blodeu Ieuainc*, ceir traethawd yn canmol 'Idrison' (sef enw barddol Pughe) a phan fu'n trafod orgraff y Gymraeg yn gyhoeddus am y tro cyntaf dilynai reolau orgraff Pughe ynghylch dyblu 'n' a defnyddiai 'v' yn lle 'f' ac 'f' yn lle 'ff'.⁴⁵ Eithr nid oedd Silvan yn gyson bob amser. Wrth ddisgrifio'i ffordd o weithio, cyfaddefodd:

My rule is to have *no* rule ...⁴⁶

a phan ofynnid iddo wrth ba reol y gweithiai, mae'n debyg mai'r un ateb a roddai bob tro, sef:

⁴⁴ Daniel Las o Geredigion, 'Llythyreniad y Gymraeg', *Y Diwygiwr*, 1839, t.265 a t.329.

⁴⁵ *Y Diwygiwr*, tt.265-266; tt. 329-330.

Yr wyf yn gweithio nid wrth reol, nac yn ddi-reol, ond heb reol.⁴⁷

Bu Silvan yn gyfrifol am olygu tri argraffiad o *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg*. Mae'n werth sôn amdanynt wrth basio oherwydd maent yn dangos pa mor ansicr yr oedd Silvan ynghylch orgraff yr iaith a'i fod wedi newid ei feddwl gydag amser. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym 1853⁴⁸ a chyhoeddwyd y ddau arall ym 1865⁴⁹ ac 1878.⁵⁰ Ni fodlonodd Silvan ar argraffu'r testun yn union fel yr oedd. Esboniodd ei fwriad yn rhagymadrodd yr argraffiad cyntaf:

... un o brif amcanion ei gyhoeddi y tro hwn ydyw, ei adferyd i'w burdeb cyssefin, heb chwanegu atto, na thynu oddiw'rtho, na chyfnewid arno.⁵¹

Diwygiodd a thaclusodd y testun a newidiodd yr orgraff er mwyn iddo fod yn argraffiad poblogaidd a fyddai o fewn cyrraedd y Cymro cyffredin. Ar y pryd, ni welai Silvan ddim o'i le ar ddiweddarau'r orgraff fel y mynnai. Gwnaethai Pughe hynny wrth ddyfynnu darnau o lenyddiaeth Gymraeg yn ei eiriadur ac mae'n rhaid cofio bod cryn wahaniaeth rhwng safonau ysgolheictod yr oes honno a'n hoes ni ac na ddechreuwyd trin iaith mewn dull gwyddonol gywir tan draean olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i beirniadwyd yn hallt gan John Morris-Jones am fod:

... yr orgraff wedi ei doctora a'i phuweiddio hyd nad adwaenai Elis Wyn mo'i waith ei hun.⁵²

Trodd anghysondeb Silvan yn ansicrwydd ymhen rhai blynyddoedd wrth iddo ddechrau amau dilysrwydd syniadau Pughe a'i ddilynwyr, sef yr 'ysgol newydd'. Ym 1850, gwelir ef yn galw am ymgais i safoni'r orgraff:

Y mae yn llawn bryd bellach astudio y Gymraeg, yr un modd a phob iaith arall, *fel y mae*, ac nid *fel y dylai fod*, yn ol mympwy hwn ac yn ol dychymyg un arall, a gweithredu yn y gwrthwyneb i hyn sydd wedi llurgunio ein hiaith, a gwenwyno ein llenyddiaeth, yn ystod yr hanner canrif diweddaf.⁵³

⁴⁶ J. Myfenydd Morgan, 'Y Canghellor Silvan Evans', *Y Geninen*, Gŵyl Ddewi, 1919, t.7.

⁴⁷ D. Samuel, 'Silvaniana', *Y Geninen*, Ionawr 1915, t.15.

⁴⁸ Ellis Wynne, *Gweledigaethau y Bardd Cwsg gan Ellis Wynne; gyda nodiadau eglurhaol gan D. Silvan Evans* (Caerfyrddin, 1853).

⁴⁹ Ellis Wynne, *Gweledigaethau y Bardd Cwsg gan Elis Wynn. Ail argraffiad diwygiedig gyda nodiadau eglurhaol gan D. Silvan Evans* (Caerfyrddin, 1865).

⁵⁰ Ellis Wynne, *Gweledigaethau y Bardd Cwsg gan Elis Wynn. Trydydd argraffiad diwygiedig gyda nodiadau eglurhaol gan D. Silvan Evans* (Caerfyrddin, 1878).

⁵¹ *Ibid.*, t.ix.

⁵² Ellis Wynne, *Gweledigaethau y Bardd Cwsg gan Ellis Wynne, dan olygyddiaeth J. Morris-Jones* (Bangor, 1898), t.ii.

⁵³ *Y Cymro*, Mawrth 12ed, 1850.

Teimlai y dylai aelodau'r hen ysgol, a safai dros yr orgraff draddodiadol, ddod ynghyd i gynnal trafodaethau gydag aelodau'r ysgol newydd. 'Roedd angen i'r ddwy blaid gyfaddawdu, meddai, fel y gellid cyrraedd man canol a:

... dwyn unffurfiad trwyadl i mewn i orgraff yr iaith ...⁵⁴

Tua'r un adeg ar ddechrau'n pumdegau, 'roedd gan Silvan gynlluniau i gyhoeddi pamffled neu lyfryn bychan ar orgraff y Gymraeg ond nid ymddangosodd y gyfrol - *Llythraeth yr Iaith* - tan 1861.⁵⁵ Er bod Silvan wedi llafurio'n galed i'w gynhyrchu, ychydig iawn o ddylanwad a gafodd ar feddylfryd ac arferion y Cymry'n gyffredinol. Dywedodd Thomas Parry:

... yr oedd gwybodaeth ieithyddol yr awdur a chyraeddiadau ysgolheictod Cymraeg y cyfnod yn rhy gyfyng i'r gwaith fod o lawer o werth, ac aeth pawb ymlaen i sillafu yn ei ffordd fach ei hun yn hapus.⁵⁶

Ynddi, ceir ymdriniaeth fanwl â tharddiad, ynganiad a sillafiad geiriau ac fe geir rhestr yn cynnwys oddeutu 6,000 o eiriau ar y diwedd. Ni cheisiodd Silvan gynnig cynllun newydd gerbron y Cymry. Ei nod oedd cynnig cyfundrefn yn seiliedig ar nodweddion gorau'r dulliau a arferid eisoes. Wrth sôn am orgraff Pughe, dengys Silvan nad oedd yn ei edmygu bellach:

Dilynwyd arddygraff y *Dr. Puw* mewn nifer mawr o eiriau; ond ymwrthodwyd â'i drefn pan y gwelid ef yn anghysson ag ef ei hun, pan y bernid nad oedd ganddo sail i'w gyfnewidiadau, a phan y canfyddid bod ei ddull ef yn groes i lithrigrwydd cyfansoddiad. Y mae *Puw* yn aml iawn wedi aberthu persain i eirdarddiad; ac nid anfynych y mae'r tarddiad hwnw heb well sail iddo na dychymmyg noeth a phenchwibandod.⁵⁷

Erbyn i ail gyfrol y geiriadur ymddangos ym 1858, 'roedd dylanwad Pughe ar Silvan wedi llacio'n raddol. Yn y flwyddyn honno, ysgrifennodd ddwy erthygl a'u cyhoeddi yn *Y Brython*, y naill ar eiriaduraeth Gymraeg⁵⁸ a'r llall ar eiriaduraeth Saesneg.⁵⁹ Yn yr erthygl gyntaf, mae'n trafod cynnwys geiriaduron printiedig gan gynnwys geiriadur Pughe. Fe'i disgrifir fel gwaith gorchestol sy'n cynnwys dros gan mil o brifeiriau, deuddeng mil o ddyfyniadau a miloedd ar filoedd o

⁵⁴ Ibid.

⁵⁵ Daniel Silvan Evans, *Llythraeth yr Iaith* (Caerfyrddin, 1861).

⁵⁶ Thomas Parry, op. cit., t.112.

⁵⁷ Daniel Silvan Evans, op. cit., tt.6-7.

⁵⁸ Moeddyn, 'Geirlyfraeth Gymreig', *Y Brython*, Gorffennaf 2il, 1858, tt.19-20. Sylwer mai gwall y wasg oedd argraffu 'Moelddyn' yn lle 'Moeddyn'.

⁵⁹ Moeddyn, 'Geirlyfraeth Seisonig', *Y Brython*, Medi 10ed, 1858, t.184.

eiriau nas ceir mewn unrhyw eiriadur arall. Er iddo ddweud bod gan y gyfrol ei rhagoriaethau, dywed hefyd bod nifer o ddiffygion yn perthyn iddi. Yr oedd sawl peth yn ei boeni. Dyma ddarn o'i feirniadaeth, fel ag y mae:

Nid yw werth dim gyda golwg ar *dadogaeth geiriau*, y mae wedi ei gyfansoddi ar egwyddor eirdarddol blentynnaidd, na chydabyddir mo honi gan unrhyw ieithydd cyfrifol, hen na diweddar. Y mae yn *creu* geiriau, er mwyn cael gwraidd, fel y tybiai, i eiriau ereill; - gwraidd na welwyd erioed mo honynt cyn iddynt ymddangos yn y Geiriadur hwn. Y mae yn rhoi *ystyr cyfrinol* i eiriau. Trinai y Gymraeg yn y golygiad hwn rywbeth yn debyg i'r hyn y trinai Hutchinson yr Hebraeg. Y mae ystyron i luaws o eiriau na roddir iddynt yn ei Eiriadur ef; ac yn y gwrthwyneb, y mae efe yn rhoi i filoedd o eiriau ystyron nad ydynt mewn un modd yn perthyn iddynt; a hyn, nid o anwybodaeth, ond o herwydd ei gyfundrefn ddychymmygol o darddu geiriau. Tadogaeth geiriau oedd yn penderfynu eu hystyr ganddo, ac nid oedd arfer gwlad o nemawr bwys yn ei olwg. A chan fod y gwreiddeiriau yn fynych yn ddyledus am eu bodolaeth i'w ddychymmyg ffrwythlawn ef yn unig, rhaid fod yr ystyron a roddid i'r geiriau tarddiedig o'r fath eiriau yn sefyll yn fynych iawn ar sail ddim amgen na thywod.⁶⁰

Dyma arwydd pendant fod Silvan wedi sylweddoli, o'r diwedd, mai damcaniaethau gwacsaw oedd gan Pughe ynghylch tarddiad a theithi'r Gymraeg. Yn ôl Silvan, ei wendidau pennaf oedd ei ddiffyg gwybodaeth am ieithyddiaeth gymharol, ei syniadau am wreiddeiriau a'i benchwibandod. Â yn ei flaen i gwyno na ellid dibynnu arno o gwbl am genedl geiriau na therfyniadau lluosog cywir. At hyn, dywed fod Pughe, nid yn unig wedi newid bron i bob dyfyniad "i'w lythraeth ei hun" ond iddo gyfieithu llawer o ddyfyniadau mewn nifer o wahanol ffyrdd o dan wahanol eiriau.

Fel y cawn weld eto, ni lwyddodd Silvan i ymryddhau'n llwyr o afael dylanwad Pughe a pharhaodd yn ansicr ynghylch orgraff y Gymraeg tan ddiwedd ei oes. Fe'i beirniadwyd ef gan John Morris-Jones ym 1898 am fod yn anghyson ac am lynu at gyfundrefn eirdarddol Pughe.⁶¹ Ar ôl i John Morris-Jones a gwŷr megis Syr John Rhŷs ac O. M. Edwards roi trefn ar yr orgraff o 1888 ymlaen ac ar ôl i'r "Report on Welsh Orthography" ymddangos ym 1893, 'roedd Silvan yn dal yn gyndyn i gydnabod awdurdod yr orgraff safonol ddiweddaraf.

⁶⁰ Ibid., t.20.

⁶¹ Ellis Wynne, op. cit., t.lxxii.

Daeth Silvan i gysylltiad â nifer o ysgolheigion ifainc ar ddechrau'r saithdegau ac mae'n rhaid bod eu syniadau gwyddonol hwy am ddatblygiad iaith wedi peri iddo ailystyried damcaniaethau ieithyddol Pughe.⁶² Ehangodd cylch gohebu Silvan gryn dipyn rhwng tua 1846 a 1853. Ymysg y papurau o'i eiddo sy'n perthyn i'r cyfnod hwn ceir nifer o atebion i'w ymholiadau ynghylch gramadegau a geiriaduron Groeg a Lladin, Ffrangeg, Almaeneg, Gwyddeleg a Llydaweg. Ysgrifennodd P.F. Merles⁶³ ato'n sôn am ei waith ei hun ac argymhellodd weithiau eraill a fyddai o ddiddordeb i Silvan gan F. C. Diez⁶⁴ a Le Gonidec.⁶⁵ Cafodd Silvan ei hysbysu gan William Smith⁶⁶ fod y *Dictionary of Greek and Roman Biography and Mythology* ar fin ymddangos⁶⁷ ac mae llythyr ar glawr oddi wrth Henri Gaidoz yn trafod *Revue Critique D'Histoire et De Littérature*.⁶⁸ Bu'n gohebu â V. Pristrini ynghylch gramadegau Eidaleg⁶⁹ a datblygodd ei wybodaeth am astudiaethau ieithyddol yn yr Almaeneg trwy holi Adolphus Bernazs⁷⁰ ac A. Heiman.⁷¹ Dengys yr ohebiaeth rhyngddo a James Tulley,⁷² C. Mahony,⁷³ John O'Donovan⁷⁴ a O'Connellan⁷⁵ fod gan Silvan ddiddordeb arbennig mewn gramadegau a geiriaduron Gwyddeleg. Ar yr un pryd câi gyfle i sôn wrthynt hwythau am y gwaith yr oedd ef yn ei baratoi. Mae'n amlwg ei fod wedi crybwyll ei eiriadur Saesneg-Cymraeg wrth James Tulley a John O'Donovan, er enghraifft. Meddai Tulley:

I feel much obliged for your kind information regarding the *English-Welsh Dictionary* which is being edited by you ...⁷⁶

a gofynnodd O'Donovan:

⁶² R. E. Hughes, 'Aspects of Welsh Lexicography in the nineteenth century with special reference to the contribution of Daniel Silvan Evans', *Traethawd M.A. Prifysgol Lerwpl*, 1941, t.131.

⁶³ Llythyr P. F. Merles, dyddiedig 17/xi/1858. Cwrtmawr 755C.

⁶⁴ F. C. Diez, *Etymologisches Wörterbuch der Romanischen Sprachen* (Bonn, 1853).
F. C. Diez, *Introduction to the Grammar of the Romance Languages ... Translated by C. B. Cayley* (Caeredin, 1863).

⁶⁵ J. F. M. M. A. Le Gonidec, *Dictionnaire breton-français* (Saint-Brieuc, 1850).

⁶⁶ Llythyr William Smith, dyddiedig 1/x/1846. Cwrtmawr 755C.

⁶⁷ George William Smith (gol.), *Dictionary of Greek and Roman Biography and Mythology* (Llundain, 1849).

⁶⁸ Llythyr Henri Gaidoz, dim dyddiad. Cwrtmawr 755C.

⁶⁹ Llythyr V. Pistrini, dyddiedig 15/xi/1853. Cwrtmawr 755C.

⁷⁰ Llythyr Adolphus Bernazs, dyddiedig 14/xi/1853. Cwrtmawr 755C.

⁷¹ Llythyr A. Heiman, dim dyddiad. Cwrtmawr 755C.

⁷² Llythyr James Tulley, dyddiedig 26/v/1848. Cwrtmawr 755C.

⁷³ Llythyr C. Mahony, dyddiedig 5/vi/1852. Cwrtmawr 755C.

⁷⁴ Llythyr John O'Donovan, dyddiedig 23/iii/1852. Cwrtmawr 755C.

⁷⁵ Llythyr O'Connellan, dim dyddiad. Cwrtmawr 755C.

⁷⁶ Llythyr James Tulley, op. cit.

Do you intend sending any number of your work to Dublin or Belfast?⁷⁷

Awgrymodd R. E. Hughes mai ceisio hysbysebu ei waith geiriadurol ei hun a wnâi Silvan pan yrrai lythyron yn holi ynghylch geiriaduron ieithoedd eraill, ond o gofio bod ganddo gymaint o ddilêit mewn geiriaduraeth mae'n fwy tebygol mai ceisio ehangu ei wybodaeth am y maes yr oedd.⁷⁸

Mewn gwirionedd, gellir ystyried y geiriadur Saesneg-Cymraeg fel math o arbrawf ar ran Silvan. Yn ystod y blynyddoedd y bu'n ei baratoi, enillodd gryn wybodaeth am eirfa'r Gymraeg a datblygodd fel geiriadurwr ac fel ysgolhaig. Drwy gydol yr amser ei uchelgais oedd creu geiriadur Cymraeg-Saesneg a fyddai'n seiliedig ar holl gynnwys llenyddol y Gymraeg ac a ddangosai datblygiad ystyron geiriau a'r defnydd a wneid ohonynt. Cyn i'r gwaith ar y geiriadur Saesneg-Cymraeg ddod i ben, 'roedd Silvan wedi cychwyn casglu defnyddiau at lunio geiriadur Cymraeg. Cyfaddefodd ei fod:

... wrth grynoi geiriau at y Geiriadur Seisoneg a Chymraeg wedi cynnull twysged o hen eiriau, yn gystal â rhai mwy diweddar, nad oeddynt i'w cael yng ngeiriadur y Dr. Puw.⁷⁹

'Roedd ganddo syniadau pendant ynghylch y math o waith yr oedd ei angen ar y Cymry. Trown i edrych unwaith yn rhagor ar y ddwy erthygl a gyhoeddodd yn *Y Brython* ym 1858. Mae'n trafod rhagoriaethau a gwendidau geiriaduron Dr. John Davies, Thomas Richards a Pughe yn yr erthygl ar 'Eirlyfraeth Gymreig' er mwyn dangos:

... fod arnom y dydd heddyw ddirfawr angen am eiriadur Cymraeg newydd, a llawer mwy cyflawn, cywir, ac athronyddol nag un sydd yn ein meddiant.⁸⁰

Câi'r Gymraeg, meddai, fwy o sylw gan ieithyddion o wledydd tramor ond cwynent am ddiffygion y geiriadur yn yr iaith. Gwelai Silvan fod angen i wŷr dysgedig ddod ynghyd ac mae'n cloi'r erthygl trwy ofyn:

A oes dim modd i ni yn Nhywysogaeth Cymru gael math o *Accademia della Crusca*, i gasglu a chyhoeddi i ni eiriadur y gellid ei alw yn *National Dictionary of the Welsh Language*.⁸¹

⁷⁷ Llythyr John O'Donovan, op. cit.

⁷⁸ R. E. Hughes, op. cit., t.108.

⁷⁹ Daniel Silvan Evans, *Y Brython* (1859), t.140.

⁸⁰ Moeddyn, 'Geirlyfraeth Gymreig', op. cit., t.20.

⁸¹ Ibid.

Ar hyd y canrifoedd ni chawsai'r gwŷr dysgedig Cymreig gyfarwyddyd mewn dulliau ysgolheigaidd ac ni fodolai'r un gymdeithas neu sefydliad, megis y Brifysgol, i'w tynnu ynghyd. 'Roeddent wedi hen arfer â gweithio'n annibynnol ar ei gilydd ac felly nid oeddent yn debygol o gydweithio a llunio geiriadur. Mae'n amlwg fod Silvan wedi pwysu a mesur y sefyllfa'n fwy gofalus na neb arall ac oherwydd ei fod mor awyddus i fynd â'r maen i'r wal, 'roedd yn benderfynol o ymgymryd â'r dasg ei hun. Gellir casglu, o ddarllen ei erthygl ar 'Eirlyfraeth Gymraeg', iddo gael ei sbarduno i lunio geiriadur Cymraeg gan dri rheswm yn arbennig. Yn gyntaf sylweddolasai fod angen geiriadur newydd i gwrdd â gofynion yr oes gan fod geirfa'r iaith wedi datblygu'n aruthrol ers i eiriadur Pughe gael ei gyhoeddi. Yn ail, gwyddai nad oedd unrhyw eiriadur a fodolai'n gwneud cyfiawnder â'r cyfoeth geiriau a geid yn y farddoniaeth a'r rhyddiaith gynnar. Rhoddid pwyslais ar olygu a chyhoeddi hen destunau fel y dylai'r sawl a'u hastudiai gael geiriadur cynhwysfawr wrth law. Yn drydydd, credai Silvan ei bod hi yr un mor bwysig croniclo geiriau llafar am eu bod yn:

... eiriau Cymreig pur, a geiriau mor briodol, ym mhob ystyr ag unrhyw un yn yr iaith.⁸²

Mae Silvan yn amlygu annibyniaeth barn yma oblegid ychydig iawn o sylw a roddasid eisoes i gofnodi geiriau llafar gwlad.

'Roedd gan Silvan un cymhelliad arall a barodd iddo fynd ati i greu geiriadur newydd, sef ei awydd i ddisodli damcaniaethau ieithyddol cyfeiliornus William Owen Pughe. 'Roedd syniadau'r oes am darddiad a theithi'r Gymraeg wedi newid cryn dipyn ers dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a phan gyhoeddodd J. K. Zeuss ei *Grammatica Celtica* ym 1853 taflwyd goleuni newydd ar y berthynas rhwng yr ieithoedd Celtaidd a gosodwyd sylfaen ieitheg Geltaidd. Sylweddolasai Silvan fod angen geiriadur Cymraeg cwbl newydd wedi ei seilio ar yr wybodaeth ddiweddaraf am yr iaith.

Trodd Silvan ei olygon tuag at Loegr a chanfod y gellid dilyn esiampl a osodwyd gan y Gymdeithas Ieithyddol Seisnig. Yn ystod y pumdegau 'roedd gan y Gymdeithas honno gynlluniau i gyhoeddi geiriadur Saesneg manylach nag unrhyw un a oedd wedi ymddangos cynt. Ym 1859 cychwynnwyd ar y gwaith o

⁸² Ibid.

greu geiriadur cwbl newydd. *A New English Dictionary on Historical Principles* oedd teitl gwreiddiol y geiriadur hwnnw a Herbert Coleridge oedd y golygydd cyntaf ond yn ddiweddarach, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i Syr James A. H. Murray a chyhoeddwyd y gwaith dan enw newydd, sef *The Oxford English Dictionary*. Credir yn gyffredinol mai awgrymiadau'r Parch. Richard C. Trench fu'n bennaf cyfrifol am sbarduno'r Gymdeithas Ieithyddol Seisnig i greu geiriadur Saesneg newydd. Ym mis Tachwedd 1857, traddododd Trench ddwy ddarlith - 'On Some Deficiencies in Existing English Dictionaries' - gerbron y Gymdeithas.⁸³ Trwy ddadansoddi gwendidau amlwg y geiriaduron Saesneg a gyhoeddwyd eisoes a thrwy drafod swyddogaeth geiriadurwyr a geiriaduron, gosododd Trench sylfeini'r cynllun a ddilynwyd i greu'r *Oxford English Dictionary*.

Yn yr erthygl arall ar 'Eirlyfraeth Seisnig' a gyhoeddwyd yn *Y Brython*, mae Silvan yn cyfeirio at weithgarwch geiriadurol y Gymdeithas Ieithyddol Seisnig ac at ddau bapur Trench. Sylwodd Morgan D. Jones ar y tebygrwydd rhwng sylwadau'r ddau.⁸⁴ Mae erthygl Silvan yn adleisio'r cofnod a ysgrifennodd Trench ar 'Dictionary' ar gyfer *Encyclopaedia Britannica* ac mae'n werth dyfynnu'r ddau baragraff yma eto i ddangos pa mor debyg yw disgrifiadau'r ddau o'r hyn y dylid ei gynnwys mewn geiriadur a beth yw swyddogaeth geiriadurwr. Dyma rai o sylwadau Trench:

A dictionary ... is *an inventory of the language*; much more, but this primarily ... It is no task of the maker of it to select the *good* words of the language ... The business which he has undertaken is to correct and arrange *all* words, whether good or bad, whether they recommend themselves to his judgment or otherwise ... He is an historian of the language, *not a critic*.⁸⁵

Cymharer hwy ef â darn o erthygl Silvan:

Dylai geiriadur gynnwys pob gair sydd yn digwydd yn y llenoriaeth y cymmer arno ei egluro ... nad yw yn perthyn i swydd geirlyfrwr feirniadu ar ieithwedd ysgrifenydd, na phenderfynu pa air a ddylid ei wrthod a pha air y dylid ei ddefnyddio. Ei orchwyl ef ... yw cofnodi geiriau fel y byddo yn eu cael ac egluro eu hystyron.⁸⁶

⁸³ Richard Chenevix Trench, *On Some Deficiencies in Our English Dictionaries* (Llundain, 1857).

⁸⁴ Morgan D. Jones, 'Geiriadur Cymraeg Daniel Silvan Evans', op. cit., t.64.

⁸⁵ *Encyclopaedia Britannica* (8^{ed} argraffiad).

⁸⁶ Moeddyn, 'Geirlyfraeth Seisnig', op. cit., t.184.

Rhannai Silvan a Trench ddelfrydau tebyg. Pan draddododd Trench ei bapurau o flaen y Gymdeithas Ieithyddol Seisnig, awgrymodd y dylid creu geiriadur hanesyddol a fyddai'n olrhain hanes a datblygiad geiriau ar hyd y canrifoedd. Cwynai nad oedd geiriadurwyr cyfoes wedi mabwysiadu'r egwyddor hanesyddol a chwynai yn erbyn yr arfer o roi'r ystyr mwyaf cyffredin yn gyntaf yn hytrach na nodi'r ystyron mewn trefn resymegol neu amseryddol. Pe rhoddid sylw priodol a chywir i ddatblygiad hanesyddol geiriau, gwyddai Trench y byddai gofyn rhoi cryn sylw i eirdarddiad ac y byddai angen dangos llw o enghreifftiau a dyfyniadau. Mae'n rhaid bod Silvan, a oedd mor frwd dros gael geiriadur cyffelyb i'r Gymraeg, wedi sylweddoli y gallai ddilyn yr un trywydd â Trench ac y gallai fabwysiadu'r un egwyddorion ag ef.

Wrth ddadlau gyda Thomas Gee yn 1859, honnodd Silvan ei fod wedi cael:

... cynnyg teg, gan Gyhoeddwr o Lundain, i baratoi Geiriadur Cymraeg a Seisonaeg iddynt i'w gyhoeddi.⁸⁷

Ymddengys er hynny, ei fod am gadw'r geiriadur arfaethedig yn gyfrinach.

Mewn llythyr a anfonodd at Thomas Stephens ym 1860, dywedodd:

The contemplated Welsh Dictionary will not trouble the public at least some ten years to come. But in the meantime its compiler may give you a good deal of trouble on lexicographical matters. The intention is not to be made generally known at least for some years. Gan hynny cadwch y cwbl yn gyfrinach.⁸⁸

Dechreuodd Silvan weithio o ddifrif ar y geiriadur Cymraeg pan symudodd i Lanymawddwy ym 1862. Yn fuan ar ôl symud yno, gofynnodd merch Gwallter Mechain iddo a fyddai'n barod i olygu holl weithiau ei thad. Yn ei ateb, dywedodd y byddai'n ddigon parod i gynorthwyo pwy bynnag a ymgymerei â'r gwaith ond rhagwelai na châi fawr o gyfle i wneud hynny am ei fod yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gweithio ar ei eiriadur Cymraeg.⁸⁹

Er bod Silvan wedi penderfynu mynd ati i lunio'r geiriadur ar ei ben ei hun, camgymeriad fyddai tybio na châi gymorth gan eraill. Ar hyd y blynyddoedd 'roedd ef wedi meithrin cysylltiadau gyda nifer o lenorion ac ysgolheigion eraill a

⁸⁷ Daniel Silvan Evans, *Y Brython*, 1859, t.140.

⁸⁸ Llsg 962C.

⁸⁹ LIGC 1887B.

oedd yn barod i'w gynorthwyo a'i gynghori. Bu'n cyfnewid syniadau ac yn gofyn barn gwŷr megis John Jones (Ivon),⁹⁰ Michael D. Jones,⁹¹ Rees Jenkin Jones, Aberdâr,⁹² Myrddin Fardd,⁹³ Edward Breese,⁹⁴ Thomas Stephens⁹⁵ a Thomas Briscoe.⁹⁶ Trodd at eraill i holi ynghylch geiriau ac i ofyn am restrau ohonynt i'w cynnwys yn y geiriadur. Gofynnodd Silvan i Eben Fardd⁹⁷ a Gwilym Cowlyd⁹⁸ am eiriau llafar ac mewn llythyr at Thomas Powel, dywedodd:

I wish you would kindly supply me with words and expressions - you must have come across many both colloquial and literary. There must be I think many words about Llanwrtyd and that part of the country which have never been registered.⁹⁹

Derbyniodd Silvan gymorth ac arweiniad yn y maes hwn gan un gŵr yn arbennig, sef Benjamin Williams (Gwynionydd). Bu Silvan ac yntau'n gohebu rhwng 1868 ac 1890, gan drafod hen arferion gwerin, tarddiad geiriau gwahanol ac ystyron y geiriau llafar a grynhoai Gwynionydd.¹⁰⁰ Anfonodd Ceiriog¹⁰¹ ac Ioan Cunllo¹⁰² nifer o eiriau tafodieithol at Silvan a gwnaeth Ioan Pedr yr un fath.¹⁰³ Hynafiaethydd, ieithydd, daearegwr a ddaeth i gysylltiad â Silvan yn y saithdegau oedd Ioan Pedr.¹⁰⁴ Gwnaeth ei syniadau a'i ffordd ef o weithio gryn argraff ar Silvan a dylanwadodd arno i drefnu ei weithgarwch llenyddol yn well. Mynnai Ioan Pedr gasglu a dosbarthu deunydd ieithyddol mewn ffordd wyddonol. Ymhlith ei lawysgrifau ceir brasgynllun o Eiriadur Geirdarddol¹⁰⁵ a llyfr nodiadau lle mae'n nodi pa mor angenrheidiol oedd cael mynegai i eirfa'r Gymraeg.¹⁰⁶ Credai yntau bod angen cynnwys cyd-destun mewn gwaith o'r fath

⁹⁰ Cwrtmawr 925B (1876-1897).

⁹¹ Cwrtmawr 906B (1885-1891).

⁹² Cwrtmawr 908B (1881-1903).

⁹³ Llythyrau Silvan Evans i Myrddin Fardd, 1863-1884, *Y Traethodydd*, 1911, tt.29-43; 108-116; 172-179.

⁹⁴ Cwrtmawr 896B (1873-1881).

⁹⁵ Cwrtmawr 919B (1858-1874).

⁹⁶ Cwrtmawr 897B (1888-1893).

⁹⁷ Cwrtmawr 863B.

⁹⁸ Llythyr dyddiedig 23/vii/1881. Cwrtmawr 1024D.

⁹⁹ Cwrtmawr 899B.

¹⁰⁰ Cwrtmawr 767B (1868-1885) a Cwrtmawr 768B (1886-1890).

¹⁰¹ Llythyr dyddiedig 7/x/1872. Cwrtmawr 755C.

¹⁰² Llythyr Ioan Cunllo at Silvan, dyddiedig 30/x/1865. Cwrtmawr 905B.

¹⁰³ Cwrtmawr 916B.

¹⁰⁴ Rhianydd Morgan, *Ioan Pedr (John Peter) 1833-1877* (Caernarfon, 1999).

¹⁰⁵ LIGC 2625B.

¹⁰⁶ LIGC 2601C.

am mai dyna oedd yn dangos ystyr gair a chredai nad oedd dim mwy defnyddiol na rhestr o'r "holl gyd-destynau perthynol i air".¹⁰⁷

Yn nyddiadur Silvan ar gyfer 1887, nodir "Phillimore came" ar gyfer Medi 8 a "Phillimore left" ar gyfer Medi 21. Cyfeiriad at Egerton Phillimore sydd yma, sef ysgolhaig ac ieithydd eithriadol o ddawnus a fagwyd yn Llundain ond a hanai o dras Cymreig. 'Roedd yn hyddysg yn yr ieithoedd clasurol a modern ac fe gafodd gynnig swydd fel cynorthwydd Syr James A. H. Murray, golygydd yr *Oxford English Dictionary*, ond fe'i gwrthododd. Dechreuodd astudio'r iaith Gymraeg yn ystod ei gyfnod yn Rhydychen, datblygodd ei ddiddordeb mewn astudiaethau Celtaidd a chasglai lawysgrifau Cymraeg a llyfrau prin. Mae'n debyg ei fod wedi treulio pythefnos yn cynorthwyo Silvan gyda'r geiriadur Cymraeg ym mis Medi 1887 ond ni wyddys a gynorthwyodd ef ymhellach cyn neu wedi hynny.¹⁰⁸

O'r holl rai y bu Silvan yn gohebu â hwy, y cyfaill pennaf a'r un a ddylanwadodd fwyaf arno oedd John Rhŷs. Bu'r ddau'n gyfeillion am dros ddeng mlynedd ar hugain ac 'roedd gan Rhŷs feddwl uchel o Silvan. Er bod cryn wahaniaeth oedran rhyngddynt ac er bod eu safbwyntiau'n gwrthdaro o bryd i'w gilydd, rhannent yr un diddordeb brwd mewn materion llenyddol ac ieithyddol ac 'roedd ganddynt barch mawr tuag at ei gilydd. Manteisiodd Rhŷs ar wybodaeth aeddfed a thrylwyr Silvan am hynafiaethau, llenyddiaeth a'r iaith Gymraeg ac ysgafennai ato'n aml i holi ynghylch tarddiad ac ystyron geiriau neu i drafod arferion a llên gwerin. Ceir cyfeiriad at y geiriadur bron ym mhob un llythyr o eiddo Rhŷs a phan oedd Silvan ar fin suddo yng nghanol y gwaith, gwnâi ei orau i'w annog a'i nerthu bob tro. Manteisiodd Silvan ar wybodaeth John Rhŷs am wyddor ieitheg a dysgodd am darddiad a datblygiad yr iaith Gymraeg ac am ddulliau gwyddonol John Rhŷs o astudio ieitheg Geltaidd. Bu'n ei holi ynghylch geiriau Cymraeg a fenthyciwyd o'r Saesneg ac fe'i rhoddwyd ar ben ffordd droeon gan Rhŷs wrth drafod etymoleg geiriau.¹⁰⁹ Wrth drafod etymoleg, taflodd

¹⁰⁷ Ibid.

¹⁰⁸ *Baner ac Amserau Cymru*, Ionawr 1, 1941.

¹⁰⁹ Cwrtmawr 758B.

Rhŷs oleuni newydd ar waith William Owen Pughe gan ddangos i Silvan na ellid dibynnu ar y ffurfiau a geid yn ei eiriadur. Dyma rai enghreifftiau o'r rhybuddion:

I have found 'Y Fuwch Gyfeiliorn' at last; she grazes in the Arch. Camb. for 1853, pp. 201&c., rather I ought to say she lies overwhelmed under the stream of Dr. Pughe's verbal diarrhea; upon my word he was quite as bad as Glasynys ...¹¹⁰

Returning to Pughe's 'rhufawn', I cannot help thinking that he found 'rhufell' somewhere and that the rest is his own inference.¹¹¹

Yn y llythyr cyntaf un a anfonodd at Silvan, cynigiodd Rhŷs restrau geiriau iddo ar gyfer y geiriadur.¹¹² Geiriau Cymraeg benthyg o'r ieithoedd clasurol oedd ganddo. Dywedodd:

The list is now ready and getting more illegible every day on account of continual insertions and after-thoughts. Should it suit you I should like to send it to you: it makes about 35 pages foolscap. I am going to begin to catalogue the item of our debt to the French and English languages ... you will be able to correct and supplement my lubrications in very many instances I have no doubt.¹¹³

Eithr cynorthwyo a chefnogi'n dawel bach a wnâi Rhŷs drwy gydol yr amser ac ni ddymunai hawlio unrhyw sylw am helpu ei gyfaill.

Wrth iddi ddod yn fwyfwy amlwg mai syniadau cyfeiliornus am eirdarddiad oedd gan Pughe, trodd Silvan at y gweithiau diweddaraf yn y maes am arweiniad. Mae'n ddiamau bod Silvan wedi sylweddoli y dylai feddu gwybodaeth am yr ieithoedd Celtaidd eraill ac am y berthynas rhyngddynt cyn medru deall geirdarddiaeth Gymraeg yn iawn. Nododd Morgan D. Jones ba weithiau ac awduron y cyfeiriodd Silvan atynt er mwyn dangos ei fod yn barod iawn i gydnabod gwerth yr astudiaethau diweddaraf ar ieitheg a geirdarddiaeth.¹¹⁴ Ymddengys astudiai gynnwys cylchgronau megis *Revue Celtique* a *Transactions of the Philological Society* a'i fod hefyd yn gyfarwydd ag

¹¹⁰ Llythyr rhif 57, dyddiedig 18/iv/1882. Cwrtmawr 765B.

¹¹¹ Llythyr rhif 83, dyddiedig 18/xii/1885. Cwrtmawr 765B.

¹¹² Llythyr rhif 11, dyddiedig 30/x/1872. Cwrtmawr 758B.

¹¹³ Ibid.

¹¹⁴ Morgan D. Jones, 'Daniel Silvan Evans: ei gysylltiadau llenyddol a'i waith, gan fanylu ar ei gyfraniad i ysgolheictod Cymraeg', op. cit., t.408.

Archaeologia Britannica Edward Lhuyd,¹¹⁵ geiriadur Llydaweg-Ffrangeg Le Gonidec,¹¹⁶ *Grammatica Celtica* Zeuss,¹¹⁷ *Lexicon Cornu Britannicum* Robert Williams,¹¹⁸ gwaith J. Loth¹¹⁹ a Whitley Stokes¹²⁰ a gwaith John Rhŷs wrth gwrs, sef *Lectures on Welsh Philology*.¹²¹

'Roedd geirdarddiad Cymraeg yn dal yn faes digon tywyll ac ansicr a bu Silvan yn ddigon gofalus trwy beidio â rhoi gormod o sylw iddo yn y geiriadur. Teimlai John Rhŷs ei fod wedi gwneud peth doeth, gan nodi yn yr adolygiad a gyhoeddodd yn *Academy*:

The etymological remarks in it are reduced within narrow limits, which I think is, on the whole, wise and prudent, since it is early as yet to attempt to treat of the origin of Welsh words in anything like an exhaustive manner ...¹²²

Dangosodd Morgan D. Jones bod olion ymchwil John Rhŷs i'r elfen Ladin yn y Gymraeg i'w gweld yn rhai o'r nodiadau ar darddiad geiriau yn y geiriadur a bod Silvan wedi mentro tynnu sylw at ambell syniad mympwyol a goleddai ei ragflaenwyr.¹²³

Cyflawnodd Silvan waith aruthrol wrth gasglu deunydd ar gyfer y geiriadur. Porodd drwy lyfrau printiedig o bob math a llawysgrifau o bob cyfnod er mwyn codi cynifer o eiriau a dyfyniadau ag y gallai. Cŷ Silvan hwyl arbennig wrth chwilio gweithiau'r hen awduron Cymraeg am eiriau ansathredig neu ddieithr. Wrth gyfeirio at *Eglvryn Phraethineb*¹²⁴ dywedodd wrth Edward Breese:

¹¹⁵ Edward Lhuyd, *Archæologia Britannica, giving some account additional to what has been hitherto Publish'd, of the Languages, Histories and Customs of the Original Inhabitants of Great Britain: From Collections and Observations in Travels through Wales, Cornwall, Bas-Bretagne, Ireland and Scotland* (Oxford, 1707).

¹¹⁶ Le Gonidec, op. cit.

¹¹⁷ J. K. Zeuss, *Grammatica Celtica* (Leipzig, 1853).

¹¹⁸ Robert Williams, *Lexicon Cornu Britannicum* (Llanymddyfri, 1865).

¹¹⁹ J. Loth, *Vocabulaire vieux breton* (Paris, 1884).

¹²⁰ Whitley Stokes, *Old-breton glosses* (Calcutta, 1880).

¹²¹ John Rhŷs, *Lectures on Welsh Philology* (Llundain, 1877).

¹²² *Academy*, 1 Hydref 1857.

¹²³ Morgan D. Jones, 'Geiriadur Cymraeg Daniel Silvan Evans (II): Ymgais i bwysu ei werth. Dictionary of the Welsh Language (1887-1906)', op.cit., t.79.

¹²⁴ Henry Perri, *Eglvryn Phraethineb sebh Dosparth ar Retoreg*, (Llundain, 1595).

The work is a mine for the lexicographer which Pughe has by no means exhausted.¹²⁵

Lluniodd Morgan D. Jones restr o'r holl ffynonellau - yn farddoniaeth, rhyddiaith a llawysgrifau - a ddefnyddiodd Silvan ar gyfer y llythyren 'B' yn unig. Nododd fod ganddo ddyfyniadau o'r Hen Ganu, o waith y Gogynfeirdd a Beirdd yr Uchelwyr a chynhwysodd enghreifftiau lu o'r farddoniaeth a gynhyrchwyd rhwng 1600 a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn un llyfr nodiadau o'r eiddo ceir rhestrau o eiriau a gododd o'r Mabinogion a thestunau tebyg.¹²⁶ Gofalodd ddyfynnu darnau o ryddiaith gynnar, rhyddiaith o gyfnod Cymraeg Canol ac mae ganddo enghreifftiau o ryddiaith o gyfnodau diweddarach megis Testament Newydd William Salesbury, Beibl William Morgan, Gramadeg Gruffydd Robert, *Eglvryn Phraethineb*,¹²⁷ *Perl Mewn Adfyd*,¹²⁸ *Llyfr y Tri Aderyn*,¹²⁹ gwaith Ellis Wynne, Edward Lhuyd, Gwallter Mechain, William Jones a William Owen Pughe. Dyfynnodd o ysgrifeniadau gwreiddiol Iolo Morganwg yn ogystal â llawysgrifau Hengwrt, Hafod a Llanofar. Trwy gyfieithu *Llyfr Du Caerfyrddin*, *Llyfr Aneirin* a barddoniaeth *Llyfr Coch Hergest* ar gyfer *The Four Ancient Books of Wales* gan W. F. Skene, mae'n rhaid bod gwybodaeth Silvan o eirfa'r iaith wedi chwyddo cryn dipyn.¹³⁰ Bu'n rhaid iddo adolygu ei gasgliadau o eiriau o rai testunau tua diwedd yr wythdegau pan gyhoeddwyd testun *Llyfr Coch Hergest* o'r Mabinogion a chwedlau Cymraeg eraill ym 1887,¹³¹ testun *Llyfr Du Caerfyrddin* ym 1888¹³² a'r *Brutiau* ym 1890.¹³³ Tynnodd yr Athro J. Loth sylw at y ffaith na chafodd llawer o eiriau o'r Hen Ganu eu cynnwys yn y geiriadur gan nodi hefyd bod Silvan wedi codi geiriau a ffurfiau cyfeiliornus ac anghywir o destun *Llyfr Du Caerfyrddin* a'u cynnwys yn ei waith.¹³⁴ Profodd fod rhai geiriau heb eu diffinio'r gywir ac y tueddai Silvan i anwybyddu tystiolaeth y cyd-destun weithiau wrth geisio rhoi ystyr hen air ansathredig. 'Roedd yn well

¹²⁵ Llythyr dyddiedig 14/xi/1874. LIGC 2301B.

¹²⁶ Cwrtmawr 1008.

¹²⁷ Henri Perri, op. cit.

¹²⁸ Huw Lewys, *Perl Mewn Adfyd* (Llundain, 1595).

¹²⁹ Morgan Llwyd, *Dirgelwch i rai iw ddeall ac i eraill iw watwar, sef Tri aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran* (1653).

¹³⁰ W. F. Skene (gol.), *The Four Ancient Books of Wales* (Caeredin, 1868).

¹³¹ J. Gwenogvryn Evans a John Rhŷs (goln.), *The Text of the Mabinogion from The Red Book of Hergest* (Rhydychen, 1887).

¹³² J. Gwenogvryn Evans (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Rhydychen, 1888).

¹³³ J. Gwenogvryn Evans a John Rhŷs (goln.), *The Text of the Bruts from The Red Book of Hergest* (Rhydychen, 1890).

¹³⁴ J. Loth, 'Additions et Remarques au Dictionary of the Welsh Language du Rev. D. Silvan Evans', *Archiv für Celtische Lexikographie*, Cyfrol 1 (1900).

ganddo ddilyn William Owen Pughe yn lle penderfynu drosto'i hun. Wrth ystyried ymdriniaeth Silvan â geirfa'r Hen Ganu, mae'n werth cofio mai ychydig iawn o gyfarwyddyd a chymorth a dderbyniodd iddo fedru deall yr Hen Ganu ac mai tasg anodd oedd dwyn rhyw fath o drefn i ymdrechion ei ragflaenwyr gan fod eu gwaith hwy yn dra anysogolheigaidd ac ansicr. 'Roedd angen gwybodaeth fanwl o'r iaith Gymraeg a'i chwaer-ieithoedd cyn y gellid astudio hen eirfa'r iaith yn llwyddiannus ac er bod sylfeini ieitheg Gymraeg a Chelteg wedi dechrau cael eu gosod, sylfeini digon sigledig oeddent yr adeg honno. Nid oes ryfedd felly bod diffygion a chyfeiliornadau yn y geiriadur am fod Silvan wedi deall a dehongli'n anghywir. Serch hynny, nododd Morgan D. Jones ei bod hi'n syndod gweld pa mor anwybodus a diofal y bu Silvan wrth ymdrin ag ambell air ond ychwanegodd:

Dichon mai ei brysurdeb llethol wrth y gwaith a'i awydd i weld ei gwplau a'i rhwystrodd rhag rhoi'r sylw dyladwy a manwl i lu o eiriau pwysicaf yr iaith Gymraeg.¹³⁵

Wrth reswm, ymgynghorodd Silvan â phob geiriadur printiedig Cymraeg. Ceisiodd brynu cymaint ag y gallai, gan gynnwys geiriadur William Salesbury. Dywedodd wrth Edward Breese:

I got the other day for half-a-crown a tolerably good copy of William Evans's English-Welsh Dictionary (1771). It is not very rare, but I am anxious to possess all dictionaries of which the Welsh forms a part.¹³⁶

Gwyddys hefyd fod copi o eiriadur a gramadeg John Davies yn ei feddiant a bod ganddo nifer o eiriaduron mewn llawysgrif. Ar un adeg, aethai llawysgrif William Gambold¹³⁷ i ddwylo John Walters ond yn ddiweddarach gwnaeth Silvan ddefnydd ohono oherwydd fe'i prynwyd gan gyfaill iddo, sef Edward Breese, ym 1874.¹³⁸ Ym 1884 anfonodd Ioan Cunllo eiriadur arall mewn llawysgrif at Silvan, sef gwaith y Parch. Evan Lewis.¹³⁹

¹³⁵ Morgan D. Jones, op.cit., t.73.

¹³⁶ LIGC 2301B.

¹³⁷ Llanstephan 189 a 190.

¹³⁸ Gwerthodd Dr Thirlwall y llawysgrif i Edward Breese ym 1876. Gw. Llythyr Breese at Silvan, dyddiedig 14/xi/1878. Cwrtmawr 896B.

¹³⁹ Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.516-7.

Cysylltodd John Rhŷs â Silvan ym 1885 i sôn wrtho am eiriadur swmpus mewn llawysgrif a ddarganfuwyd yn Llyfrgell Bodley.¹⁴⁰ Gellir dychmygu bod y disgrifiad byr hwn a roddodd Rhŷs ohono wedi ennyn chwilfrydedd Silvan yn syth:

A bulky Welsh dictionary in MS. has come to light at the Bodleian, but they have no history to it. The writer has incorporated Pughe (Owen's rather) first edition with philological notes of his own which are not bad altogether. He has also cut up Le Gonidec and made a dictionary of that with Welsh words and remarks of his own. Who was he?¹⁴¹

Mewn ateb i holiadau Silvan ynghylch y geiriadur, datgelodd John Rhŷs mai disgybl iddo, sef J. Gwenogvryn Evans, fu'n gyfrifol am ei ddarganfod.¹⁴² Ceisiodd annog Silvan i ysgrifennu ato gan y byddai'n barod iawn i ateb unrhyw ymholiad ynghylch y llawysgrif. Yn y llythyr cyntaf a anfonodd Gwenogvryn at Silvan, awgrymodd na fyddai'r geiriadur o fudd mawr iddo ac y dylai anfon enghreifftiau o rai cofnodion ato fel y gallai farnu rhagoriaethau a gwendidau'r gwaith drosto'i hun.¹⁴³ Aeth yn ei flaen i fanylu rhagor amdano:

It is later than Pughe's edition when he was 'William Owen', but it may be earlier than Pughe's edition 1832, as he adopts the old orthography of 'Owen's' edition. The paper is of French manufacture, but bears no date - the binding was done in Paris. The author seems to have a fair knowledge of Irish, Breton and Cornish - still, his philology is, I fear, "old-fashioned". Robert Williams' handwriting I know - he is not the author. I incline to think the work was written at least 50 years ago ...¹⁴⁴

Ni wyddys a welodd Silvan y geiriadur hwn o gwbl ac nid yw'n cael ei grybwyll yng ngweddill yr ohebiaeth rhyngddo ef a John Rhŷs na'r ohebiaeth rhyngddo a Gwenogvryn.

Y gwaith mwyaf gwerthfawr a defnyddiol a dderbyniodd Silvan oedd y ddwy gyfrol mewn llawysgrif o eiddo Robert Roberts, 'Y Sgolor Mawr'. Dechreuodd Robert Roberts lunio geiriadur Cymraeg-Saesneg yn ystod y chwe blynedd a dreuliodd yn Awstralia a pharhaodd gyda'r gwaith wedi iddo ddychwelyd i Gymru ym 1875. Oherwydd amgylchiadau arbennig, sylwedddolasai erbyn 1879

¹⁴⁰ Llythyr rhif 78, dyddiedig 22/iii/1885. Cwrtmawr 765B.

¹⁴¹ Ibid.

¹⁴² Llythyr rhif 79, dyddiedig 12/v/1885. Cwrtmawr 765B.

¹⁴³ Llythyr rhif 1, dyddiedig 1/iii/1886. Cwrtmawr 899B.

na fedrai byth gyhoeddi'r gwaith, felly anfonodd lythyr at Silvan ym mis Mai'r flwyddyn honno yn disgrifio'r gwaith y bu'n ei baratoi ers rhai blynyddoedd.¹⁴⁵

Dyma sut y disgrifiodd ei fan cychwyn:

I started with an interleaved Pughe (last editⁿ) and noted down on it all the words I could find. 1. from the old glosses; marking such as are assigned to Breton (Eut. 2 & Lux.) and Cornish (Ox² & Voc.) with such explanations as I could find in Zeuss, Stokes, Kuhn's Beiträge, Revue Celtique etc. 2. The Juvencus stanzas
...¹⁴⁶

Aeth yn ei flaen i astudio holl gynnyrch y Cynfeirdd, y Gogynfeirdd a gwaith Dafydd ap Gwilym. Bu hefyd yn darllen prif destunau rhyddiaith gynnar - y Cyfreithiau, y Brutiau, y Rhamantau a Hanes Gruffudd ab Cynan. Amcangyfrifodd ei fod wedi codi oddeutu 120,000 o ddyfyniadau i brofi ystyron geiriau. Cyfaddefodd fod angen rhoi trefn arnynt ond pwysleisiodd nad oedd wedi cofnodi unrhyw air heb iddo ganfod yn gyntaf, enghraifft ddilys ohono mewn llenyddiaeth Gymraeg. Dywedodd Morgan D. Jones:

... yr oedd dull manwl a gwyddonol Roberts o geisio penderfynu ystyr gair ansicr neu dywyll yn warant o'i allu a'i drylwyredd fel ysgolhaig. Gwnâi hynny ... trwy astudio'r cyd-destun yn ofalus, trwy ymgynghori â chyfieithiadau ohono ac â geiriaduron, a thrwy chwilio am eiriau tebyg iddo yn yr ieithoedd Celtaidd eraill.¹⁴⁷

'Roedd yn awyddus i weld yr holl ddeunydd a baratôdd yn cael ei ddefnyddio felly cynigiodd y gwaith i Silvan. Mae'n rhaid bod Silvan wedi sylweddoli'n syth y byddai cael y llawysgrif yn gryn gaffaeliad iddo oherwydd anfonodd Robert Roberts lythyr arall ato lai nag wythnos yn ddiweddarach yn dweud yr anfonai'r ddwy gyfrol o 'Index' gyda'r trê'n i Fachynlleth¹⁴⁸. Mewn llythyr arall wedyn, dywedodd y gallai anfon ato:

... a full list of the poems in the Myf. Arch with my references: that might facilitate your finding a passage when wanted ...¹⁴⁹

ynghyd â:

¹⁴⁴ Ibid.

¹⁴⁵ Llythyr dyddiedig 30/v/1879. Cwrtmawr 4493B.

¹⁴⁶ Ibid.

¹⁴⁷ Morgan D. Jones, op. cit., t.69.

¹⁴⁸ Llythyr dyddiedig 5/vi/1879. LIGC 4493B.

¹⁴⁹ Llythyr dyddiedig 2/vii/1879. LIGC 4493B.

... two separate indexes to D. ap Gwilym and to the Romances.¹⁵⁰

Bu'r cyfrolau ym meddiant Silvan am ddwy flynedd cyn i Roberts gynnig eu gwerthu iddo:

If you like to buy the vols. you can do so: but I must let you think yourself what you are to give for them.¹⁵¹

Mewn llythyr diweddarach mae'n amlwg bod iechyd Robert Roberts yn wael ac yn byddai'n ddigon parod i dderbyn punt neu ddwy am y cyfrolau.¹⁵² Fe'u prynwyd gan Silvan ond ni wyddys faint o arian a roddodd amdanynt. Mae'n werth nodi wrth fynd heibio nad yw Silvan yn crybwyll gwaith y 'Sgolor Mawr' yn unrhyw un o'i lythyron ac ni chydabu o gwbl iddo wneud defnydd ohono.

Yn y rhagymadrodd i'w gyfrol ar Robert Roberts, cyfeiriodd J. H. Davies at ddyled Silvan i'r Sgolor Mawr gan ychwanegu na fyddai'r geiriadur wedi cael ei gyhoeddi o gwbl oni bai fod ganddo ffrwyth llafur Roberts wrth law.¹⁵³ Gosodiad digon annheg ac eithafol yw hwn. Dylid cadw mewn cof fod Silvan yn barod i ddechrau cyhoeddi ei eiriadur ym 1878 - sef blwyddyn cyn iddo weld llawysgrif Roberts hyd yn oed - a threuliasai bron i ddeugain mlynedd cyn hynny'n casglu deunydd ac yn paratoi'r gwaith. Rhaid cofio hefyd mai chwe blynedd a dreuliodd Roberts yn llunio'i eiriadur ac na fedrai droi at unrhyw lawysgrif neu destun Cymraeg am gyfran o'r amser hwnnw, gan ei fod yn Awstralia. Mae'r rhai sydd eisoes wedi cymharu cynnwys gwaith Silvan a Roberts ochr yn ochr â'i gilydd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes modd profi dim yn derfynol.¹⁵⁴ Pan geisiai Silvan olrhain tarddiad geiriau, nid oedd llawysgrifau Roberts yn cynnig fawr o gymorth iddo gan mai ychydig iawn o wybodaeth o'r fath sydd ynddynt. Cywiro cyfeiliornadau Pughe a wnaeth Roberts fwyaf. Mae'r geiriadur yn cynnwys nifer o eiriau nad ydynt gan Roberts ac mae gan Silvan lawer mwy o ddyfyniadau na Roberts, yn enwedig rhai o lyfrau rhyddiaith yr unfed ganrif ar bymtheg. Gellir bod yn weddol siŵr o un peth, sef bod Silvan wedi ystyried holl

¹⁵⁰ Ibid.

¹⁵¹ LIGC 4493B.

¹⁵² Llythyr dyddiedig 6/x/1881. LIGC 493B.

¹⁵³ J. H. Davies, 'Rhagymadrodd', *The Life and Opinions of Robert Roberts, a wandering scholar as told by himself* (Caerdydd, 1923), t.vii.

gynghorion Roberts yn ofalus a bod Roberts wedi dangos digon o'i allu fel ysgolhaig a'i wybodaeth am ddatblygiadau newydd ym myd ieitheg Geltaidd i Silvan fedru teimlo y gallai ddefnyddio'r llawysgrif yn gwbl hyderus.

Rhydd rhai o sylwadau Robert Roberts syniad i ni o'r anawsterau a wynebai'r sawl a geisiai ymchwilio i faes geiriaduraeth yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cwynai am y testunau llwgr a'r geiriaduron diwerth a chamarweiniol gan gyfaddef:

... it has always been a hard task to succeed even fairly, while a great part of the field is still dark to me, pathless and guideless.¹⁵⁵

Er iddo ganmol rhai agweddau ar eiriadur John Davies, canolbwyntiodd ar drafod gwendidau'r hen eiriaduron gan dynnu sylw arbennig at yr hyn y dylai Silvan fod yn wylidwrus ohono wrth ddefnyddio geiriadur Pughe. Fe'i beirniadodd am gynnwys y geiriau ansicr ac annilys, am ddiffinio cyfeiliornus ac am adael allan filoedd o eiriau a rhoi ei fathiadau ei hun yn eu lle. Fe'i beirniadodd hefyd am newid yr orgraff. Credai Roberts y dylid cadw at yr hen ddull o sillafu geiriau oherwydd:

I think the old spelling often throws light on the etymology of the word, and is in all cases interesting philologically.¹⁵⁶

Dibynnai Roberts ar gynnwys y *Myvyrian Archaology* ond newidiodd ei farn amdano ar ôl gweld testun y *Four Ancient Books*. Esboniodd wrth Silvan na ddylid dibynnu gormod ar destunau'r ddau argraffiad o'r *Myvyrian Archaology* ac nad oedd disgwyl i Pughe a lolo Morganwg fedru cyhoeddi testun cywir, dibynadwy:

... it was an uncritical age, and the old editors were some of the least critical of men. A MS. was a MS. in those days: no matter whether a copy of a copy, or the original from which all known MS. are copies: age was of no importance.¹⁵⁷

¹⁵⁴ Gw. er enghraifft Enid Pierce Roberts, 'Silvan Evans a'r Sgolor Mawr', *Yr Haul a'r Gangell*, Hydref 1957, tt.5-10 a Morgan D. Jones, 'Daniel Silvan Evans: ei gysylltiadau llenyddol a'i waith, gan fanylu ar ei gyfraniad i ysgolheictod Cymraeg', op. cit., tt.367-375.

¹⁵⁵ Llythyr dyddiedig 30/v/1879. LIGC 4493B.

¹⁵⁶ Ibid.

¹⁵⁷ Llythyr dyddiedig 5/vi/1879. LIGC 4493B.

Yn ôl yr Athro G. J. Williams, ni thramgwyddodd Silvan fawr iawn wrth ddefnyddio gwaith y Sgolor Mawr am ei fod yn waith ysgolheigaidd, ond wrth ddefnyddio geirfaon Iolo Morganwg llygrodd rannau o'r geiriadur.¹⁵⁸ Ar wahoddiad Arglwyddes Llanofar, arferai Silvan fynd i Llanofar o bryd i'w gilydd. 'Roedd ganddo ddiddordeb arbennig yn y casgliad da o lawysgrifau a gedwid yno, yn enwedig y rhestrau geiriau a luniwyd gan Iolo Morganwg. Ynddynt, daeth ar draws nifer fawr o eiriau na welsai erioed o'r blaen ynghyd ag enghreifftiau ohonynt mewn barddoniaeth. Lluniodd Iolo nifer fawr o eirfaon a chasgliadau o ddyfyniadau a'u galw'n 'Gymreigyddyn'. Dangosodd G. J. Williams:

... na cheir yn y 'Cymreigyddyn' namyn damcaniaethau Iolo ei hun am darddiad geiriau, ac mai geiriau gwneuthur ydyw'r rhan fwyaf ohonynt. Priodolai linellau i hen feirdd er mwyn iddynt ymddangos cyn hyned â'r geiriau sydd yng ngeiriaduron y Dr. Davies a Richards.¹⁵⁹

Pan ddaeth Silvan ar draws y 'Cymreigyddyn', cafodd ynddo ddigonedd o ddeunydd at ei eiriadur felly cododd y geiriau a'r dyfyniadau a'u cynnwys yn ei eiriadur fel ag yr oeddent. Gan nad oedd Silvan yn barod iawn i gydnabod mai o lawysgrifau Iolo y cododd hwy, awgrymodd yr Athro G. J. Williams iddo ddefnyddio geirfaon Iolo fel y defnyddiodd gyfrolau Robert Roberts.¹⁶⁰

Heb yn wybod iddo, defnyddiodd Silvan ragor o waith Iolo Morganwg yn y geiriadur. Cododd ddyfyniadau o 'Ychwanegiad' yr argraffiad hwnnw o waith Dafydd ap Gwilym y bu Owain Myfyr a William Owen [Pughe] yn gyfrifol amdano.¹⁶¹ Gwyddys erbyn hyn wrth gwrs mai ffugiadau Iolo ei hun yw cynnwys yr 'Ychwanegiad'. Iolo fu hefyd yn gyfrifol am lunio llawer o'r farddoniaeth a briodolir i Rys Goch ap Rhiccert yn Llawysgrifau Iolo Morganwg. Dyfynnodd Silvan gryn dilyn ar 'weithiau' Rhys Goch ap Rhiccert yn y geiriadur ac fe gynhwysodd enghreifftiau pellach o ffugiadau Iolo trwy ddyfynnu o Brut

¹⁵⁸ G. J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), t.99.

¹⁵⁹ *Ibid.*, t.193.

¹⁶⁰ *Ibid.*, t.99.

¹⁶¹ Owen Jones a William Owen (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789).

Aberpergwm, a gyhoeddwyd yn ail gyfrol y *Myvyrian Archaeology*¹⁶² ac o *Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain*.¹⁶³

Er ei fod yn ddigon parod i ddefnyddio gwaith lolo at ei bwrpas ei hun, mae'n bosib nad oedd Silvan yn gwbl fodlon ar wneud hynny bob amser ac nad oedd yn credu ei haeriadau i gyd. Pan ddechreuodd Syr John Morris-Jones amau dilysrwydd gwaith lolo Morganwg, soniodd mewn ysgrif fer yn *Y Beirniad* fod Silvan wedi ei rybuddio eisoes fod rhywbeth, o bosib, o'i le ar ei waith.

Dywedodd John Morris-Jones:

... barn y Celtig Dafis (Edward Davies), a adwaenai lolo a Phuw, oedd fod lolo'n euog o ffugio, a dywedodd Silvan Evans wrthyf nad oedd lolo mor onest ag y tybiwn i yn fy erthyglau.¹⁶⁴

Ym 1875, dechreuodd Edward Breese drafod cyhoeddi'r geiriadur, ond cyfaddefodd Silvan wrtho na wyddai pa bryd y byddai'r gwaith yn barod a hyd yn oed ar ôl gorffen ofnai na chymerai'r un cwmni cyhoeddi mo'r gwaith am ei fod mor fawr.¹⁶⁵ Ymddengys mai'r ymgais i sicrhau cyhoeddwr oedd un o'i brif broblemau yr adeg hon:

I should be very glad indeed if I could in any way see how to get the work through the press; and if once I could feel certain in that respect I should set about it with redeoubled engery; but to set about transcribing my materials without any prospect of their ever being printed, is a thorough up-hill work; and one feels that next week, next month, or next year will be a much more convenient time than the present for such a process.¹⁶⁶

Ym 1876 ceisiodd Ioan Pedr ddwyn perswâd ar Mackenzie o Glasgow i ymgymryd â'r gwaith ond gwyddai nad oedd yn debygol o lwyddo.¹⁶⁷ Flwyddyn yn ddiweddarach, gwahoddwyd Silvan i Lundain gan Robert Jones, Rotherhithe "to put the Dictionary in the stocks".¹⁶⁸ Gwnaeth cwmni Trübner a Chymdeithas y Cymmrodorion drefniadau angenrheidiol i gyhoeddi'r gwaith ac yn Y

¹⁶² O. Jones, E. Williams a W. O. Pughe, *The Myvyrian Archaeology of Wales* (Llundain, 1801-1807) Cyfrol II.

¹⁶³ Iolo Morganwg, *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* (Caernarfon, d.d.).

¹⁶⁴ John Morris-Jones, 'Derwyddiaeth Gorsedd y Beirdd', *Y Beirniad*, Cyfrol 1 (1911), t.71.

¹⁶⁵ LIGC 2301B.

¹⁶⁶ Ibid.

¹⁶⁷ Llythyr dyddiedig 18/ix/1876. Cwrtmawr 916B.

Cymmrodor am Ionawr 1878 ymddangosodd hysbyseb yn datgan y câi geiriadur Cymraeg Silvan ei gyhoeddi'n fuan.¹⁶⁹ Nodwyd hefyd:

... the onus of publication will be taken by a number of gentlemen connected with the Principality who are anxious for its appearance...¹⁷⁰

Nid yw'r "gentlemen" yn cael eu henwi ond gellir tybio mai cyfeiriad sydd yma at rai o gyfeillion Silvan - Edward Breese a Robert Jones er enghraifft - a fu'n trafod y cyhoeddi gyda chwmnïau adnabyddus. Daeth galw ar Silvan i anfon "specimen page or two" at Trübner.¹⁷¹ 'Roedd yn rhaid i hwnnw gael syniad o natur a swmp y gwaith yn gyntaf cyn y gallai lunio hysbyseb a chyn y gallai gasglu enwau tanysgrifwyr. Er gwaethaf awydd Trübner i fwrw ymlaen, ni chafwyd ymateb oddi wrth Silvan. Gofynnodd Robert Jones iddo'r eilwaith am dudalennau enghreifftiol ond oedi a wnâi Silvan o hyd.¹⁷² Rai wythnosau'n ddiweddarach, soniodd am Trübner eto:

What is Trübner to do? Put yourself in his place ... how can he issue prospectuses or anything else until he gets information ...¹⁷³

ac fe ellir synhwyro'r brys a oedd arno mewn llythyr a anfonodd at Silvan yn fuan wedi hynny:

Os nad yw y Geiriadur wedi myned, da chwi anfonwch ef ar unwaith.¹⁷⁴

Nodwyd eisoes bod Edward Breese wedi cychwyn trafod cyhoeddi'r geiriadur gyda Silvan ym 1875. Yn ôl yr hyn a ysgrifennodd mewn llythyr at Silvan ym mis Mehefin 1878, gwelsai yr hysbyseb yn *Y Cymmrodor* am gyhoeddi'r geiriadur ond nid oedd hynny'n ddigon i beri iddo roi'r gorau i'w ymdrechion i sicrhau cyhoeddwy. 'Roedd Breese yr un mor awyddus â Jones i gynorthwyo gyda threfniadau'r cyhoeddi. Parhaodd i wneud ymholiadau ar ran Silvan, yr un pryd â Jones, ond ni fu damaid mwy llwyddiannus nag ef. Aeth i weld cwmni Chatto & Windus yn Llundain droeon rhwng mis Tachwedd 1878 ac Awst 1879 ac 'roedd y rhagolygon yn bur addawol nes iddo orfod gofyn hyn i Silvan:

¹⁶⁸ Llythyr dyddiedig ix/1877. Cwrtmawr 909B.

¹⁶⁹ *Y Cymmrodor*, Cyfrol II (1878), t.96.

¹⁷⁰ Ibid.

¹⁷¹ Llythyr dyddiedig 17/vii/1878. Cwrtmawr 909B.

¹⁷² Llythyr dyddiedig 6/viii/1878. Cwrtmawr 908B.

¹⁷³ Llythyr dyddiedig 30/viii/1878. Cwrtmawr 908B.

¹⁷⁴ Llythyr dyddiedig 9/ix/1878. Cwrtmawr 908B.

... before giving an estimate they wished a specimen page of the MS., with some idea of the number of folios. Could you prepare such a specimen, with a sketch of the Title-page? I will then try to push the matter on. I think I shall be able to manage the guarantee if Chatto and Windus are moderate in their demands.¹⁷⁵

Ar ôl gofyn unwaith yn rhagor am dudalen enghreifftiol, heb dderbyn ateb, dyma Breese yn dechrau pledio arno, yn union fel y gwnâi Robert Jones:

Why this brilliant flash of epistolary silence? Where is the Big Book, and especially where is the specimen you promised me? Life is all too short and Dictionaries are all too long. Brysiwch. Brysiwch! I will, please God, help in the launching of this Welsh ark if you will allow me - and if you will overcome the *vis inertiae* which settles on a big book unfinished.¹⁷⁶

Ar ôl hir ddisgwyl, ymddangosodd "specimen" o'r geiriadur ym 1883 ac anfonodd Silvan ef at rai o'i gyfeillion.¹⁷⁷ Gan eu bod wedi ceisio gwneud cymaint i annog a chynorthwyo Silvan, gresyn na fu Robert Jones ac Edward Breese byw'n ddigon hir i weld y "specimen".¹⁷⁸ Dau gwmni o gyhoeddwr o Lundain agydsyniodd i gyhoeddi'r geiriadur yn y diwedd, sef Simpkin, Marshall & Co., a Trübner & Co., a chytunodd William Spurrell i ymgymryd â'r argraffu.

Un o noddwyr amlycaf y diwylliant Cymreig yn ystod y cyfnod hwn oedd Arglwyddes Llanofe¹⁷⁹. Ymddiddorai yng ngwaith geiriadurol Silvan, yn enwedig am eu bod yn gyfeillion, a chynigiodd gyfrannu at dreuliau'r gwaith. Ysgrifennodd D. Howell (Llawdden) at Silvan ym 1883 i ddweud wrtho bod yr Arglwyddes yn barod i gyfrannu £1250 at y costau cyhoeddi.¹⁸⁰ Cofnodwyd rhai manylion am y symiau a dderbyniwyd ganddi mewn llyfr nodiadau ond nid yw'n glir at ba bwrpas y trosglwyddwyd yr arian.¹⁸¹

¹⁷⁵ Llythyr dyddiedig 13/xi/1879. Cwrtmawr 896B.

¹⁷⁶ Llythyr dyddiedig 28/vi/1880. Cwrtmawr 896B.

¹⁷⁷ Diolchodd Gwynionydd iddo am gael gweld copi. Gw. llythyr dyddiedig 30/v/1883. Gwnaeth Ioan Cunllo'r un fath. Gw. Cwrtmawr 925B.

¹⁷⁸ Bu farw Jones ym 1879 a bu farw Breese ym 1881.

¹⁷⁹ Rachel Ley, *Arglwyddes Llanofe: Gwenynen Gwent* (Caernarfon, 2001).

¹⁸⁰ Llythyr dyddiedig 10/vi/1883. Cwrtmawr 903B.

¹⁸¹ Cwrtmawr 1377A.

Anfonwyd y darn cyntaf o'r geiriadur at William Spurrell tua diwedd 1883 neu ar ddechrau 1884¹⁸² ac o hynny ymlaen bu Silvan yn ddiwyd yn paratoi copi o'r gwaith ar gyfer yr argraffwyr.¹⁸³ Gan ei fod yn digalonni'n rhwydd a chan ei fod yn weddol glae ar y gorau, gofalai ei ffrindiau ei holi ynghylch datblygiad y geiriadur o bryd i'w gilydd fel petaent am wneud yn siŵr na fyddai'n llacio eto.¹⁸⁴ 'Roedd swyddfa Spurrell yng Nghaerfyrddin o fewn cyrraedd Gwynionydd felly rhydd y llythyron a anfonodd at Silvan syniad i ni o hanes y geiriadur yn y wasg argraffu.¹⁸⁵ Yn fuan ar ôl cychwyn, profodd Spurrell yr un anhawster â chymaint o'i flaen wrth iddo orfod gofyn i'r geiriadurwr dro ar ôl tro am gopi o'r gwaith i'r wasg. Yn ei ohebiaeth â Gwynionydd, cwynai Silvan am Spurrell ac mae rhai agweddau o'r stori yn ymdebygu i hanes cyhoeddi'r geiriadur Saesneg-Cymraeg.

Ymddangosodd rhan gyntaf y geiriadur ar ddechrau 1887 ac fe'i gwerthwyd am 10/6. Cafodd dderbyniad ffafriol iawn gan gyfeillion Silvan, yn enwedig John Rhŷs a oedd wedi ei ddangos i Syr James A. H. Murray. Ym mis Chwefror 1887, dywedodd:

I showed it to Dr. Murray the other day and he turned out a word he thought some sort of a test and pronounced himself highly pleased with the work.¹⁸⁶

Eto ym mis Mawrth, nododd:

...Dr. Murray pays you a compliment in the preface to his third part which has just appeared ...¹⁸⁷

Cyhoeddwyd adolygiadau'n ei ganmol yn *The Bookseller*¹⁸⁸ a threfnwyd bod John Rhŷs yn ysgrifennu darn ar gyfer *The Saturday Review*¹⁸⁹ a *The*

¹⁸² Gw. llythyrau Gwynionydd at Silvan 1883-1884 yn Cwrtmawr 767B.

¹⁸³ Gw. llythyr Silvan at J. M. Morgan, dyddiedig 24/i/1884 yn *Y Geninen*, Ebrill 1915, t.125.

Llythyr John Rhŷs, dyddiedig 18/ii/1884. Cwrtmawr 758B.

Llythyr at Fyrddin Fardd, dyddiedig 5/iii/1885. Cwrtmawr 863B. *Y Traethodydd*, 1911, t.115.

¹⁸⁴ Gw. llythyrau Gwynionydd dyddiedig 4/vii/1883, 31/iii/1883, 6/ix/1884, 12/v/1885, 8/vii/1885, 21/vii/1885, 23/xi/1885 a 19/xii/1885 yn Cwrtmawr 767B a llythyrau John Rhŷs rhif 68, 69, 72, 80, 81, 85 ac 86 yn Cwrtmawr 758B a 765B.

¹⁸⁵ Gw. llythyrau Gwynionydd at Silvan dyddiedig 23/i/1885, 2/vii/1887 yn Cwrtmawr 767B hefyd llythyrau dyddiedig 18/i/1886, 30/iv/1886, 6/ii/1887, 7/iii/1887, 22/iii/1887, 3/v/1888, 28/viii/1888 yn Cwrtmawr 768B.

¹⁸⁶ Llythyr rhif 87, dyddiedig 11/ii/1887. Cwrtmawr 765B.

¹⁸⁷ Llythyr rhif 88, dyddiedig 7/iii/1887. Cwrtmawr 765B.

Academy.¹⁹⁰ Maint a helaethrwydd y rhan gyntaf oedd wedi taro adolygydd *Y Cymmrodor*. Fel hyn y'i disgrifiodd:

The first thing that strikes the reader is that the work is on a larger scale than anything of the kind which has hitherto appeared in Welsh. This first part, including the letter A, is a handsome volume of 420 pages of a large 8vo size. In Dr. Pugh's Dictionary, which was issued in a somewhat similar form, the letter A does not extend to 150 pages of the 8vo edition; and in the third edition of the same work, the letter fills only 244 pages of a similar size ... It is accordingly very much more complete than its predecessor in all respects; it records a larger number of words, gives a fuller account of their history and meaning, and especially is out of all comparison richer in illustration and quotations. In vocabulary it is richer than any other Welsh Dictionary, and includes a large number of words not hitherto recorded.¹⁹¹

Yn adolygiad *Yr Haul*, cymharwyd sefyllfa Silvan â geiriadurwyr o wledydd eraill ac esboniwyd bod y dasg a wynebai ef dipyn yn anoddach gan na fedrai seilio'i waith ar unrhyw eiriadur heblaw am eiriadur Pughe, a oedd i raddau helaeth yn gamarweiniol ac anghywir.¹⁹² Ymddangosodd datganiad byr yn sôn am y rhan gyntaf yn *Revue Celtique*¹⁹³ ac yn *Y Cymmrodor* soniwyd am faint y gwaith ac y dylid canmol yr argraffiad yng Nghaerfyrddin am gynhyrchu cyhoeddiad mor gywir a glân.¹⁹⁴

Erbyn mis Rhagfyr 1887, 'roedd Silvan wedi cwblhau'r llythyren B a thybir bod yr ail ran wedi ymddangos tua diwedd Mai 1888. Hanner maint y rhan gyntaf ydoedd ac fe'i gwerthwyd am 5/-. Bu'n rhaid i William Spurrell grefu ar Silvan am gopi o'r llythyren C o 1889 ymlaen. Mae'r drwgdeimlad a oedd yn lledferwi rhyngddynt - yn enwedig ar ochr Silvan - yn un rheswm paham na chyhoeddwyd y drydedd ran tan 1893. Collodd Silvan ei wraig trwy ddamwain ym 1889 hefyd ac mae'r llythyrau at ei gyfeillion yr adeg honno'n dangos ei fod yn isel iawn ei ysbryd ac mae'n rhaid ei fod yn ei chael hi'n anodd bwrw ymlaen

¹⁸⁸ Mae'r darn yn Cwrtmawr 755C.

¹⁸⁹ Mehefin 11 1887. Mae'r darn yn Cwrtmawr 755C.

¹⁹⁰ Llythyr rhif 93, dyddiedig 27/vi/1887 a llythyr rhif 97, dyddiedig 10/ix/1887. Cwrtmawr 765B.

¹⁹¹ *Y Cymmrodor*, viii (1887), t.216.

¹⁹² *Yr Haul*, 1887, t.123.

¹⁹³ *Revue Celtique*, 1887, t.193.

¹⁹⁴ *Y Cymmrodor*, viii, t.112.

â'r gwaith.¹⁹⁵ Ym mis Medi 1891 fe'i ceir yn hysbysu Myrddin Fardd ei fod yn parhau i weithio ar y geiriadur yn araf deg¹⁹⁶ ac fe ellir tybio, o ddarllen yr ohebiaeth rhyngddo â John Rhÿs¹⁹⁷ a Gwenogvryn ei fod ar fin gorffen y llythyren C ym 1891.¹⁹⁸ Pris y drydedd ran oedd 16/6 ac ar ôl pori drwyddi 'roedd Gwenogvryn yn barod iawn i ganmol Silvan:

I have only just seen your magnificent third instalment of the Dictionary. What a veritable Hercules you are for work, and how grateful should all feel for so much self-sacrificing labour on your part.¹⁹⁹

Gydag ymddangosiad y drydedd ran, cwblhawyd cyfrol gyntaf y geiriadur, sy'n cynnwys 1,262 o dudalennau.²⁰⁰

Aeth tair blynedd heibio cyn i'r bedwaredd ran ymddangos ym 1896. Dyma ran gyntaf yr ail gyfrol. 'Roedd yn cynnwys 564 o dudalennau ac fe'i gwerthwyd am 14/-. Mae lle i gredu bod gweddill y geiriadur yn datblygu'n dda a bod y llythyren E yn barod ar gyfer Spurrell tua'r adeg hon²⁰¹ ond bu farw Arglwyddes Llanofar ym 1896 ac fe rwystwyd unrhyw ddatblygiad am beth amser gan na fynnai'r ymddiriedolwyr eu bod yn medru parhau i gyfrannu at dreuliau'r cyhoeddi. Dan nawdd gwŷr megis John Rhÿs, T. E. Ellis A.S., Esgob Bangor a T. Marchant Williams cychwynwyd mudiad tua 1893 i geisio sicrhau pensiwn i Silvan o'r 'Civil List'.²⁰² Yn y ddeiseb a'r memorandwm a gyflwynwyd i Mr Balfour, nodwyd na dderbyniasai Silvan unrhyw gymorth ariannol - heblaw hynny o gymorth a gafodd gan Arglwyddes Llanofar - ers iddo ddechrau llunio'r geiriadur a galwyd am grant o'r 'Civil List':

... which will enable Canon Silvan to complete his labours.²⁰³

Bu'r apêl yn llwyddiannus oherwydd ym 1898 dyfarnwyd grant o £100 y flwyddyn i Silvan o'r 'Civil List'.²⁰⁴ Yn y cyfamser, derbyniodd gydnabyddiaeth am y gwaith geiriadurol a wnaethai gan Goleg yr Iesu, Rhydychen. Trwy

¹⁹⁵ *Y Geninen*, Ebrill 1915, tt.27-28.

¹⁹⁶ Llythyr dyddiedig 2/ix/1891, *Y Traethodydd*, 1911, tt.172-179.

¹⁹⁷ Llythyr rhif 115, dyddiedig 27/ix/1891 a rhif 116, dyddiedig 14/iv/1892.

¹⁹⁸ Llythyr dyddiedig 29/viii/1891. Cwrtmawr 899B.

¹⁹⁹ *Ibid.*, d.d.

²⁰⁰ D. Silvan Evans, *A Dictionary of the Welsh Language* (Llundain, 1887).

²⁰¹ Gw. llythyr J. H. Davies, dyddiedig 13/vii/1897. Cwrtmawr 1043E.

²⁰² Llythyr John Rhÿs, dyddiedig 15/xii/1895. Cwrtmawr 765B.

²⁰³ *Ibid.*

GEIRIADUR CYMRAEG.

A

DICTIONARY

OF THE

WELSH LANGUAGE

BY THE

REV. D. SILVAN EVANS, B.D.

*Rector of Llanerit, Montgomeryshire; and Prebendary
of Bangor.*

VOL. I. A—C.



CARMARTHEN:

W. SPURRELL & SON.

LONDON: SIMPKIN, MARSHALL, & CO.; BERNARD QUARITCH.

MDCCCLXXXIII.

ddylanwad John Rhŷs, etholwyd ef yn Gymrawd o'r Coleg hwnnw ym 1897.

Mewn llythyr at Silvan, datgelodd Rhŷs:

The Principal and Fellows of Jesus College have this day elected you to a three years' fellowship at £100 a year in consideration of the work you are doing for Welsh lexicography. The Fellowship begins from today.²⁰⁵

Erbyn dechrau 1901, 'roedd Silvan wedi cwblhau'r llythyren E.²⁰⁶ Dengys yr ohebiaeth rhwng Spurrell a mab Silvan, J. H. Silvan Evans, fod y gwaith argraffu'n mynd yn ei flaen ym 1902 ond bod Silvan yn dychwelyd y proflenni yn llawer rhy araf. Wrth iddo fyd yn hŷn dibynnai Silvan fwyfwy ar ei fab a chydag ef, fel arfer, y gohebai Spurrell tua'r diwedd. Ysgrifennodd ato ym mis Mai 1902²⁰⁷ ac eto ym mis Awst yn cwyno na châ'r proflenni yn ôl i'w ddwylo mor fuan ag y dymunai a'i fod yn gwneud colled gan ei fod wedi cyflogi gweithiwr i ymgymryd â'r gwaith ar y geiriadur. Y darn olaf o dystiolaeth sy'n ymwneud â hanes maith a chythryblus y cyhoeddi yw llawysgrif wreiddiol y rhan olaf o'r gwaith a gyflwynwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol gan Walter Spurrell ym 1923.²⁰⁸ Daw'r eglurhad hwn gyda'r llawysgrif:

This copy takes us up to the end of the portion of copy sent by the author to printer. No proof was sent to author, consequently this copy remained in the office.²⁰⁹

Bu farw Silvan ar 12 Ebrill 1903 yn 85 mlwydd oed eithr cyhoeddwyd pumed ran y geiriadur ym 1906. 'Roedd wedi cyrraedd at y gair 'ennyd' ac felly'n eithaf pell o'r diwedd. Mewn nodyn gan Spurrell am dudalen olaf y geiriadur, ceir yr esboniad:

The proofs of pp.1885-1923 were not checked by the Editors.²¹⁰

Mae'r manylion ar wyneb-ddalen y pum rhan yn amrywio. Nodir enw Spurrell, Simpkin & Marshall, a Trübner ar wyneb-ddalen Rhan I a Rhan II ond mae enw Bernard Quaritch yn ymddangos yn lle Trübner ar Ran III a IV ac ar Ran V yn

²⁰⁴ Cwrtmawr 899 B.

²⁰⁵ Llythyr dyddiedig 13/ii/1897. Cwrtmawr 765B.

²⁰⁶ D. Samuel, *Y Geninen*, Ionawr 1909, t.17.

²⁰⁷ Llythyr dyddiedig 26/v/1902. Cwrtmawr 1043E.

²⁰⁸ LIGC 4358E.

²⁰⁹ Ibid.

²¹⁰ D. Silvan Evans, *A Dictionary of the Welsh Language* (Llundain,1907), Cyfrol II, t.1923.

unig y nodir enw J. H. Silvan Evans ynghyd ag enw ei dad. Enw W. Spurrell yn unig a geir ar y rhan olaf.

Cyfanswm o tua 63,000 prifair sydd yn y geiriadur Cymraeg. Nid oes modd ei gymharu â geiriadur Pughe yn hwylus iawn am mai A-Ennyd yn unig a gyhoeddwyd ond gellir nodi mai 33,000 prifair sydd gan Pughe yn yr adran honno, felly mae gwaith Silvan bron ddwywaith ei faint.

Ar ddiwedd ambell gofnod, gwelir *-D*, sef arwydd fod y prifair wedi dod o eiriadur John Davies. Ymgynghorodd Silvan â'r geiriadur hwnnw wrth reswm, ond dangosodd Fynes-Clinton nad oedd yn barod i dderbyn awdurdod Davies bob tro ac na wnaeth ddefnydd manwl iawn o'r *Dictionary Duplex*:

In spite of the extensive use made of the Latin-Welsh Dictionary by other lexicographers it appears never to have been systematically investigated. On comparing the words contained in it with those contained in Silvan Evans's Dictionary ... it will be found that there are upwards of 900 in the former which do not occur in the latter.²¹¹

Geiriau o darddiad Saesneg oedd y mwyafrif o'r geiriau na chafodd eu codi o'r *Dictionary Duplex* a'u cynnwys yng ngeiriadur Silvan. Tueddodd hefyd i anwybyddu cyfansoddeiriau, rhai cyfarwydd a rhai gweddol ddieithr.

Mae'n annhebyg bod Silvan wedi ymgynghori llawer â geiriadur Thomas Richards gan nad oedd yn meddwl yn uchel iawn ohono. Mynegodd ei farn amdano yn yr erthygl a gyhoeddwyd yn *Y Brython* ym 1858:

O ran dim a wnaeth Richards ei hun ar faes geirlyfraeth Gymreig, nid oes iddo ond safle pur isel ym mysg ein geiriadurwyr ...²¹²

Serch hynny, gorfu iddo gydnabod y bu'r geiriadur yn boblogaidd tan i eiriadur Pughe ymddangos:

... gwnaeth ei Eiriadur, er mor anghyflawn ydyw, ac er mor ychydig o wreiddioldeb sydd yn perthyn iddo, les nid bychan yn y Dywysogaeth... Cafodd y gwaith hwn dderbyniad helaeth, a

²¹¹ O. H. Fynes-Clinton, 'Davies's Latin-Welsh Dictionary', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, II, t.312.

²¹² Moeddyn, 'Geirlyfraeth Gymreig', op. cit., t.19.

chefnogaeth deilwng, gan bod gradd yng Nghymru; a hwn oedd y geirlyfr Cymraeg ar arfer yn gyffredin ym mhlith ein cydwladwyr hyd ymddangosiad Geirlyfr mawr y Dr. Owain Puw, yn y flwyddyn 1803.²¹³

Er bod Silvan yn barod i'w feirniadu, awgrymodd Morgan D. Jones²¹⁴ iddo elwa, o bosib, ar y defnydd helaeth a wnaeth Richards o eirfa Dr William Wotton yn ei argraffiad o'r Cyfreithiau Cymraeg.²¹⁵

Fel llawer o eiriadurwyr eraill, edmygai Silvan waith John Walters yn fawr ac fel y gwelwyd eisoes, 'roedd ganddo gopi o lawysgrif William Gambold. Manteisiodd Silvan ar un o brif rinweddau geiriadur Walters, sef y priod-ddulliau a'r ymadroddion o'r iaith lafar ac o lenyddiaeth. Mae rhai o'u cofnodion yn ddigon tebyg ac fe welir bod Silvan weithiau'n cydnabod ei ffynhonnell trwy nodi –*W* wrth eu hochr, er enghraifft:

Ardegau, *s.pl.* (ar+deg) teens; the numbers between twelve and twenty. –*W.*

Awyrddysg, *sf.* the science which treats of the properties of air; pneumatics. –*W.*

Bonaddurn, -au, *sm.* a tail-piece. . –*W.*

Cilgi, gwn, *sm.* a coward, a poltroon, a dastard, a craven, a sneak.

Ffwrdd â thi, y cilgi cam! –*W.*

Cilgi parod, a rank coward. –*W.*

Mae'n werth pwysleisio bod Silvan wedi mynd un cam ymhellach i geisio dangos enghreifftiau amryw ohonynt mewn llenyddiaeth Gymraeg. Yn yr enghreifftiau a ganlyn, gwelir ei fod yn dyfynnu o waith Theophilus Evans a W. Williams, Meddygon Myddfai, Brut y Tywysogion, Y Mabinogion a'r Beibl:

AN ENGLISH-WELSH DICTIONARY ... (1794)	A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE ... (1887 - 1907)
<i>To walk [go] a foot-pace, cerdded (myned) ar y cam.</i>	<i>Myned ar y cam/cerdded ar y cam, to go or walk on a footpace; to walk slowly.</i> Gwisgaw a wnaeth Gwalchmei ymdanaw a <i>cherdet</i> raddaw yn chweirc <i>ar gam</i> y varch parth ar lle yd oed Peredur. <i>Mabinogion</i> , i. 260.
<i>Step by step, or step after step; Bob yn gam, bob yn gam a cham, o fesur cam a cham. See by Degrees, &c.</i>	<i>Cam a cham, step by step; from step to step; by degrees; gradually.</i> Am hyny arwain, <i>gam a cham</i> , Fi i'e baradwys draw. <i>W. Williams: Hymnau, dcclx.4.</i>

²¹³ Ibid.

²¹⁴ 'Daniel Silvan Evans: ei gysylltiadau llenyddol a'i waith, gan fanylu ar ei gyfraniad i ysgolheictod Cymraeg', op. cit., t.358.

²¹⁵ William Wotton, *Cyfreithjeu Hywel Dda ac Eraill, seu Leges Wallicae ...* (Llundain, 1730).

	[Hwy] a ddechreusant gellwair a chrechwenu, ac o fesur <i>cam a cham</i> i ymroddi i bob ofgergamp a maswedd. <i>Theo. Evans: D.P.O. i.3 (87).</i>
<i>Crum</i> , or <i>crumb</i> [the soft part] of bread, Bywyn (mwydion) bara.	<i>Bywyn bara</i> , the crumb or soft part of bread. Cais hufen llaeth ... a rho mewn llestr ar y tân, a <i>bywyn bara can</i> , a chwyr, ac ychydig o fêl. <i>Meddygon Myddfai</i> , ii. 26 (cf.17, 100, 115).
A piece of money, Dryll o arian. A piece of ground, Llain (darn, &c.) o dir.	<i>Dryll o arian/dryll arian</i> , a piece of silver or money. –Luc xv.8. A phan dderbyniodd yr archoffeiriad eilwaith y <i>drylliau arian</i> o law ludas, hwy a ddywedasant, Nid cyfreithlon ini eu bwrw hwynt i'r Corban. <i>Ed. Iames: Hom. ii.12.</i> <i>Dryll o dir</i> , a piece of land. Ac ni chynhelis y brenhin ac ef hynny, namyn rodi <i>dryll o dir</i> idaw yg kyfoeth pob barwn o amryuaelon uarwneit. <i>Brut y Tywysogion</i> , 190 (cf. 262).
To fasten one's eyes upon, Craffu (â golwg) ar , dâl sulw ar, Act. iii. 4. edrych (yn daer, yn grâff) ar, Act. xi. 6, syllu ar.	<i>Edrych yn graff</i> , to look steadfastly or fixedly; to fix the eyes (upon).

Disgrifiwyd eisoes sut yr ymryddhaodd Silvan o ddylanwad Pughe yn y pumdegau a sut y tynnodd Robert Roberts ei sylw at gyfeiliornadau geiriadur Pughe. Yn y geiriadur Cymraeg-Saesneg, gwelir Silvan yn tynnu sylw cyson at y gwahanol gamgymeriadau a wnaeth Pughe, er enghraifft:

Amollid, -au, *sf.* cheering warmth. –*P.*

¶ Pughe derives it from *moll* (f. of *mwill*), sultry, warm; and translates it accordingly: 'a kind inviting message will not create a denial'. Occuring but once, it is difficult to ascertain the meaning ; but the one given by Pughe is not very probable.

Ardōchi, v. [ardawch] to render hazy, sultry, or tranquil. –*P.*

Ardawch in the passage (*M.A.* i. 315) quoted by Pughe is not a verb.

Arfarwol, a. being on the point of death, moribund?

¶ *Arfarwol*, in the passage from 'Ystori Dared' (§29) quoted by Pughe, is a mistranslation, a misreading, or a misprint, for *anfarwol*, the word in the original being *immortales* ...

Cwyd, v. imper. and 3rd pers. sing. pres, - fut. of *Codi* and *Cyfodi*. Pughe gives an infinitive *cwydo*; a form which does not exist. Such is also the case with his derivatives *cwydadwy* and *cwydawl*.

Cywenan/Cywenen, -od, *sf.* a young hen, a pullet. *Cywenen* is in common use in Cardiganshire, and probably elsewhere; but though a diminutive, it is never used for 'a little chicken', as explained by Pughe. The pl. *cywenod* (sg. *cywen*) is equally common, and always signifies pullets or young hens. In fact *cywenod* is generally used as the pl. of *cywenen* or *cynwenan*.

Chwed, *sm.* 'the faculty of utterance or speech; a saying or expression'. –*P.*

The word, if a word at all, does not occur, and it was probably deduced by Pughe from *chwedl* († *chwedyl*); but it may be compared with *gwed*, *gwedyd*, just as *chware* and *gware* are convertible forms.

Ar ôl treulio blynyddoedd yn astudio pob math o lawysgrifau, 'roedd Silvan yn ddigon abl i ddangos, o bryd i'w gilydd, sut yr oedd Pughe wedi cyfeiliorni wrth gamddarllen hen destunau.²¹⁶ Dyma un esiampl o'r ffordd y gwnaeth hyn:

A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803)	A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE ... (1887 - 1907)
<p>Aryfle, <i>s.m.</i> -on (rhyfle) Defence; security. Dycymyg aerfysg yn aryfle aeszur. Forming the sudden conflict in the <i>protection</i> of a shield of steel. LL. P. Moç</p>	<p>Aryfle, <i>s.</i> This is Dr. Owen Pughe's reading of <i>aryfle</i>, which occurs in that and no other form, three times in the poems of Llywarch ab Llywelyn (<i>M.A.</i> i. 284, 288, 292), and which appears to be peculiar to that writer. According to him it signifies, as a noun, 'defence, protection' and as a verb, 'to defend, guard, or protect'. I assume it to be intended for <i>arfle</i> (q.v.), just as <i>aryf</i> represents <i>arf</i> (<i>M.A.</i> i. 276, 368; <i>St. Greal</i>, 25, 53) and <i>aryfawr</i> (<i>M.A.</i> i. 322) stands for <i>arfawr</i>.</p>

Gan gofio bod Silvan yn barod i danseilio gwaith Pughe, mae'n syndod gweld ei fd yn cynnwys llawer iawn o fathiadau ei ragflaenydd yn y geiriadur Cymraeg-Saesneg. Mae ganddo ffurfiau cydnabyddedig a geir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* megis:

A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803)	A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE ... (1887 - 1907)
Adlog, <i>s.m.-pl.t.</i> au (llôg) Compound interest.	Adlog, -au <i>sm.</i> compound interest.
Alsawz, <i>s.m.-pl.</i> alsozion (sawz) Algebra.	Alsawdd, <i>soddion sm.</i> [al+sawdd, as in <i>arsawdd</i> , <i>trysawdd</i>] algebra. ¶First found in Pughe (first instalment), 1793; but not in Walters, nor in any other dictionary published before the beginning of the present century.
Arzull, <i>s.m.-pl.</i> au (dull) Form; figure, or image.	Arddull, -iau, <i>sf.-m.</i> [dull] 1. a form, figure, an image; manner. 2. style; manner of writing or speaking. Fe ddarfu i Demosthenes gynnelwi haneswaith Thucydides seithwaith, yn unig er mwyn gwneyd ei hun yn gynnefin ag <i>arddull</i> yr awdur enwog hwnw. <i>Johanna Mills</i> , <i>Hyfforddwr</i> , 20 (cf.216). Erfyniasoch arnaf ysgrifenu rhywbeth ar <i>arddull</i> yn eich gramadeg. <i>Caledfryn</i> .
Arobryn, <i>s.m.-pl.t.</i> au (gobryn) Desert; merit.	Arobryn, -au <i>sm.</i> [pryn-u] desert; merit; a prize. <i>Cerdd arobryn</i> , a prize poem. Palestina, cân <i>arobryn</i> Heber. -W.O.Pughe: Pal. 1. <i>Traethawd arobryn</i> , a prize essay.
Bricyll, <i>s.pl.aggr.</i> (brig) Apricots.	Bricyll (sg. -en. <i>f.</i>) <i>s.pl.</i> and <i>cl.</i> [from E. <i>apricots</i> , <i>†abrecock</i> , <i>abricot</i> , <i>apricock?</i>] apricots; the apricot. Y mae gwres yr haf yn peri fod amrywiaeth yng nghynnyrch y tir ... yn y ffrwythau, o afalau a pher i eirin gwlanog ... a <i>bricyll</i> . <i>Llawlyfr Canada</i> .14.
Broçell, <i>s.f.-pl.t.</i> au (broç) A tempest.	Brochell, -au, <i>sf.</i> a tempest, a storm.
Clugiaw, <i>v.a.</i> (clug) To draw into a round from; to swell; to squat, to perch as a birds.	Clugio, <i>v.</i> 'to draw into a round form; to squat; to perch as a bird'. -P.
Cywystyl, <i>s.m.-pl.</i> cywystlon (cy-gwystyl) A	Cywystl, -on, <i>sm.</i> a mutual pledge or obligation.

²¹⁶ Morgan D. Jones, op. cit., t.67.

mutual pledge, tie, or obligation.	
Dathlu, v.a. (dathyl) To celebrate, to extol.	Dathlu, v. to celebrate; to extol. Cymmerwyd sylw neillduol o'r cyfryw ddygwyddiad yn nyddiau yr hygof frenin Sior III., a <i>dathlwyd</i> ei ddegfed flwyddyn a deugain ef fel lubili nodedig, drwy orfoledd cyffredinol dros yr holl deyrnas. <i>Gwladgarwr</i> , v. 268.
Edlwg, s.m.-pl. edlygon (ed-llwg) A review, or observation. <i>Bwrw edlwg</i> , to cast a view, or to observe.	Edlwg, lygon, sm. [=adlwg] a review, a retrospect; observation. Yr wyf yn hyderu y caniatêwch i mi fy nymuniad ... sef bod i'r ychydig linellau canlynol gael ymddangos ym mysg eich edlygon godidog, am y mis hwn. <i>Seren Gomer</i> , vi. 342.

Mae disgwyl iddo gynnwys nifer o'r rhain gan eu bod wedi dechrau ymgartrefu yn yr iaith. Gwelir nad codi bathiadau a'u cynnwys yn ei waith ei hun yn gwbl ddifeddwl a wnâi Silvan bob tro. Gofalodd ddangos enghreifftiau ohonynt mewn cyd-destun gan roi grym newydd neu gredadwyedd iddynt. Yn anffodus, gellir cael hyd i ddigonedd o ffurfiau anghydnabyddedig neu annilys Pughe hefyd, er enghraifft:

A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803)	A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE ... (1887 - 1907)
Abyrgov, s.m.-pl.t. ion (byr-cov) short memory.	Abyrgof, -ion sm. short memory. -P.
Açris, s.m.-pl.t. iau (aç-rhis) A covering.	Achris, -iau sm. a covering. -P.
Ambwyad, s.m.-pl.t. au (pwyad) A beating about.	Ambwyad, -au sm. a beating about. -P.
Arwiw, a. (gwiw) Superexcellent, or supreme.	Arwiw, a. very worthy; superexcellent.
Bynnywen, s.m.-pl.t. (bun-dyw) A goddess; a nymph.	Bunnywen, sf. [bun+duw?] a goddess; a nymph. -P.
Clogoren, s.f.dim. (clogawr) A bubble.	Clogoren, sf. a bubble. -P.
Coelvan, s.m.-pl.t. au (coel-ban) An omen.	Coelvan, -au sf. [coel+ban] an omen. -P.
Cystraw, s.m.-pl.t. ion (cys-traw) Criticism.	Cystraw, -ion sm. 'criticism'. -P. Probably a back-formation from <i>cystrawen</i> as the word does not appear to occur.

Mae hyd yn oed yr union ffurfiau cyfeiliornus y cyfeiriodd Robert Roberts atynt ganddo, er enghraifft 'echlys', 'echlysiad' ac 'echlysawl'. Cwynodd Robert Roberts am y ffordd yr aeth ati i lunio cymaint o eiriau cyfansawdd diangen gan ddefnyddio rhagddodiaid ac elfennau unsill:

Of words with dad-, dam-, dar-, he has about two thousand, but I cannot find fifty of that class in the authors I mentioned (sef yr hen destunau rhyddiaith a gwaith y beirdd gan mwyaf). So with di, an, gor, cyf, cyd, etc: he has omitted half the compounds I find, and inserted thousands which I can find no trace of. And his imaginary roots, of course, need no mention. There is no good deal of weeding to be done in a Welsh Dictionary.²¹⁷

²¹⁷ Llythyr dyddiedig 30/v/1879. Cwrtmawr 4493B.

Ychydig iawn o'r 'weeding' hwn a argymhellodd Roberts a wnaeth Silvan. Neilltuir bron i dair tudalen ar hugain ar gyfer geiriau'n dechrau â 'dar-' ac mae nifer o eiriau cyfansawdd Pughe yn ymddangos yng ngeiriadur Silvan, er enghraifft:

A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803)	A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE ... (1887 - 1907)
Amryveilwez, a. (amryval-gwez) Multiform.	Amryfeilwedd, a. consisting of various forms; multiform.
Argynnysgaethawl, a. (argynnysgaeth) Greatly endowed.	Argynnysgaethol/Argynnysgaeddol, a. greatly endowed; well-dowered.
Damzyblygrwydd, s.m. (dyblygrwyz) The state of being folded round, or doubled.	Damddyblygrwydd, sm. the state of being folded or wrapped around; multiplicity.
Dymborthawl, a. (porthawl) Tending to give mutual support.	Dymborthawl, a. tending to give mutual support or assistance. -P.
Dymguraw, v.a. (curaw) To be beating one's self; to beat mutually.	Dymguro, v. to beat one's self; to beat mutually. -P.
Eçdywynygiad, s.m. (eçdywynyg) A glittering.	Echdywynygiad, -au, sm. a glittering, a glistening, a shining.

Mae ganddo hefyd nifer o elfennau unsill a godwyd o eiriadur Pughe, er enghraifft:

A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE (1793-1803)	A DICTIONARY OF THE WELSH LANGUAGE ... (1887 - 1907)
Arn, s.m.-au (ar) A piece; a fragment.	Arn, -au, sm. a piece or fragment. -P.
Crag, s.m. -ion (cra) A hard crust; a coating.	Crag, -ion, sm. [apparently a back formation from <i>cragen</i> . q.v.] 'a hard coating'. -P.
Cram, s.f. (ara) An incrustation.	Cram, sf. [cf. <i>cramen</i> , <i>craw</i> , <i>crofen</i>] an incrustation. -P.
Cre, s.m.aggr. (cy-rhe) A combining cause, a principle, beginning, or first motion. Also what penetrates, or pervades; a cry.	Cre, sm. 'a combining cause, a principle, beginning, or first motion'. -P. No such word actually occurs in this sense; but Pughe seems to have inferred it from <i>cread</i> , <i>creu</i> , <i>dechreu</i> , &c.
Crês, s.m. (cre) A hardening with heat.	Cres, sm. 'a hardening with heat'. -P.
Crês, a (cre) heating; parching.	Cres, a. [cf. <i>cras</i>] heating or parching; inflaming. -P.
Dib, s.m.-pl.ε ion (ib) A fall, or depth; extremity.	Dib, -ion, sm. [cf. <i>dibyn</i>] a fall or depth; a declivity; extremity. -P.
Diw, s.m.-pl.t ion (iw) Intireness; perfection; sum; totality. a. Total.	Diw, -ion, sm. entireness, perfection, sum, totality. Diw, a. total, entire. -P.
Dym, prefix in composition (dy-ym) It implies the iteration of a reflective and mutual action.	Dym, px. [dy+ym]. 'It implies the interation of a reflective an mutual action'. -P.
Ez, s.m.r.-pl.t ion. A moment; a present time of motion; a going, or moving; a glide; a tranquil state. It is used as a prefix in composition; it is also the termination of nouns, as <i>gwirionedd</i> , <i>caredd</i> , or the like; and it forms the plural of others, as <i>teymedd</i> , <i>rhianedd</i> , and <i>gwreigedd</i> .	Edd, -ion, sm. 'a moment; a present time of motion; a going or moving; a glide; a tranquil state. It is used as a prefix in composition; it is also the termination of nouns, as <i>gwirionedd</i> , <i>caredd</i> , or the like; and it forms the plural of others, as <i>teymedd</i> , <i>rhianedd</i> , and <i>gwreigedd</i> '. -P.

Wrth ymdrin â chynnwys y geiriadur Saesneg-Cymraeg, trafodwyd yr awydd a oedd ar Silvan i ddangos holl gyfoeth y Gymraeg a'i hoffter o nodi ffurfiau Cymraeg amrywiol ar gyfer un prifair Saesneg. Hyd yn oed ar ôl magu blynyddoedd o brofiad ym maes geiriaduraeth, mae'n amlwg bod yr awydd hwnnw'n dal i afael ynddo ac mai dyna sy'n esbonio paham na fedrodd ymatal rhag cynnwys yn ei eiriadur y bathiadau a'r ffurfiau cyfeiliornus y cafodd hyd iddynt yng ngwaith Pughe. 'Roedd y demtasiwn yn ormod iddo. Gwelir –P wrth ochr rhai o'r ffurfiau hyn ond gadawyd nifer fawr ohonynt heb unrhyw wybodaeth i ddynodi o ba ffynhonnell y'u codwyd. Mae'n dra thebyg bod Silvan wedi osgoi gwneud hynny'n fwriadol, rhag cael ei feirniadu am gynnwys cymaint o eiriau ffug Pughe. Cofir nad oedd Pughe o'i flaen wedi crybwyll y dylanwad a gawsai syniadau Rowland Jones arno a hynny, o bosib, am ei fod wedi sylweddoli cyn lleied o barch oedd gan gylch y Morrisiaid tuag at Jones.

Gwelir ôl dylanwad Pughe ar un nodwedd arall sy'n perthyn i eiriadur Silvan, sef ei sêl dros 'burdeb' y Gymraeg. Dywedir yn rhagymadrodd trydydd argraffiad geiriadur Pughe, a gyhoeddwyd dan olygiaeth Gweirydd ap Rhys, bod Pughe wedi hepgor geiriau a fenthyciwyd o'r Saesneg ac ieithoedd eraill oherwydd ei sêl dros burdeb y Gymraeg. Er nad oedd yn gymaint o burydd â Pughe, tueddai Silvan i wneud yr un peth. Ni ellir cael hyd i ffurfiau megis 'alegori', 'almanac', 'astronomi/astronomyddiaeth', 'baromedr/barometer', 'blanced', 'bocs', 'bwled', 'clerc', 'comedi', 'cownt', 'desg' ac 'ecseismon/esceisman' sydd oll yn ffurfiau o darddiad estron ond sydd yn ffurfiau a oedd wedi ennill eu plwyf yn gyffredinol erbyn y cyfnod dan sylw.

Nodwyd eisoes bod Silvan wedi ceisio cyflenwi diffygion geirfaol y Gymraeg ers dechrau'r pedwardegau a'i fod wedi cynnwys geirfa gyfoes a fathwyd ganddo ef, neu gan eraill, yn y geiriadur Saesneg-Cymraeg. Mae'r mwyafrif o'r bathiadau'n ymddangos unwaith yn rhagor yn y geiriadur Cymraeg-Saesneg, ond gwrthododd rai o'r cynigion cynnar a gyhoeddodd yn *Y Cwmwl* a'r *Drysorfa Gynulleidfaol* megis 'ardebu' ('to portray'), 'arwaeseb' ('certificate'), 'coras' (circumference') a 'chwegor' ('grocer'). Isod, dangosir unwaith eto y cofnod a geir yn y geiriadur Saesneg-Cymraeg ar gyfer 'globosity/globularness':

Globosity, s. crynder, cyfrgrynder, crynnydd, cynghrynrywdd, crynedd, cyfangrynedd, cryneiddrydd, cronellogrwydd, cronenogrwydd, crwmach

Gellir cael hyd i'r ffurfiau a danlinellwyd yn y geiriadur Cymraeg-Saesneg ac mae Silvan yn nodi 'globosity/globularness' fel cyfystyr pob un. Mae'r ffurfiau â llinell doredig oddi tanynt yn ymddangos fel prifeiriau hefyd, ond ni chyfieithir hwy fel 'globosity/globularness'. Dyfynnir dau gofnod arall, sef 'harmony' a 'hydrometry' i ddangos bod Silvan heb chwynnu llawer o'r bathiadau erbyn cyhoeddi ei ail eiriadur. Tanlinellwyd y ffurfiau yn yr un modd ag o'r blaen:

Harmony, s. (Gr. a Ll. *harmonia*) cyssondeb, cyssonedd, cyssondra, cysseinedd, cydseinedd, cytundeb, cynghanedd, cynghan, peroriaeth; cyttonedd, cynhonedd, ceiniedi, cysseiniaeth, cydseiniaeth, cydseiniant; cydgan, cydgerdd, cyngherdd, cynghord, cydgord; alaw, cerddoriaeth, cywyddoliaeth, eilon, eilwy, eilyw, eilyg, eilw, alawn, anant, cyfeilyw; cydweddiad, cydfod

Hydrometry, s. dyfrfesuriaeth, dyfrfydraeth, gwyfesuriaeth, awfesuriaeth, gwyfydraeth, dyfrfydriad, gwyfydriad

Mae'n werth nodi bod Silvan wedi rhoi -P wrth ochr 'eilyw' ('harmony'), 'eilyg' ('harmony') a 'dyfrfesuriaeth' ('hydrometry') a'i fod wedi gwrthod 'anant' fel cyfieithiad posib o 'harmony'. 'Minstrels', 'poets' a 'poet-musicians' yw'r unig gyfystyron a dderbynnir gan Silvan ac mae ganddo'r nodyn a ganlyn:

According to Pughe *anant* signifies 'elementary principles of sound; harmony; the muses;' but to me it appears always to denote the minstrel class, whether poets or reciters; minstrels can sometimes be used as convertible terms. He employs it himself for Heber's 'minstrely'.

Ar y cyfan, ychydig iawn oedd yn barod i feirniadu gwaith Silvan. Un o'r rhai cyntaf i geisio'i gynghori oedd J. Gwenogvryn Evans. Cynigiodd ef awgrymiadau pwysig mewn llythyr a anfonodd ato ym 1897 yn trafod rhannau'r geiriadur y gobeithid eu cyhoeddi yn y dyfodol:

... I very much hope you will get the necessary help, and that you will in future numbers omit the *geire gneyd* - the number of compounded words (absolutely of no value) in the previous numbers is so great as to spoil the Dictionary. You waste your time in putting such words in, you waste money in printing them, you waste the student's time in looking up the words and his money in having to buy a great bulk of useless trash. The value of a Dictionary is not determined by its bulk or the number of words it contains, but by containing words which are *real words* and in use in our best literature.²¹⁸

²¹⁸ Llythyr dyddiedig 2 Awst 1897. Cwrtmawr 899B.

'Roedd yr awgrym hwn y dylai gynnwys 'real words' a hepgor y 'geire gneyd' yn gyngor doeth iawn ac ymddengys fod eraill yn rhannu'r un fam â Gwenogvryn.

Meddai yn yr un llythyr:

Two or three of your practical well-wishers think as I do about the geire llanw.²¹⁹

Eithr Gwenogvryn oedd yr unig un i fentro lleisio'r fam honno. Pe bai wedi gwneud hynny ddeng mlynedd ynghynt, pan ddaeth y ddau'n gyfarwydd â'i gilydd am y tro cyntaf, efallai y byddai Silvan wedi medru bwrw ymlaen a chyhoeddi'r rhannau dipyn yn gynt. Yn ôl R. E. Hughes, effeithiodd y feimiadaeth hon ar berthynas Silvan a Gwenogvryn.²²⁰ Ar ôl edrych ar natur yr ohebiaeth a fu rhyngddynt wedi i Gwenogvryn sôn am y 'great bulk of useless trash', awgrymodd Hughes fod Silvan wedi pwdu.

Un o nodweddion y geiriadur a gafodd ganmoliaeth oedd y ffordd y ceisiodd Silvan olrhain hanes a datblygiad geiriau. Nododd un adolygydd mai ychydig iawn o eiriadurwyr Cymraeg eraill oedd wedi mentro dadansoddi arwyddocâd geiriau ac olrhain eu datblygiad hanesyddol.²²¹ Gan fod Silvan wedi treulio cyhyd yn casglu deunydd ac yn paratoi'r geiriadur, mabwysiadodd ddull manwl a threfnus o gofnodi ystyron gwahanol eiriau. Sylwer, er enghraifft, ar y ffordd yr aeth ati i ddangos gwahanol ystyron 'aflawen' ac 'afrifed':

Aflawen, a. 1. not merry or cheerful; uncheerful, sad, gloomy, melancholy; dismal.

Keint yn yspydawt uch gwirawt *aflawen*.

Taliesin: A.B. ii. 153.

Handid eurdyl *avlawen* henoeth.

Llywarch Hen: M.A. I. 105 (cf.119)

Awyt neud awyt neu *aflawen*. – *Cynddelw: M.A. I. 230.*

Mor dddigariad, mor *aflawen*,

Ydyw marw'n llyn o'r chwaren.

Rhys Prichard: C.y C. cx. 61.

A'r sarff *aflawen* a'r tan o'i enau.

Gr. Ynad Coch: M.A. I. 517 (cf.400)

2. saucy; passionate.

O flaen neb *aflawen* wyf. – *D. ab Gwilym, cclviii. 28.*

Hi fydd byth am fod yn ben,

Yn wraig *aflawen* lidiog. – *Huw Llwyd o Lancarfan.*

Aflawen yn' fal y nos,

A fu lawen fal eos. – *Hywel Dafydd ab Ieuan.*

3. untidy, slovenly, dirty. – N.E.W.

4. extreme, exceeding, excessive.

²¹⁹ Ibid.

²²⁰ R. E. Hughes, op. cit., t.174.

²²¹ Gw. er enghraifft adolygiad *Y Cymmrodor*, Cyfrol VIII (1887), tt.216-217.

A gwedy colli amgylch teir mil oe gwyr yn drist *aflawen* yd ymochelasant y gwlat. – *Brut y Tywysogion*, 160.

Fal hyn, dan fraw *aflawen*,
Mae plant cred Mohammed hen.
Iolo Morganwg: *Salmu*, I. 220.

Oer aflawen, extremely cold.

Afrifed, a. 1. innumerable, numberless.

Traidd *afrifed* blanedau,
Traidd uffem a'r gethem gau.
William Wynn, C. y Fam.
Hawdd dwyn *afrifed* o enghreifftiau i brofi i'r gwrthwyneb.
G. Mechain: *Gwaith*, ii. 363.
Dan ein traed *afrifed* rwystrau,
Ar bob llaw mae llawer ffos.
Iolo Morganwg: *Salmu*, II, xl. 1.

2. infinite; immense; enormous.

Gwelid yn eu herbyn Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgan, a chydag ef lu *afrifed* o wyr Morganwg a Gwent.
Ieuan Brechfa: M.A. ii. 503 (cf. 553).
Ac yno y bu brad ddirfawr a thwyll *afrifed* ...
Ieuan Brechfa: M.A. ii. 505.

3. intolerable, insufferable.

Pa beth a dybygwn ni, neu a famwn, am falchedd *afrifed* y Pab? – *Ed. James*: Hom. iii. 119.
Rhaid ymochelyd rhag bod y ddull hon yn dywyll neu yn drwsgl ddybryd, yno *afrifed* fydd.
H. Perrt: Egl. Ffr. x.

4. excessive, extreme, exceeding; very great.

Eryr digrif *afrifed*,
Owen helm gain, hael am ged.
Gruffydd Llywd ab Dafydd.
Mae yn ddiarnheu eu bod yn cymmeryd poen *afrifed* yn dysgu y gelfyddyd i'w ddisgyblion. – *Theo. Evans*: D.P.O. I. 5. (151)
Yr wyt yn tyboed y dichon y Geirlyfr hwn fod yn llesol ac yn wasanaethgar *afrifed* i Frodorion Cymru. – *Th. Richards*: *Geirlyfr*, Rhag. 21.
Colled *afrifed* fawr oedd,
Alarus i laweroedd.
Ieuan Brydydd Hir: *Gwaith* 97.
Ni rydd neb a fo'n ei gael,
Ond cysur gwael *afrifed*.
Iolo Morganwg: *Salmu*, II, vii. 3.

Er nad yw'n llwyddo bob tro i gynnwys yr enghraifft gynharaf, mae ei gofnodion dipyn yn helaethach na'r rhai a geir mewn geiriaduron eraill. Cymharer y ddau gofnod uchod â'r hyn sydd gan William Owen Pughe ac fe welir bod ymdriniaeth Silvan yn fanylach:

Avlawen, a. (llawer) not merry.

Avrived, a. (avriv) Innumerable; infinite.

Fel y gwelir, mae Silvan yn defnyddio dyfyniadau'n fynych i ddangos enghreifftiau o'r prifeiriau yn eu gwahanol ystyron. Fel arfer, mae'r dyfyniadau'n perthyn i gyfnodau gwahanol ac felly'n adlewyrchu datblygiad yr ystyron. Dyma ymgais Silvan ar gyfer 'duryn' er enghraifft:

Duryn, -au, sm. [dur] 1. a steel, a piece of steel. Cf. *Duren*.

Hog-dduryn cigydd, a butcher's steel. –W.

2. a beak, a bill; a snout; a trunk, a proboscis.

Edn yn ei hoedl ni edir,
Aderyn hardd *duryn* hir.

D. ab Gwilym: lxxii. 19 (cf. 36; xlv. 19)

A megys yr oed yn dyuot attaw ef a welei y ki yn roi y *duryn* yr llawr. ac yn kael gwaet. ac yn ymlit y gwaet ar hyt fford lysseulet.

St. Great: §108.

E perchyll becheyn or pan emcuelo bysguelyn gyntaf ay *duryn* [al. truyn] un kefreyt ac eu mam vydant ar hyt.

Cyfreithiau Cymru, i. 324.

Duryn catt yn lladratta. – *Madog Dwygraig*: M.A. i. 489.

Y peth rhyfeddaf yng ngwneuthuriad yr Elephant yw ei anferth *dduryn*: sef math o drwyn hir, ansawdd yr hwn sy gyfryw, fel y gall y creadur ei estyn allan neu ei dynu i mewn; ei eangu, ei godi, neu ei ostwng; a'i droi fe y myno.

Gwylidydd, i. 171 (cf. 172, 173).

Y mae glyfin yr aderyn hwn o wneuthuriad mor rhyfedd, ym mron, a *duryn* yr Elephant. – *Cylchgrawn*, i.26.

A phistylla allan fôr o drwy ei *dduryn*.

W. O. Pughe: C. G. vii. 481.

Trwyn hir main sydd ganddo, yr hwn a fedr efe (megys *duryn* cawrfil) ei estyn neu ei fyrhau pryd y myno.

Gwylidydd, iii. 169 (cf. 165).

Diwreiddia goed gyd â'i *dduryn*. – *Gwylidydd*, xi. 148.

3. the nose (humorously, or in contempt); the snout.

A'th *dduryn* oedd, waith arall,

Fal trwyn yr âb, fab y fall. – *Goronwy Owain*, 74.

Gwell na merch yn cynnyg cusan

Ar *dduryn* oer, ryw ddam o arian.

Huw Morus: E.C. i. 333.

Nodwedd arall a gafodd ei chanmol oedd y nodiadau sy'n ymddangos o bryd i'w gilydd am hanes neu ffurf geiriau, neu'r defnydd arbennig a wneid ohonynt. Yn ôl adolygydd *Y Cymmrodor*:

The notes appended to many articles under the mark ¶ deserve special notice, as they embody much valuable matter. They refer to history, peculiar forms, inflexions or uses of words; to doubtful, false or various readings; and occasionally to the corruptions of modern usage.²²²

Dyma rai enghreifftiau o'r manylion pellach a ychwanegodd at ddiwedd y cofnod ar 'argraffu', diniwaid/diniwed' ac 'efe':

¶ The first Welsh book having *argraffu* in the imprint, was the quarto Prayer Book of 1664. Previously to that date, and occasionally for some time afterwards, *printio* and *imprintio* or *emprintio* were the usual words.

¶ Most editions of the Bible have *diniweid* (as well as the subs. *niweid*), apparently following Bp. Parry's edition in one passage (*Iob* ix. 23), but the term *-eid* for *-aid* has long been obsolete; and no adjective or noun in the present stage of the language ends in *-eid*.

²²² *Y Cymmrodor*, viii (1887), t.216.

¶ Like the other emphatic personal pronouns, *eſe* is stressed on the last syllable. It is of rare occurrence in the older language, while its equivalent *efo* is comparatively common.

Nodwyd eisoes bod Silvan yn awyddus i gofnodi geiriau llafar gwlad a'i fod wedi derbyn rhestrau o eiriau tafodieithol gan ei ohebwy. Mae ganddo ffurfiau megis 'bannas gwely', 'cidell', 'cecas', 'clewyn', 'clindarddard' a 'clipen' yn y geiriadur gyda

-*Mon*, -*S.W.*, -*S.W.W.*, -*N.W.* neu -*N.W.W.* wrth eu hochr. Mae ganddo hefyd ambell idiom llafar megis:

Y mae dalyd dan ei dafod, he is tongue-tied. -*S.W.W.*

Hogyn llawn asgen ydyw, he is a boy full of mischievous tricks. -*N.W.*

Clywed gwynt y bwch, to smell a rat. -*S.W.*

Clompen o ddynes, a good-sized woman. -*N.W.*

Paid â chymadu o hyd, do not howl continually. -*Mon.*

Heb os, Silvan oedd geiriadurwr mwyaf galluog y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er na chawsai addysg brifysgol neu gyfarwyddyd mewn dulliau ysgolheigaidd, 'roedd nodweddion a chyneddfau'r gwir ysgolhaig yn perthyn iddo ac ystyrid ef yn awdurdod ar y Gymraeg. Geiriaduraeth oedd ei faes astudiaeth arbennig ef a'i ddelfryd mawr oedd llunio geiriadur Cymraeg. Treuliodd bron i hanner can mlynedd yn paratoi, yn casglu ac yn rhoi trefn ar y gwaith ac ar un olwg, sgil-gynnyrch ei waith geiriadurol oedd ei holl weithgarwch llenyddol arall. 'Roedd yr hyn a gyflawnodd fel unigolyn yn anhygoel yn ei ddydd. Soniwyd eisoes am y grant a ddyfarnwyd iddo o'r 'Civil Llist' a'i fod wedi ei ethol yn gymrawd o Goleg Iesu Rhydychen. Fe'i hanrhydeddwyd hefyd gan yr Eglwys yng Nghymru am ei gyfraniad i astudiaethau yn y Gymraeg pan etholwyd ef yn ganon anrhydeddus ym 1888. Cafodd ei waith ym maes geiriaduraeth ei gydnabod gan Gymdeithas y Cymmrodorion pan dderbyniodd fathodyn ym 1897 ac ym 1901 dyfarnwyd iddo radd anrhydeddus D.Litt gan Brifysgol Cymru.

Er bod i'r geiriadur ei ddiffygion, megis dylanwad bythol Pughe, yr awydd a oedd ar Silvan i gofnodi geiriau'r iaith yn ddiwahaniaeth heb eu dewis a'u dethol, y methiant i egluro ystyron yn llawn a'r methiant wrth nodi oedran cywir rhai geiriau, mae rhagoriaethau amlwg yn perthyn iddo hefyd. O'r braidd y gellir

cymharu *A Dictionary of the Welsh Language* â geiriaduron eraill y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu unrhyw eiriadur Cymraeg arall o ran hynny. Mae ei ymdriniaeth â geirfa'r iaith dipyn helaethach a manylach. Rhoddodd sylw arbennig i hen eirfa'r iaith yn ogystal â geirfa Gymraeg ddiweddar a chyfoethogodd y gwaith ymhellach trwy gynnwys dyfyniadau o bob math o destunau, o bob cyfnod yn hanes ein llên.

Mynnodd Thomas Parry mai "methiant anrhydeddus" oedd ymdrech Silvan i gynhyrchu geiriadur Cymraeg.²²³ Ar ôl tynnu sylw at y ffaith mai tîm o bobl fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r *Oxford English Dictionary* a bod y gwaith ar Eiriadur Prifysgol Cymru wedi dechrau er 1921, nododd fod y dasg y ceisiodd Silvan ei chyflawni yn ormod o faich i un unigolyn. Ei brif fai, meddai Thomas Parry, oedd rhoi gormod o sylw i'w weithiau eraill - megis y geiriadur Saesneg-Cymraeg a'i waith golygyddol - yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar y geiriadur Cymraeg-Saesneg. Yn olaf, rhaid nodi fod y geiriadur Cymraeg-Saesneg yn "fethiant anrhydeddus" am reswm arall. Ymddangosodd rhwng dau gyfnod arbennig fel petai ac fel canlyniad, ni lwyddodd Silvan i ddenu dilynwyr uniongyrchol ac ni lwyddodd i ysbrydoli neb ychwaith.²²⁴ Ni chawsai gweithiau William Owen Pughe a Iolo Morganwg eu diorseddu'n iawn ac 'roedd llawer o hen lenyddiaeth y Cymry'n dal mewn llawysgrifau. Cyhoeddwyd ail gyfrol geiriadur Cymraeg-Saesneg Silvan flwyddyn cyn i Syr Ifor Williams ddechrau esbonio ystyron hen eiriau. Dywedodd Thomas Parry:

Y gwir rhyfedd yw fod geiriadur Silvan yn rhy hwyr ac yn rhy gynnar yn ymddangos. Petai ar gael hanner can mlynedd yn gynt, er gwaethaf ei ddiffygion gallai fod yn ddefnyddiol fel brechdan i aros pryd. Petai hanner can mlynedd yn ddiweddarach, gallai fanteisio ar lawer o ddarganfyddiadau Ifor Williams.²²⁵

²²³ Thomas Parry, op. cit., t.122.

²²⁴ Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t.279.

²²⁵ Thomas Parry, 'Daniel Silvan Evans, 1818-1903', op. cit., t.125.

Pennod 8

Geiriaduron 1850 - 1914

(i)

Hugh Jones (d.d.)

Crydd oedd William Aubrey wrth ei alwedigaeth, ond treuliodd gyfnod yn crwydro'r byd ac yn pregethu. Ym 1852, dychwelodd i Gymru gan geisio gwneud bywoliaeth trwy werthu llyfrau a rhedeg gwasg yn Llannerch-y-medd.¹ Ef fu'n gyfrifol am argraffu *Y Geiriadur Gwreiddiol* o eiddo Hugh Jones ym 1855.² Ymddengys fod Jones yn ei chwedegau cynnar pan luniodd y geiriadur gan fod cyfrifiad Plwyf Llantrisant ar gyfer y flwyddyn 1851 yn nodi mai chwe deg ydoedd yr adeg honno. Gwyddys mai brodor o Lanbadrig ym Môn ydoedd a'i fod wedi treulio cyfnod fel ysgolfeistr yn Llantrisant. Ysywaeth, methwyd cael hyd i ragor o wybodaeth amdano.

Sylweddolasai Hugh Jones ba mor angenrheidiol oedd hi i fedru'r Saesneg. Yn rhagymadrodd *Y Geiriadur Gwreiddiol*, dywed:

Y mae medru yr iaith Saesonaeg y dyddiau yma wedi mynd yn beth hanfodol i ddedwyddwch, defnyddioldeb ac anrhydedd, ac yn ddysgeidiaeth y mae bron pawb yn ceisio ei chael ...

Cwynai fod y Cymro cyffredin ar ei golled gan fod pob geiriadur yn rhy gostus iddo. Bwriad Hugh Jones felly, oedd llunio geiriadur bychan, rhad a fyddai'n cynorthwyo:

... bechgyn tlodion a dosbeirh isel ein pobl ...

i ddysgu Saesneg.

O ran maint, cyfrol fechan iawn ydyw. Mesura 8.5cm o led a 12.5cm o hyd ac mae'n cynnwys 164 tudalen. Yn anffodus ni wyddys faint oedd ei phris. Rhennir y cynnwys yn ddwy ran. Esbonia Jones iddo drefnu'r gwaith fel hyn:

... i'r dyben o osod y ffon yn ddigon isel yn yr ysgol i'r gwanaf gael cychwyn, a hwylusdod i Athrawon ysgolion i nodi cyfres o wersi gymwys i blant o wahanol oed a gradd.

¹ Bedwyr Lewis Jones, *Argraffu a Chyhoeddi ym Môn* (cyhoeddwyd gan adran argraffu Cyngor Sir Gwynedd, 1976) t.11.

² Hugh Jones, *Y Geiriadur Gwreiddiol. English and Welsh Dictionary of one and two syllables for the use of schools and young men* (Llanerchymedd, 1855).

Y GEIRIADUR GWREIDDIOL

ENGLISH AND WELSH
DICTIONARY

OF

ONE AND TWO SYLLABLES

FOR THE USE OF SCHOOLS

And young men

BY

Hugh Jones,

School Master, Llantrisant, Anglesey.

LLANERCHYMEDD.

PRINTED BY WILLIAM AUBREY,

1855

Neilltuir dros hanner cant o dudalennau ar gyfer rhestru geiriau Saesneg unsill. Oddeutu 3,000 prifair sydd yn y rhan gyntaf ynghyd â'u cyfystyron Cymraeg. Yn yr ail, sydd dros gan tudalen o hyd, ceir tua 5,000 o eiriau deusill. Wrth reswm, mae ganddo fwy o enwau nag o ferfenwau yn ei restrau. Geiriau a ddefnyddid bob dydd ydynt fel rheol, geiriau megis 'barn', 'boose' (beudy), 'dag' (blaen gneifio), 'gare' (gwlan garw), 'grange', 'hame' (mynchi pren) a 'jack' (march bren). Mae geirfa'n ymwneud â llongau yn eithaf cyffredin yn y geiriadur, er enghraifft: 'barge' (cwch, ysgraff), 'deck' (bwrdd llong), 'keel' (gwaelod llong), 'fizgig' (hyfer morwyr), 'shrouds' (rhaff ysgol hwyl-bren llong) a 'xebec' (llong briodol i'r mor Canoldir). Nid yw'n cynnig esboniad ar ei brifeiriau ond caiff 'shrimp' sylw arbennig ganddo am ryw reswm:

Shrimp, gwichiedyn - ond yn hytrach math o bysg cragenol a nofient hyd rai o lenydd ein tir; Y maent o ran eu blas o duedd halltaidd, ac yn hynod lesol i gylla dyn.

Mae'n werth nodi bod copïau o'r *Geiriadur Gwreiddiol* yn eithriadol o brin erbyn heddiw ac mai un copi ohono sydd yng nghasgliad llyfrau prin Llyfrgell Llangefni.

(ii)

Robert John Pryse (Gweirydd ap Rhys, 1807 -1889)

Ychydig iawn o addysg ffurfiol a dderbyniodd Gweirydd ap Rhys ond dysgodd sut i ysgrifennu a darllen Cymraeg pan oedd yn was fferm a pharhaodd i'w ddiwyllio'i hun gan ddysgu Saesneg.³ Prynodd argraffiad 1826 o *Eiriadur Saesneg a Chymraeg* Thomas Jones ac yn ôl pob tebyg:

Y cynllun a gymmerth oedd, dysgu Geiriadur Jones allan, fel pennod, ar dafod leferydd; a dysgodd ef ... hyd ddiwedd y llythyren F.⁴

Prynodd hefyd gopi o *Sheridan's Improved, being a Pronouncing Dictionary, Dyche's Guide to the English Tongue* a *Loughton's Practical Grammar of the English Tongue*.⁵ Gan nad oedd yn llwyr gredu syniadau lolo Morganwg am y Derwyddon, aeth ati i ddysgu Lladin fel y gallai ddeall yr hyn a ddywedai'r Rhufeiniaid amdanynt. Yn ddiweddarach, ymrodd i ddysgu Groeg er mwyn deall y Testament Newydd yn well.

Gwyddai Gweirydd o brofiad am yr anawsterau a wynebai unrhyw un a geisiai ddysgu Saesneg yr adeg honno. Diben ymarferol sydd i dipyn o'i gynnyrch llenyddol, gan gynnwys ei waith cyntaf, sef *Geiriadur Cynanawl Seisnig-Cymreig ac Eglurydd yr iaith Seisoneg yn Seisoneg a Chymraeg*. Bwriad Gweirydd oedd cynorthwyo'r Cymro uniaith a ddymunai:

... ddeall yr iaith Saisoneg, a'i *phronownsio* yn groewdeg yn ol fel y gwna y Sais mwyaf dysgedig.⁶

Dechreuodd lunio'r geiriadur hwn, yn dangos:

... gwraidd y geiriau Seisoneg yn ol awdurdod y Dr. Johnson, gyda chynaniad Mr. Walker, wedi ei gymhwyso i'r Gymraeg ...⁷

³ Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt.761-2.

⁴ Llsgr Bangor 1681, 543-7.

⁵ Enid Pierce Roberts, 'Gweirydd ap Rhys: ei fywyd a'i waith', *Traethawd M.A. Prifysgol Cymru Bangor*, 1941, t.19.

⁶ Robert Ioan Pryse, *An English and Welsh Pronouncing Dictionary: in which the pronunciation is given yn Welsh letters. Geiriadur Cynaniadol Saesneg a Chymraeg: yn yr hwn y silladir y geiriau Saesneg a llythyrenau Cymraeg: hefyd, cyfres o enwau priod yr Ysgrythur, wedi eu silladu yn Gymraeg* (Dinbych, 1857), t.iv.

⁷ Ibid.

ym 1833. Erbyn dechrau 1834 'roedd Gweirydd wedi paratoi digon o ddeunydd ar gyfer un rhifyn, felly gwnaeth drefniadau gyda Robert Jones, Albion Press ym Mangor, i'w argraffu. Talwyd pymtheg punt i Jones a chan fod Gweirydd ei hun yn brysur gyda'i waith gwehyddu ac yn bell o gyrraedd y wasg argraffu, rhoddwyd 30/- i Arfonwyson am ddarllen y proflenni. 'Roedd am gyhoeddi oddeutu 30 neu 32 o rifynnau am chwe cheiniog yr un eithr bu'r cynllun yn fethiant ariannol ac un rhifyn yn unig a ymddangosodd. Gan iddo wneud colled o £30, addawodd Gweirydd i'w wraig na fyddai byth yn mentro cyhoeddi gwaith yn yr un ffordd eto. Llwyddodd i gadw'r addewid hwn o hynny ymlaen.

Mae'n debyg bod yr unig rifyn o'r *Geiriadur Cynanawl Seisnig-Cymreig* a ymddangosodd yn cynnwys ffurfiau megis 'anmharod' ac 'yn nghyd' ac yn dangos yn glir mai disgybl Pughe oedd Gweirydd yr adeg hon.⁸ Dylanwad Arfonwyson oedd wedi peri iddo goleddu syniadau Pughe yn y lle cyntaf. Yn "Buchedd Gweirydd ap Rhys", nodir:

Denodd cyfeillgarwch Arfonwyson ef i zelog gofleidio yr un syniadau, yr hyn oni buasai iddo gael gwared ohono a'i cadwasai yntau byth yn ysgrifenydd clogyrnog mympwyol ac anghymeradwy, megis y mae holl ddisgyblion Dr. Puw o hono ei hun i wared.⁹

Pan ddechreuodd Gweirydd ap Rhys astudio "seinysgrifiaeth" tua 1846, newidiodd ei feddwl am etymoleg ac orgraff. Tueddodd i ddilyn syniadau Gwallter Mechain o hynny ymlaen gan ystyried ei draethawd ar "Rhyddid", a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Llanelwy ym 1790, fel gwaith a oedd yn ddilyniant uniongyrchol i gyfieithiad William Morgan o'r Beibl.¹⁰

Ym 1847, cafodd Gweirydd gyfle da i lunio gwaith tebyg i'r *Geiriadur Cynanawl* ar ôl gweld yr hysbyseb hon ar glawr rhifyn mis Mehefin 1847 o'r *Geiniogwerth*:

Gwobr o £10 a chopi o Eiriadur Walters i awdur y cyfarwyddyd goreu yn yr Iaith Gymraeg i Gymro ddysgu yr iaith Saesneg.

⁸ R. E. Hughes, 'Aspects of Welsh Lexicography in the nineteenth century with special reference to the contribution of Daniel Silvan Evans', *Traethawd M.A. Prifysgol Lerpwl*, 1941, t.78.

⁹ *Llsgyr Bangor 1678-1708*, t.754.

¹⁰ 'Rhyddid; Traethawd a enillodd Ariandlws Cymdeithas y Gwyneddigion ar ei Thestyn i Eisteddfod Llanelwy, B.A. 1790' yn D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith Gwallter Mechain* (Cyfrol II) (Caerfyrddin, 1868), tt.1-109.

Nodwyd y dylai'r traethawd fod o faint y gellid ei werthu am 9d. neu 1/- ac mai gan Thomas Gee y byddai hawlfraint y gwaith buddugol. O'r tri ar ddeg o ymgeiswyr, Gweirydd ap Rhys a ddaeth yn fuddugol ac fe'i gwahoddwyd ef gan Gee i ysgrifennu gramadeg o'r iaith Saesneg yn Gymraeg fel y gellid ei gyhoeddi fel rhan o'r 'Cyfarwyddyd'.¹¹ Fe'i disgrifiwyd gan Enid Pierce Roberts fel:

Rhyw gymysgfa o Eiriadur Cynaniadol a Gramadeg ...¹²

gan fod y cynnwys wedi ei rannu'n dair, sef 'Cynaniad yr Iaith Seisnig', 'Arddygraff yr Iaith Seisnig' a 'Cyfansoddiad yr Iaith Seisnig'. Er nad yw ei ymdriniaeth â gramadeg ac ynganiad acen yn eglur iawn bob amser, mae'n waith manwl iawn. Cafodd dderbyniad gwresog gan y wasg a bu'n gymorth i nifer o Gymry.¹³

Er bod Gweirydd wedi dechrau amau syniadau Pughe ers rhai blynyddoedd, nid oedd wedi ymryddhau'n llwyr o'i ddylanwad gan fod enghreifftiau ohono'n efelychu orgraff glogyrnaidd Pughe yn y *Cyfarwyddyd i Gymro*. O 1850 ymlaen, credai'n ddiysgog y dylid sillafu geiriau yn ôl eu sain ac nid yn ôl eu tarddiad ac mae'n werth nodi iddo ddifaru'n ddiweddarach ei fod wedi cadw at orgraff Pughe yn y *Cyfarwyddyd i Gymro*. Nodwyd yn "Buchedd Gweirydd ap Rhys":

Y mae'n ddrwg gan yr awdur erbyn hyn (1881) bod y gwaith wedi ei ysgrifennu yn llythraeth anystwyth y Dr. Pughe.¹⁴

Y 'Cyfarwyddyd' fu'n gyfrifol am ddwyn Gweirydd i sylw Thomas Gee am y tro cyntaf. Cyn dechrau ar y gwaith o lunio'r *Gwyddoniadur Cymreig*, bu Gee yn ymgynghori'n gyson ag ef ac ym 1857 perswadiodd ef i roi'r gorau i'w waith fel gwehydd a symud i Ddinbych i weithio yn y wasg argraffu. Amcangyfrifwyd bod Gweirydd wedi ysgrifennu 493 o erthyglau ar ei gyfer - digon i lenwi un o ddeg cyfrol *Y Gwyddoniadur yn llwyr* - a phan adawodd y golygydd ym 1861 trosglwyddwyd y baich i Gweirydd ap Rhys.

¹¹ Robert John Pryse, *Cyfarwyddyd i Gymro ddysgu yr iaith Seisnig: at yr hwn, trwy annogiad y beirniad, y chwanegwyd gramadeg Seisnig yn Gymraeg* (Dinbych, 1849).

¹² Enid Pierce Roberts, op.cit., t.90.

¹³ Gw. er enghraifft *The Principality*, Medi 29, 1849; *Seren Gomer*, Hydref 1849; *Y Dysgedydd*, Hydref 1849 a'r *Drysorfa*, Tachwedd 1849.

¹⁴ Llsgr Bangor 1678-1708, t.1247.

Ym 1853, cytunodd Gweirydd i roi ail gynnig ar lunio Geiriadur Cynaniadol i Gee. Bu'n rhaid iddo roi'r gorau i ysgrifennu erthyglau ar gyfer *Y Gwyddoniadur* am gyfnod¹⁵ ac mewn llythyr a anfonodd at Andreas o Fôn tua'r adeg hon, cyfaddefodd ei fod yn gweithio'n ddyfal ar y geiriadur. Meddai:

Yr wyf yn paratoi 10 tudalen o'r Geiriadur bob dydd i'r wasg, ac yn agos gymmaint a hyny o'r leithiadur yn fynych. Yr wyf am synu Gee eleni â gwaith.¹⁶

Erbyn diwedd 1854, 'roedd Gweirydd ar fin gorffen y geiriadur ac fe gychwynnodd Gee ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn ganlynol.¹⁷ Daeth *An English-Welsh Pronouncing Dictionary in which the Pronunciation is given in Welsh* o'r wasg yn rhifynnau tair ceiniog rhwng 1855 a 1856. Ym 1857 cyhoeddwyd argraffiad cyflawn o'r gwaith yn dwyn yr un teitl ac fe'i gwerthid am 7/-.¹⁸ Cyfeiriwyd eisoes at y geiriadur hwn a'r ffaith y cawsai gryn sylw yn y wasg oherwydd y ffræ gyhoeddus rhwng Gee, Silvan a Gweirydd. Yn y rhagymadrodd, mae'n esbonio ei fod wedi anelu at greu:

... y fath Eiriadur ag a gynnorthwyo'r Cymro uniaith i ddysgu yr iaith Saesneg, heb un cyfarwyddyd arall; ac un cymhwys, hefyd, o ran maint, a phris, a chyflawnder, i fod yn LLYFR YSGOL.

Unwaith eto, pwysleisio pa mor angenrheidiol oedd hi i bob Cymro ddysgu Saesneg a wna Gweirydd. Ni allai'r sawl a ddymunai ymgysgu:

... â chyfreithiau a masnach ei wlad, ac â chelfyddydau a llenoriaeth y byd

wneud hynny heb wybodaeth drylwyr o'r Saesneg. Dywed fod y gyfrol yn seiliedig ar y *Geiriadur Cynanawl* y dechreuodd ei baratoi ym 1834 eithr nid oes ynddi gymaint o fanylder â'r gwaith hwnnw ac ni roddir ystyron y prifeiriau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth baratoi, bu'n ymgynghori â'r geiriaduron a gyhoeddwyd ers ymddangosiad *New English-Welsh Dictionary* William Evans ym 1771¹⁹ hyd at gyfrol gyntaf geiriadur Saesneg-Cymraeg Silvan a ymddangosodd ym 1852.²⁰ Dywed hefyd iddo droi at ochr Ladin-Cymraeg y

¹⁵ Ibid., t.1391 a t.1404.

¹⁶ LLGC Ych. 302 C. Rhif 24.

¹⁷ Llsgr Bangor 1678-1708, t.1405.

¹⁸ *Y Geninen*, Ebrill 1911, t.122. Nodir yn Llsgr Bangor 1678-1708, t.1404 a t.1408 mai pedwar swllt oedd y pris.

¹⁹ William Evans, *New English-Welsh Dictionary, Containing All Words necessary for Reading an English Author ...* (Caerfyrddin, 1771).

²⁰ Daniel Silvan Evans, *An English and Welsh Dictionary, adapted to the present state and literature, in which the English words are deduced from their originals, and explained in the Welsh language* (Dinbych, 1852-1858).

Dictionarium Duplex o bryd i'w gilydd.²¹ Mae'n debyg ei fod wedi bwriadu cynnwys 'Cyfres o enwau priodol, Groeg, Lladin, Saesneg, ac Ysgrythyrol wedi eu silladu yn Gymraeg' ond:

... ni chaniatäai lle o roi dim ond yr enwau Ysgrythyrol i mewn yn unig, heb chwanegu pris y Geiriadur.²²

Ar ddechrau'r geiriadur mae ganddo 'Arweiniad i'r Cynaniad Saesneg' gyda 'rhifnodau rhwng ymsangau' ar ôl yr enghreifftiau i gyfeirio at yr adrannau perthnasol yn y *Cyfarwyddyd i Gymmro ddysgu yr Iaith Seisnig* a gyhoeddased eisoes. Defnyddia lythrennau italig i ddynodi seiniau hir y gwahanol lafariaid ac ar waelod pob tudalen mae ganddo dalfyriad o'r 'Arweiniad i'r Cynaniad Saesneg':

a fel yn tad; a, cam; e, hen; e, pen; i, llid; i, dim; o, tor; ond ei sain yn hwy; o, llon; u, dull; w, swm; w, pwn; y, yr; c, fel tsh; j, John; sh, fel s yn eisiau; z, zel.

Wrth baratoi ei sylwadau ar ynganiad geiriau Saesneg, dywed iddo ddilyn arweiniad Gilbert a Smart²³ yn bennaf a'i fod hefyd wedi ymgynghori â gwaith Walker,²⁴ Jones, Reid,²⁵ Birkin,²⁶ Worcester,²⁷ Ogilvie a Spurrell. Trodd at yr un awduron wrth benderfynu sut "i lythyrenu y geiriau Saesneg" gan wneud defnydd o weithiau Johnson a Todd,²⁸ Richardson,²⁹ Webster³⁰ a Silvan yn ogystal. O'i gymharu â *Geiriadur Cynaniaethol Saesneg a Chymraeg* William Spurrell,³¹ gwelir na ddefnyddir yr un seiniau cyfatebol gan y ddau, er enghraifft:

²¹ John Davies, *Antiquae linguae Britannicae ... et linguae Latinae, dictionarium duplex* (Llundain, 1632).

²² Robert John Pryse, *An English and Welsh Pronouncing Dictionary ... op.cit., t.vi.*

²³ B. H. Smart, *Walker Remodelled. A new critical pronouncing dictionary ... adapted to the present state of literature and science* (Llundain, 1836).

²⁴ John Walker, *Critical Pronunciation Dictionary and Expositor of the English Language* (Llundain, 1791).

²⁵ Alexander Reid, *A Dictionary of the English Language, containing the pronunciation, etymology and explanation of all words authorized by eminent writers. To which are added a vocabulary of the roots of English words, and an accented list of proper names* (Caeredin, 1844).

²⁶ Francis Walkingame, *The tutor's assistant* (7ed argraffiad wedi ei olygu gan William Birkin) (Derby, 1831).

²⁷ Joseph Worcester, *A Comprehensive, Pronouncing and Explanatory Dictionary* (Philadelphia, 1830).

²⁸ Samuel Johnson, *Dictionary of the English Language* (Llundain, 1755).

Samuel Johnson, *Dictionary of the English Language: together with a history of the language, and an English grammar with corrections [&c.] by H. J. Todd* (Llundain, 1818).

²⁹ Charles Richardson, *A New Dictionary of the English Language* (Llundain, 1835-1856).

³⁰ Noah Webster, *American Dictionary of the English Language* (New Haven, 1828).

³¹ William Spurrell, *An English-Welsh Pronouncing Dictionary, with preliminary observations on the Elementary Sounds of the English Language, and a Copious*

AN
ENGLISH AND WELSH PRONOUNCING
DICTIONARY:

IN WHICH
THE PRONUNCIATION IS GIVEN IN WELSH LETTERS.

GEIRIADUR

Cynaniadol

SAESNEG A CHYMRAEG:

YN YR HWN Y SILLIADIR

Y GEIRIAU SAESNEG A LLYTHYRENAU
CYMRAEG:

HEFYD,

CYFRES O ENWAU PRIOD YR YSGRYTHYR,

WEDD EU SILLIADU YN CYMRAEG.

GAN ROBERT IOAN PRYS.

DINBYCH:
CYHOEDDWDYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLVII.

Saesneg	Spurrell	Gweirydd
-age	-äj	-ej
-er	-ûr	-yr
-ard	-ûrd	-yrd
-ous	-us	-yz
-ite	-it	-eit

Cyfeddyf Gweirydd nad yw ei waith ef yn debyg i eiriadur Spurrell. Yn hwnnw, ceir esboniad manwl iawn ar y seiniau gwahanol a geir yn y Saesneg ond gan fod esboniad o'r fath gan Gweirydd yn y *Cyfarwyddyd i Gymro* ni welai fod agen ei gynnwys yn ei eiriadur hefyd. Mae'r cyfystyron Cymraeg sydd gan y ddau yn amrywio cryn dipyn hefyd er enghraifft:

AN ENGLISH-WELSH PRONOUNCING DICTIONARY (1850)	AN ENGLISH AND WELSH PRONOUNCING DICTIONARY GEIRIADUR (1857)
Agreeable, â.grí'â.bl a, cyfatebol; boddus	Agreeable, a-grí'-ybl, a. unol, cyfatebol, cydweddol, cysson; boddus, boddhaol, hyfryd, cyfoddus, dyddan, dymunol, cyfoddol; addas, cyfaddas, gweddus, cymhwys
Captivate, kap'tí-vät vt, caethiwo; hudo denu	Captivate, cap'-tuf-et, v.a., caethiwo; dwyn yn gaeth, darostwng; hudo, swyno, rhinio, llygattynu
Rosy, rö'zî a, rhosynaidd, rhosynog, rhosliw, gwridgoch	Rosy, rö'zi, a. rhosaidd, rhosynaidd; rhosliw, rhosynog, breiliog gwridog; blodeuog; coch

Er na dderbyniodd geiriadur Gweirydd gymaint o sylw yn y wasg â geiriadur Spurrell, gellir dadlau mai geiriadur Gweirydd oedd yr un mwyaf defnyddiol oherwydd ei fod yn cynnwys tua thair mil yn fwy o brifeiriau ac oherwydd ei fod yn dangos mwy o gyfystyron Cymraeg. Fel arfer, tri neu bedwar cyfystyr Cymraeg sydd ganddo ar gyfer pob prifair ond weithiau mae'n rhestru llawer mwy ac o bryd i'w gilydd mae'n cynnwys esboniad byr ar brifair, er enghraifft:

Agathophyllum = coed pergnau Madagascar.

Cockatrice = math o sarff ddychymmygol, a gynnyrchid, fel yr oferdybiai yr hynafiaid, o wy ceiliog.

Griffon = math ar aderyn dychymmygol, hanedig o lew ac eryr.

Noble = darn aur gwerth 6s.8c.

Yam = math ar ddefnydd bara ym mysg cynfrodorion America.

Ym 1866, cyhoeddwyd geiriadur Cymraeg-Saesneg bychan o eiddo Gweirydd ap Rhys sydd hefyd yn cynnwys enwau daearyddol a homonymau.³² Fe'i gwerthwyd am ddau swllt a chwe cheiniog fel rhan o gyfres 'Humphries Series of Welsh Dictionaries'. Dywed Gweirydd mai talfyriad ar eiriadur William Owen Pughe oedd pob geiriadur Cymraeg-Saesneg a ymddangosodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mai ychydig iawn o eiriadurwyr oedd wedi mentro cynnwys geiriau nad oeddent y geiriadur hwnnw. Geiriaduron anghyflawn oeddent bob un, meddai, am fod Pughe'n coleddu syniadau arbennig am burdeb y Gymraeg ac am ei fod wedi cynnwys llawer iawn o eiriau hynafol yn ei eiriadur. Wrth baratoi'r geiriadur bychan hwn, dywed Gweirydd iddo ymgynghori â'r holl eiriaduron a gyhoeddwyd cyn cyfnod Pughe ac wedi hynny ac iddo ddefnyddio'r rhestr a luniasai ef ei hun o'r geiriau na fedrid cael hyd iddynt mewn unrhyw eiriadur cyhoeddedig.

Er mai geiriadur bychan ydyw, mae oddeutu 34,250 prifair ynddo. Nod Gweirydd oedd cynnwys cymaint o eiriau â phosib mewn llyfr hanner coron. Fel arfer, un neu ddau gyfystyr Saesneg sydd ganddo ar gyfer pob prifair ond nododd bob gair y gallai feddwl amdano, rhai hen a newydd, brodorol ac estron gan nodi † wrth ochr geiriau "diarfer, isel, neu ddiawdurdod" fel 'anant' (*harmonious, the muse*), 'catorfa' (*military hoop*), 'daffar' (*duty, obligation to be, obliged to*), 'daith' (*blaze, flash*) a 'mais' (*device, contrivance*). Yn yr adran 'Geiriau o gyffelyb sain ond yn gwahaniaethu yn gyffredin o ran sillad, a phob amser o ran ystyr', ceir llawer o eiriau anarferedig ac anarferol megis:

archan, *sf.* deprecation
archen, *sf.* shoe

bul, *s.* seed-vessel of some plants; hull
byl, *cs.* brim, edge

gawri, *v.* to shout, to howl
cawri, *sp.* giants; monsters

Nododd hefyd eiriau a fathwyd trwy ychwanegu rhagddodiaid, megis 'adfathu', 'adgyfarwyddyd', 'adruthro' ac 'adymddangos'. Mae ôl dylanwad Pughe i'w weld yma eto ac ystyr ddychmygol sydd ganddo i nifer o eiriau.

³² Robert John Pryse, *Geiriadur Cymraeg a Saesnaeg at yr hwn yr ychwanegwyd Enwadur Daearyddol, hefyd geiriau o gyffelyb sain, ond yn gwahaniaethu mewn ystyr etc. A Welsh-English Dictionary to which is added a Geographical Nomenclature ...* (Caernarfon, 1866).

Dechreuodd Gweirydd gyfrannu at y ddadl gyhoeddus ar orgraff y Gymraeg ym 1850 ac yn ei ddydd, perchid ei farn ar y pwnc.³³ Pan benderfynwyd y dylid safoni a chysoni orgraff yr iaith yn Eisteddfod Fawr Llangollen ym 1858, dewiswyd Gweirydd a Thomas Stephens, Merthyr, i:

... baratoi cyfres gyflawn o'r geiriau a lythrenir mewn gwahanol ffyrdd gan ysgrifenywyr cyfrifol, gyda bwriad i'w dwyn i unffurfiaeth.³⁴

Fel canlyniad, cyhoeddwyd eu sylwadau fiwyddyn yn ddiweddarach mewn llyfryn yn dwyn y teitl *Orgraph yr Iaith Gymraeg*.³⁵ Er bod Gweirydd wedi cofleidio syniadau'r 'ysgol newydd' ar un adeg, ymwrthododd ag iaith ac arddull William Owen Pughe yn y pumdegau cynnar gan dderbyn y safon a osodwyd gan brif ysgrifenywyr rhyddiaith Gymraeg ar hyd y canrifoedd ac yn enwedig yr argraffiad diwygiedig o'r Beibl a gyhoeddwyd ym 1620. Mae cryn debygrwydd rhwng cynnwys *Orgraph yr Iaith Gymraeg* a'r llyfryn a gyhoeddodd Silvan ar yr orgraff ym 1861, sef *Llythraeth yr Iaith Gymraeg*, oherwydd bod Gweirydd wedi gwneud defnydd o waith anghyhoeddedig a baratôdd Silvan ym 1855.³⁶ Er gwaethaf ymdrechion Silvan, Gweirydd ap Rhys, Thomas Stephens a llawer un arall, nid oedd yr orgraff damaid nes i'w sefydlu yr adeg honno.

Yn ystod yr amser y bu yn Ninbych, bu Gweirydd yn golygu trydydd argraffiad o eiriadur Pughe. Daeth y rhifyn cyntaf o'r wasg ym 1857 a gorffennodd y gwaith ar ôl iddo symud i Fangor ym 1863. Argraffwyd y gyfrol gyfan cyn diwedd 1866.³⁷ Newidiodd Gweirydd gryn dipyn ar waith gwreiddiol Pughe am ei fod eisiau cyhoeddi geiriadur Cymraeg-Saesneg:

... mor gyflawn a defnyddiol ag y gellid, ac am bris mor fychan ag y byddai modd, fel y gallai fod yng nghyrhaedd yr holl genedl ddarllengar.³⁸

Yr unig amod a osodwyd arno gan y cyhoeddwr oedd ei fod i gadw'r holl brifeiriau:

³³ Llythyr Geraint Fardd Glas yn y *Cymro*, Ebrill 23, 1850.

³⁴ *Hanes cyflawn Eisteddfod Fawr Llangollen yn 1858* (Dinbych, 1908).

³⁵ R. I. Pryse a Thomas Stephens, *Orgraph yr Iaith Gymraeg* (Dinbych, 1859).

³⁶ Daniel Silvan Evans, *Llythraeth yr Iaith* (Caerfyrddin, 1861).

³⁷ W. Owen Pughe, *Geiriadur Cenedlaethol Cymraeg a Saesneg. A National Dictionary of the Welsh Language with English and Welsh equivalents. Third edition edited and enlarged by Robert John Pryse* (Dinbych, 1866).

Ar wyneb-ddalen Cyfrol I nodir MDCCCXCI ac ar Gyfrol II ceir MDCCCCLXXIII.

³⁸ Robert John Pryse, Rhagymadrodd trydydd argraffiad o W. Owen Pughe, op. cit., t.xv.

... holl eiriau arweiniol, a tharddiadau, a gwraidd geiriau Geiriadur mawr y Dr. Pughe i mewn.³⁹

Aeth ati i'w dalfyrru fel y gallai lenwi'r bylchau a adawodd Pughe ac ychwanegu ei gofnodion ei hun. Yr hyn a wnaeth gan amlaf oedd nodi eglurhad Cymraeg ar gyfer "un gair o bob mintai", sef geiriau a oedd yn tarddu o'r un gwraidd ac a rannai'r un ystyr cyffredinol. Fel arfer, cyfieithiad "y prif air" neu "y cyntaf yn mhob mintai" a geir. Mynnodd Gweirydd gael gwared â rhai o ddyfyniadau enghreifftiol Pughe gan ofalu peidio â chynnwys mwy nag un dyfyniad ar gyfer geiriau anarferedig.

Erbyn i Gweirydd fynd ati i olygu'r *Geiriadur Cenedlaethol*, 'roedd oes aur Pughe yn dirwyn i ben. Cafodd nodiadau Pughe ar eirdarddiad eu hepgor yn yr argraffiad newydd ac yn y rhagymadrodd fe'i beirniadodd am gyfeiliorni:

Yr oedd y Dr Pughe yn credu fod ystyr athronyddol i lythyrenau a chyfuniadau neillduol o lythyrenau; yr hyn sydd groes i farn ieithyddion penaf y byd: ac yr oedd efe yn cyfrif y cyfryw lythyrenau a sillau fel gwraidd geiriau, er na byddo y cyfryw yn eiriau arferedig yn yr iaith. O ganlyniad nid yw y rhan flaenaf o'i eglurhad ef ar lawer o eiriau ddim amgen nag eglurhad ar ystyr gwraidd dychymmygol a diawdurdod, ac felly yn hollol fympwyol.

Ar ôl talfyrru cymaint ar eiriadur Pughe, gallai Gweirydd ychwanegu dros ddeng mil ar hugain o'i eiriau a'i idiomau ei hun. Cododd y rhain o eiriaduron E. Jones, Iolo Fardd Glas, Arfonwyson, E. Griffiths, I. D. Ffraid, William Spurrell, Caerfallwch, D. Hughes a D. Silvan Evans. Ychwanegodd eiriau a gododd o lawysgrifau a llyfrau printiedig a chyda chymorth gweithiau J. Robert Lewis, T. Charles, W. Jones, W. Davies, Mathetes a'r *Scriptural Concordance*, fe'i galluogwyd i ychwanegu toreth o eiriau Ysgrythurol. Derbyniodd hefyd restrau o eiriau i'w cynnwys yn yr argraffiad newydd gan wŷr megis Yr Athro Rushton, Y Parch. John Owen, Trushington, Mr Fenton, Hirlas, Andreas o Fôn a Thalhaiarn.

Coleddai Gweirydd syniadau gwahanol iawn i Pughe, Caerfallwch a Silvan ynghylch bathu geiriau. Arfer cyffredin y tri geiriadurwr arall oedd bathu geiriau newydd a gwrthod benthyciadau o'r Saesneg, ond ni welai Gweirydd ddim o'i le mewn cynnwys geiriau o'r fath mewn geiriadur. Mynnodd Gweirydd nad bathu geiriau newydd oedd prif swyddogaeth geiriadurwr, ond croniclo hen eiriau,

³⁹ Ibid.

geiriau newydd a geiriau ansathredig yn ofalus. Dyna paham y ceir geiriau benthyg megis 'bargainio' (*to bargain*), 'bargen' (*a bargain*), 'bargena' (*to bargain*), 'bargeniad' (*a bargaining*), bargenio (*to bargain*) a 'certwynio' (*to cart*) yn yr argraffiad newydd.

Heb os, y newid pwysicaf a wnaethpwyd i'r *Geiriadur Cenedlaethol* oedd diwygio'r orgraff. Cwynodd Gweirydd yn erbyn hoffter Pughe o Gymraeg y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd a gweithiau megis *Cyfreithiau Hywel Dda*, *Y Mabinogion* a *Brut y Brenhinoedd*. Nid oedd y geiriadur gwreiddiol a luniodd Pughe, meddai:

... lawer amgen na Geiriadur o hen Gymraeg y cyfansoddiadau hyny, a'i cyffelyb mewn orgraph ddiweddarach ...

Cwynodd hefyd na cheid ynddo'r geiriau a arferid bob dydd ond yr hyn a oedd yn blino Gweirydd fwyaf oedd arfer Pughe o ddefnyddio -aw- ac -iaw- yn lle -o- a -io-. Yr orgraff a dilynodd wrth barato'i'r trydydd argraffiad oedd y llyfryn a gyhoeddodd ef a Thomas Stephens ym 1859, sef *Orgraph yr Iaith Gymraeg*. Yn y Saesneg, arferai Pughe ddilyn Johnson ond 'roedd yn well gan Gweirydd ddilyn dull Worcester am mai ef, yn nhyb Gweirydd, oedd yr un mwyaf cyson.

Ymateb digon anffafriol a gafodd y *Geiriadur Cenedlaethol*. Wrth drafod y gyfrol hon yn ei lyfr ar William Owen Pughe, cyfeiriodd T. Mordaf Pierce at waith golygyddol Gweirydd:

... yn anffodus ceisiodd y golygydd ei wella trwy ei newid a'i gymysgu â benthyciadau o Eiriadur Silvan Evans nes ei wneud yn gymharol ddiwerth i'r pwrpas oedd iddo ar y cychwyn ...⁴⁰

ond bwriad Gweirydd oedd cynhyrchu geiriadur Cymraeg cyflawn, ymarferol a rhad, nid cadw at y "pwrpas oedd iddo ar y cychwyn". Cafodd y rhifyn cyntaf ei feirniadu'n hallt gan D. Llwyd Isaac yn ei adolygiad yn *Y Brython*. Dywedodd:

... ni chynigiwyd erioed i'r Cymry, nac i un genedl arall chwaith, y fath dryblith basdarddawl, a mympwyog, ac annosbarthus ar lun Geiriadur.⁴¹

'Roedd D. Llwyd Isaac yn anfodlon iawn bod geiriau "anfasdarddawl a diledryw" megis 'Abrahamaid', 'Abrahamaid', 'Abientwydd' ac 'Acadamaid' wedi cael eu

⁴⁰ T. Mordaf Pierce, *Dr. W. Owen Pughe* (Caernarfon, 1914), t.44.

⁴¹ *Y Brython*, 1858, t.354.

cynnwys. Un o bleidwyr Pughe oedd Isaac ac yn ei dyb ef, nid oedd trydydd argraffiad namyn "cawdel cymmysg" a oedd yn gwbl annheilwng o enw Pughe ar yr wyneb-ddalen. Cyfeiria at Gweirydd fel "crach awdwr lladronllyd" a "torfynyglwr y Doethawr Puw" ac â yn ei flaen i ddweud:

... y mae tadogi y fath glytwaith basdarddaidd a chawdelaidd ar y *Dr Puw* yn ddigon â pheri i'r marw neidio o'i fedd, a rhuthro arno yn filain, a'i foddi mewn casgen olch ... ymddengys Dr Puw ar y ddalen enwawl i ateb *dybenion masnachol* ond ar yr ail amlen mae Seren Dr Puw yn ymddiflanu yng ngolau y *lleuad Pryse*.⁴²

Gorchwyl ar gyfer "dynion o ddysg clasurol" oedd creu geiriadur, meddai, gorchwyl ar gyfer dynion megis Ab Ithel a Daniel Silvan Evans. Rhaid cofio mai Silvan oedd golygydd *Y Brython* yr adeg hon a bod Gweirydd ac yntau wedi ffraeo ynghylch geiriadur Silvan. Mewn troednodyn i lythyr arall o eiddo D. Llwyd Isaac, mae Silvan yn gwadu ei fod wedi cynnig ei wasanaeth i gyhoeddi argraffiad newydd o eiriadur Pughe.⁴³ 'Roedd ef wedi awgrymu y byddai'n dda cael cydymaith i waith Pughe, ond dywed nad oedd yn ymwybodol o gynlluniau Gee i gyhoeddi argraffiad newydd. Manteisiodd Silvan ar y cyfle i feirniadu Gweirydd pan ymddangosodd y rhifynnau cyntaf gan roi cic fach slei i Thomas Gee yr un pryd, er enghraifft:

Y mae llurgunio geiriaduron wedi mynd yn ysfa anorchfygol yn Ninbych ... yn grefft ac yn fasnach hollol yno ... Cofied ein gohebydd un o drïoedd y xix ganrif - Tri anffawd llyfr, syrthio i'r dŵr, syrthio i'r tân a syrthio i ddwylaw Calcraftiaid Dinbych.⁴⁴

Nid atebodd Gweirydd gyhuddiadau D. Llwyd Isaac na Silvan yn uniongyrchol ond cyfeiriodd at y sylwadau eithafol a gyhoeddwyd yn *Y Brython* mewn llythyr a anfonodd at *Yr Arweinydd*. Wrth ddadlau gyda golygydd y cylchgrawn hwnnw, cyfeiria Gweirydd at y:

... gwenwyn maleisus sy'n ymddangos ymhob llinell o sylwadau *Geiriadurol* rhyw un neu ddau o fan bapurach Eglwysyddol Cymru, yr hwn wenwyn sydd fel 'nod angen' yn dangos fod y cyfryw sylwadau yn deilliaw o fynwesau somedigion eiddigeddus.⁴⁵

Bu Gweirydd a golygydd *Yr Arweinydd* yn dadlau ynghylch cynnwys y geiriadur am gyfnod. Fel y gellir disgwyl, mae'r ddadl hon yn ymdebygu o ran natur i sawl dadl arall y bu Gweirydd yn cymryd rhan ynddi gyda'r ddau yn ymgecreu am fanion digon dibwys a Gweirydd yn arllwys sen ar y golygydd.

⁴² Ibid.

⁴³ *Y Brython*, 1859, t.139.

⁴⁴ Ibid.

⁴⁵ *Yr Arweinydd*, 23 Mehefin 1859.

Wrth lunio pob un o'i eiriaduron, prif nod Gweirydd oedd cynnwys cymaint o eiriau â phosib a gwerthu'r cyfrolau'n rhad. Fel sawl geiriadurwr a berthynai i'r un cyfnod, 'roedd yn awyddus i gynnwys pob gair Cymraeg a ymddangosasai mewn print. Ni welai fod angen eu didoli ac nid oedd ganddo ddiddordeb mewn pwyso a mesur gair i gael hyd i'w wir ystyr. Wrth gyfeirio at arfer Gweirydd i bentyrru geiriau, dywedodd Enid Pierce Roberts:

Nifer sy'n apelio yn anad dim; swm nid sylwedd.⁴⁶

Mae'n bosib na chafodd Gweirydd erioed gyfle teg i roi ei holl sylw i'w weithgarwch geiriadurol. Nodwyd eisoes iddo gyfrannu'n helaeth i'r *Gwyddoniadur Cymreig*. Ar ôl iddo symud o Ddinbych i Fangor, bu'n golygu papur newydd - *Papur y Cymry* - ond rhoddwyd terfyn arno pan dorrodd y cwmni argraffu. Hanes a llenyddiaeth Cymru oedd hoff faes Gweirydd a heb os ei gampwaith yw'r ddwy gyfrol, dros bum can tudalen yr un, ar *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*.⁴⁷ Enillodd wobwr am *Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r Flwyddyn 1350 hyd y Flwyddyn 1650*⁴⁸ ac am lu o draethodau eraill. Cyfieithodd lyfrau a phamffledau o'r Saesneg, bu'n gyfrifol am olygu argraffiad newydd o'r *Myvyrian Archaeology of Wales* ac argraffiad o'r Beibl Cymraeg ym 1876 gydag esboniad a nodiadau arno. Bu'n llenor diwyd iawn ar hyd ei oes ac oherwydd ei graffter, ei weledigaeth a'i farn annibynnol fe'i disgrifiwyd fel un o lenorion Cymreig praffaf oes Victoria ac erys gwerth i'w waith o hyd.⁴⁹

⁴⁶ Enid Pierce Roberts, op. cit., t.89.

⁴⁷ Robert John Pryse (gol.), *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* (Llundain, 1872-1874).

⁴⁸ Robert John Pryse, *Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r Flwyddyn 1350 hyd y Flwyddyn 1650* (Llundain, 1883).

⁴⁹ Thomas Richards, 'Gweirydd ap Rhys', *Y Llenor*, xv, t.99.

(iii)

W. Hughes (d.d)

Ym 1867, cyhoeddwyd geiriadur Saesneg-Cymraeg yn dwyn y teitl *Geiriadur Saesneg a Chymraeg, at yr hwn yr ychwanegwyd Rhestr o enwau priodol Lleoedd, &c. gyda'u cyfystyron Cymraeg*. Yr unig wybodaeth arall a nodir ar yr wyneb-ddalen yw:

Gan Johnson, Webster a Hughes, Caernarfon. Argraffwyd a chyhoeddwyd gan H. Humphreys.

Er na nodai Humphreys ddyddiad ar rai o'i gyhoeddiadau, nodir '3ydd Gorffennaf 1867' yn rhagair y geiriadur hwn. Mae'n debyg mai un o nodweddion arbennig y gwaith oedd yr acenion i ddynodi pwyslais ar y prifeiriau Saesneg.⁵⁰ Yn ôl Owen Davies, W. Hughes yw'r 'Hughes' y cyfeirir ato ar yr wyneb-ddalen, sef argraffydd a fu'n gweithio gyda H. Humphreys am flynyddoedd ac a fu'n cyfrannu'n gyson at gyhoeddiadau'r swyddfa argraffu honno.⁵¹

(iv)

Robert Ellis (Cynddelw, 1812-1875)

Unwaith y cyhoeddodd H. Humphreys olygiad Gweirydd ap Rhys o'r *Geiriadur Cymraeg a Saesneg*, awgrymodd Cynddelw wrth Humphreys y byddai'n fuddiol tu hwnt cael cydymaith iddo, sef geiriadur Cymraeg-Cymraeg. Cydsyniodd yntau a chytunwyd y dylai Cynddelw lunio gwaith tebyg o ran maint i eiriadur Gweirydd fel y gellid gwerthu'r ddau am yr un pris. 'Roedd ganddo sawl bwriad wrth lunio geiriadur Cymraeg-Cymraeg. Yn gyntaf, 'roedd am lenwi bwlch amlwg gan nad oedd gan y Cymry "fath yn y byd o Eirlyfr Cymreig-Cymraeg".⁵² Teimlai na wnâi'r holl eiriaduron Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg degwch â'r Gymraeg a dywedodd:

Barnwn i'r esgeulusdod hwn wneyd llawer o gam â'n hen iaith oludog, a chadw ei hadnoddau i raddau pell yn guddiedig, gan

⁵⁰ R. E. Hughes, op. cit., t.85.

⁵¹ Owen Davies, *Y Geninen* (1911), t.123.

⁵² Cynddelw, *Geiriadur Cymreig Cymraeg, sef, Geiriadur Cymraeg yn cael eu hegluro yn Gymraeg* (Caernarfon, 1868), t.3.

nad oedd ei geiriau cyfystyr byth yn cael eu dwyn i gyfarfod â'u gilydd i'r graddau y gallesid gwneyd.⁵³

Yn ail, 'roedd am greu geiriadur a fyddai o fudd i'r Cymry uniaith. Nid oedd ganddynt eiriadur at eu gwasanaeth am nad oedd modd defnyddio'r geiriaduron Cymraeg a Saesneg a fodolai eisoes heb fedru deall y ddwy iaith. Yn olaf, dymunai weld ei eiriadur yn cael ei ddefnyddio gan Gymry dysgedig yn ogystal. Trwy ddangos cyfoeth y Gymraeg, hyderai y gallai'r gyfrol fod yn arf defnyddiol i feirdd ac ysgrifenyddwyr rhyddiaith fel ei gilydd.

Nid Cynddelw oedd y cyntaf i sylweddoli bod galw am eiriadur Cymraeg-Cymraeg. Yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, ymdrechodd Thomas Jones i esbonio'r Gymraeg "drwy Gymraeg mwy cynnefinol" a thrwy ddefnyddio'r Saesneg.⁵⁴ Mabwysiadwyd yr un math o gynllun gan Iolo Fardd Glas yn y *Cyneirlyfr*⁵⁵ a chan Owen Williams, Waunfawr.⁵⁶ Yn ystod dauddegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg bu J. P. Davies yn crynhoi deunydd ar gyfer geiriadur Cymraeg-Cymraeg. Bu'n trafod ei syniadau yn *Seren Gomer* ond nid aeth ati o ddifrif i'w baratoi ar gyfer y wasg. Tua'r un adeg, ceisiodd John Jenkins, Hengoed, lunio geiriadur Cymraeg-Cymraeg. 'Roedd gan Cynddelw gopi o'r rhan gyntaf ac fe'i canmolodd am fod mor gynhwysfawr ac am gynnig cymaint o gyfystyron. Yn anffodus, 'roedd gormod o waith arall gan Jenkins ar y pryd felly bu'n rhaid iddo roi'r gorau iddi ar ôl cyhoeddi'r rhifyn cyntaf ym 1824.

Gan fod Cynddelw yn ŵr mor amryddawn, bu yntau hefyd yn ddiwyd iawn drwy gydol ei oes. Dechreuodd bregethu ym 1834 ac yn ddiweddarach bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Llanellian a Llanddulas, Glynceiriog, Sirhywi a Chaernarfon. Ychydig fisoedd o addysg ffurfiol a dderbyniodd ond trwy dreulio amser yng nghwmni llenorion gwlad fel Richard Morris, Pentrefelin, James Jones y teiliwr a Humphrey Bromley, un o bregethwyr y Sosiniaid, datblygodd diddordeb Cynddelw mewn llenyddiaeth. Daeth yn adnabyddus fel bardd a

⁵³ Ibid.

⁵⁴ Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb, neu Helaeth Eir-lyfr Cymraeg a Saesneg ...* (Amwythig, 1688).

⁵⁵ Edward Williams, *Cyneirlyfr, neu Eiriadur Cymraeg; yn cynnwys, Tadogiad Geiriau, Rheolau Barddoniaeth, Hanes Enwogion Cymru, Darluniad Byr o Wledydd, Dinasoedd, Trefydd, Swyddi, Moroedd, Llynoedd, Afonydd, Mynyddoedd, Ogofau, Hynafiaethau Cymreig &c. &c. At yr hyn y chwanegwyd Llysieuadraith, ynghyd a'r diarhebion Cymreig wedi eu hesbonio* (Aberhonddu, 1826).

⁵⁶ Owen Williams, *Welsh Encyclopedia: Y Geirlyfr Cymraeg, yr hwn sydd yn cynnwys geiriadur ysgrythyrol, hanesol, ac ieithyddol ...* (Llanfair Careinion, 1835).

beirniad a bu'n gyfrifol am olygu argraffiad Isaac Foulkes o *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*⁵⁷ ac ail argraffiad *Gorchestion Beirdd Cymru* o gasgliad Rhys Jones gan ymdrechu i esbonio cannoedd o hen eiriau.⁵⁸ Casglwyd ei gerddi ynghyd ar ôl ei farwolaeth a chyhoeddwyd *Barddoniaeth Cynddelw* dan olygyddiaeth 'Ioan Arfon'.⁵⁹ Arferai Cynddelw gyfrannu'n gyson i wasg ei enwad. Bu'n olygydd ar *Y Tyst Apostolaidd* rhwng 1846 a 1850, *Y Tyst* ym 1851 a'r *Greal* rhwng 1852 a 1853. Ef fu'n gyfrifol am olygu colofn farddol *Seren Gomer* rhwng 1854 a 1856 a pharhaodd i ofalu am golofn farddol *Y Greal* tan ddiwedd ei oes. Trwy gyfrannu deunaw pennod i *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, amlygodd ei ddiddordeb mewn hynafiaethau o bob math ac ym 1873 cyhoeddodd *Manion Hynafiaethol* o'i waith ei hun.⁶⁰ Cyfrannodd ysgrifau i'r *Geirlyfr Bywgraffyddol* a'r *Gwyddoniadur Cymreig* ac yn eu plith y mae erthygl ar William Owen Pughe. Ynndi, mae'n clodfori geiriadur Pughe:

Am Eiriadur y Dr. Pughe, y mae gwŷr dysgedig cyfarwydd yn y Gymraeg, y Saesneg, ac amryw ieithoedd eraill, wedi tystio eu bod yn ei gyfrif yn un o'r gorchestion mwyaf dihafal a gyflawnwyd gan unrhyw awdwr, mewn unrhyw iaith.⁶¹

Wrth gymharu gorchest Pughe a llafur Samuel Johnson, pwysleisia nad oedd gan Pughe adnoddau tebyg i'r hyn a oedd gan Johnson. Nid oedd ganddo gymaint o lawysgrifau, geiriaduron a llyfrau printiedig i ymgynghori â hwy ac nid oedd ganddo dîm o gynorthwyr.

Dechreuodd Cynddelw ymddiddori mewn geiriaduraeth pan oedd yn llanc ifanc a'r un a fu'n bennaf cyfrifol am ei ysbrydoli oedd Richard Morris, Pentrefelin. Ganddo ef y gwelodd Cynddelw eiriadur Thomas Jones yr Almanaciwr am y tro cyntaf a chopi o eiriadur Thomas Richards.⁶² Mae'n debyg bod y ddau wedi treulio oriau'n trin a thrafod eu cynnwys yn fanwl. Aeth Morris ati i rwymo trydydd argraffiad geiriadur Richards gan ofalu bod dalennau gweigion yn cael eu hychwanegu:

... gosododd tua 62 o ddalennau a darnau o bapur gwynion yma a thraw drwy y Geirlyfr, y rhai a ychwanegant felly, tua 124 o

⁵⁷ Cynddelw (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym o grynhoad Owen Jones (Owain Myfyr), William Owen (Dr. W. Owen Pughe) ac Edward Williams (Iolo Morganwg)* (Lerpwl, 1873).

⁵⁸ Rhys Jones a Cynddelw (goln.), *Gorchestion Beirdd Cymru ...* (Caernarfon, 1864).

⁵⁹ Ioan Arfon (gol.), *Barddoniaeth Cynddelw* (Caernarfon, 1877).

⁶⁰ Robert Ellis, *Manion hynafiaethol, neu, Loffyn o hen gofion Cymruaidd* (Treherbert, 1873).

⁶¹ *Y Gwyddoniadur Cymreig* (Dinbych, 1854-1879), t.524.

⁶² David Williams, *Cofiant Cynddelw* (Caerfyrddin, 1935), tt.105-106.

dudalennau, ar y rhai hyn yr ysgrifennodd yr henafgwr o Bentre'rfelin, rai cannoedd o nodiadau, pethau gan mwyaf wedi eu casglu braidd o bob cyfeiriad cyrhaeddadwy iddo.⁶³

Yn ogystal ag ysgrifennu ar y dalennau newydd, nododd Morris ei gofnodion ei hun rhwng y geiriau printiedig, ar yr ymylon ac ar frig a gwaelod pob tudalen ac amcangyfrifwyd iddo ychwanegu tua phum mil a hanner o eiriau Cymraeg.⁶⁴ At hyn, ychwanegodd 237 o enwau llysiâu at 'Lysieulyfr' Richards a 247 o ddiarhebion at y 'Diharebion Cymraeg'.

Trwy gydol ei oes, bu Cynddelw'n casglu cymaint o eiriaduron Cymraeg printiedig ag a fedrai. Mae'n bosib ei fod wedi ceisio efelychu yr hyn a wnaeth Richard Morris oblegid ymhlith ei bapurau y mae copi o argraffiad cyntaf geiriadur Saesneg-Cymraeg William Evans⁶⁵ gydag ychwanegiadau mewn inc ar y tudalennau.⁶⁶ Aeth rhywun drwy'r gyfrol yn ofalus gan dynnu llinell drwy rai o gynigion anaddas Evans ac ychwanegu geiriau Cymraeg newydd. Yma ac acw, ychwanegwyd prifair cwbl newydd a dau neu dri o gyfystyron Cymraeg.

Pan aeth ati ei hun i greu ei eiriadur Cymraeg-Cymraeg, wynebwyd ef gan nifer o anawsterau am ei fod yn torri tir newydd. Cyfeddyf yn y rhagymadrodd iddo fynd trwy broses araf ac iddo fod:

... mewn trafferth mawr yn fynych, yn chwilio am air i lenwi ambell i fwch; ac wedi'r holl boen, *un gair*, fe allai, fyddai y cwbl o'r cynnyrch, a beth fyddai hyny at lenwi llyfr?⁶⁷

Ymddengys ei fod yn cynllunio neu'n paratoi tua 1866 oblegid ymhlith ei lawysgrifau ceir dalen o nodiadau ar y 'Gwreiddeirlyfr Cymraeg' gyda'r dyddiad 'Rhag. 5 1866' wedi ei nodi ar frig y dudalen. Ar y dechrau, 'roedd Cynddelw wedi gobeithio cael cymorth gan ei feibion i lunio ambell dudalen ond ni fu'r cynllun yn llwyddiannus. Ni wyddys faint o amser y bu wrthi'n paratoi'r gyfrol, ond ar amlen *Hanes Dic Aberdaron, a Thwm o'r Nant*, ymddangosodd hysbyseb am y *Geiriadur Cymraeg Cymreig*.⁶⁸ Nodir y byddai'r gyfrol tri chan tudalen yn cynnwys 38,000 o "eiriau dechreuol" neu brifeiriau a thros 83,000 o eiriau a

⁶³ Ibid., t.108.

⁶⁴ Ibid., t.110.

⁶⁵ William Evans, op. cit.

⁶⁶ LLGC 10261B. (Cynddelw 46).

⁶⁷ Cynddelw, op. cit., t.5.

⁶⁸ David Williams, op. cit., t.655.

brawddegau eglurhaol. Câi'r rhan fwyaf o'r prifeiriau eu hegluro gan dri gair ac fel arfer fe ddilynid y rhelyw gan ddau air.

Cyhoeddwyd y *Geiriadur Cymreig Cymraeg* ym 1868. Amcan Humphreys, y cyhoeddwr, oedd cael geiriadur rhad iawn, fel y gallai'r werin ei brynu, felly gwerthid ef am ddau swllt a chwe cheiniog. Bu'n rhaid gofalu nad âi'r gyfrol yn rhy fawr ond ceisiodd Cynddelw:

... roddi tri gair o deulu i mewn, sef y Ferf, yr Enw, a'r Ansoddair,
megys tân, tanio, tanllyd ...⁶⁹

a thrwy ddefnyddio gorwahannod, gallodd gywasgu enwau ac ansoddeiriau i un llinell a nodi'r gwahaniaeth pan fo mwy nag un ystyr i air. Rhennir tudalennau'r *Geiriadur Cymreig Cymraeg* yn ddwy golofn o brint mân a gellir amcangyfrif bod oddeutu 36,000 prifair ynddo. O'i gymharu â'r *Cyneirlyfr* a luniodd Iolo Fardd Glas, mae gan Cynddelw tua naw mil o brifeiriau'n ychwanegol ac mae natur y cynnwys yn hollol wahanol i waith ei ragflaenydd. Llwyddodd Cynddelw i gynnig dau neu dri o gyfystyron ar gyfer y rhan fwyaf o'r prifeiriau ac weithiau ceir pwt o esboniad ar ôl ambell un, er enghraifft:

Gwarllost, *eb.* gwarog, y rhan o'r iau sydd ar war yr ŷch.

Papur newydd - newyddiadur, cylchgrawn yn rhoddi allan helyntion y dydd.

O dro i dro ymddengys na fedrodd feddwl am gyfystyr. Yr hyn a wnâi wedyn, oedd cynnig esboniad yn unig, er enghraifft:

Gwefusolion, *ell.* y llythyrenau a seinir â'r gwefusau.

Gwennol y gwëydd, *eb.* offeryn a ddefnyddia gwëydd i luchio yr edafedd draws.

Llawdaro, *eg.* math o chwareu yn yr hwn y mae un yn cael mwgwd ar ei lygaid, ac yna yn dyfalu pwy fydd wedi ei daro.

Mad felen, *eb.* math o sarph ddychymyngol. Y fad felen - math o haint a anrheithiodd Gymru yn nyddiau y tywysog Maelgwn Gwynedd, o'r hwn y bu ef, a lluaws mawr o'r bobl, farw.

Ystrydeb, *eg.* y gelyddydd o wneyd llafnau at argraffu oddiwrth foldiau llythyrenol.

Pan ymddangosodd geiriadur Caerfallwch yn rhifynnau, ysgrifennodd Cynddelw adolygiad o'r gwaith ar gyfer *Y Tyst Apostolaidd*⁷⁰ a chyfaddefodd iddo ymgynghori ag ef wrth lunio'r *Geiriadur Cymreig Cymraeg*. Nododd hefyd iddo wneud defnydd o eiriadur Pughe ac mae dylanwad y gwaith hwnnw i'w weld ar eirfa'r *Geiriadur Cymreig Cymraeg*. Mae ganddo'r un elfennau unsill ag a gododd Silvan o eiriadur Pughe, megis 'amp', 'as', 'ith', 'til', 'aw', 'erth', 'bloth' a

⁶⁹ Cynddelw, *op. cit.*, t.5.

⁷⁰ *Y Tyst Apostolaidd*, Ionawr 1849.

HUMPHREYS' SERIES OF WELSH DICTIONARIES.

GEIRIADUR
CYMREIG CYMRAEG,

SEF,

GEIRIAU CYMRAEG YN CAEL EU HEG-
LURO YN GYMRAEG.

—
GAN CYNDELW.
—

CAERNARFON:

ARGRAFFEDIG A CHYHOEDDEDIG GAN H. HUMPHREYS.

'blwth' ac mae ganddo fathiadau cydnabyddedig o eiddo Pughe megis 'arobryn', 'cyfrdal', 'dathlu' a 'llegu'. Yn union fel Gweirydd ap Rhys, mynnodd gynnwys geiriau a fathwyd trwy ychwanegu rhagddodiaid. Mae ganddo tua deuddeg colofn o brifeiriau'n dechrau â gor- a bron i bymtheg yn dechrau ag ad-. Ychydig o ôl didoli neu bwysu a mesur sydd ar y cynnwys. Gan gofio bod Cynddelw wedi gorfod cyfyngu ar faint y gyfrol, byddai'n dda pe bai wedi ystyried gwerth rhai o'r bathiadau a oedd ganddo ac a oedd gwir angen eu cynnwys.

Tynnodd Cynddelw sylw arbennig at un o nodweddion y geiriadur sef ei ffordd o drin geiriau tafodieithol. Gan fod y Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal, eglurodd ei fod wedi defnyddio iaith un rhan o Gymru i egluro'r iaith a arferid mewn rhan arall a dywedodd:

Mae'r geiriau mwyaf sathredig mewn un dalaeth yn fynych yn hollol ansathredig mewn talaeth arall, ac am hyn ceisiwyd dwyn Cymraeg holl Gymru i un llygedyn.

Tua 1874, cyhoeddodd H. Humphreys eiriadur barddol a luniwyd gan Cynddelw, sef *Geiriadur y Bardd neu Yr Odlydd Cyffredinol*.⁷¹ Apeliodd y syniad o greu geiriadur ar gyfer y bardd at Ieuan Ddu, mab y Parch. Joseph Harris, golygydd *Seren Gomer*, ond bu farw cyn medru cyflawni'r gwaith. Unwaith yn rhagor, pwysleisiodd Cynddelw ei fod wedi torri tir newydd trwy drefnu'r geiriau yn ôl odl ac nid yn nhrefn yr wyddor.. 'Roedd geiriaduron odlyddol ar gael yn Saesneg ac yn Ffrangeg ers blynyddoedd lawer, ond ni cheid y fath eiriadur yn Gymraeg er syndod i Gynddelw:

... y mae yn syn, ar ryw gyfrif, fod cenedl y Cymry, yr hon a ystyrir yn gyfiawn y genedl fwyaf barddonol yn y byd, wedi bod f.,d yr amser yma o'r dydd heb yr un.⁷²

Trefnwyd y cynnwys i ddangos prifair, ei ran ymadrodd a dau neu dri o gyfystyron Cymraeg.

⁷¹ Cynddelw (gol.), *Geiriadur y Bardd: neu Yr Odlydd Cyffredinol, At Wasanaeth y Beirdd, yn yr hwn y trefnir geiriau yn ol eu hodlau, ac nid yn ol y llythyren gyntaf, fel y trefnir geiriadur yn gyffredin* (Caernarfon, d.d.).

Ni nododd Humphreys ddyddiad. Credai Owen Davies (*Y Geninen*, 1911, t.123) mai 1872, o bosib, oedd y dyddiad cyhoeddi. Bu farw Cynddelw ym 1875 a chredai cyhoeddwyd *Geiriadur y Bardd* rai blynyddoedd cyn hynny. Ar ddiwedd y gyfrol ceir ail argraffiad o *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*, sef argraffiad 1828.

⁷² Ibid., t.3.

(v)

Griffith Jones (Glan Menai, 1836-1906)

Cyfystyron y Gymraeg oedd y gyfrol fechan a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth 'Y Casgliad o Eiriau Cyfystyr Cymraeg' yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam ym 1888.⁷³ Daniel Silvan Evans oedd y beirniad ac o'r pum cynnig a dderbyniodd, dyfarnodd y wobwr gyntaf i Idwal – sef Griffith Jones (Glan Menai) - am ei fod wedi llunio rhestr gynhwysfawr o gyfystyron, am ei fod wedi cyfleu gwahanol ystyron nifer fawr ohonynt yn fanwl gywir ond yn bennaf oll oherwydd un nodwedd arbennig:

... he is the only one of the five that has attempted to desynonymize words that are usually treated as equivalents. Thus appears to me to be a highly important part of the subject; and without this desynonymizing process no work of the kind can be satisfactory.⁷⁴

Wrth fynd ati i baratoi'r gwaith, sylweddolodd Griffith Jones yn fuan iawn na fyddai casgliad moel o eiriau cyfystyr yn ddigonol. Er mwyn i'r "ysgrifennydd ieuanc"⁷⁵ fedru dewis y gair mwyaf addas at ei bwrpas, gwelodd fod angen esbonio'r defnydd a wneid o'r cyfystyron a'r gwahaniaeth rhyngddynt:

... gwahaniaeth bychan, israddol a rhannol – gwahaniaeth parth tarddiad neu arferiad ...⁷⁶

Cwynodd Jones yn erbyn y camddefnydd cyson o'r Gymraeg. Gwelai ysgrifenydd ifanc a dibrofiad yn defnyddio geiriau anaddas ac amhriodol tra bod digonedd o eiriau eraill wrth law i gyfleu ystyr yr hyn a fynegid yn fanylach ac yn gywirach. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd hi i awdur ddewis y geiriau priodol i gyfleu ei feddyliau cyn iddo fedru ysgrifennu darn a ddarllenai'n llyfn a difyr. Dywedodd:

Y mae iawn-ddefnyddiad geiriau er ffurfio brawddegau, yr un modd ag iawn-ddewisiad arfau er cyflawni gwaith cywrain, yn gofyn sylw, ymarferiad, pwyll, a doethineb.⁷⁷

Er bod ystyron rhai geiriau wedi newid a datblygu'n araf dros gyfnod o amser, bathwyd nifer o eiriau newydd yn y cyfnod modern a phriodolwyd ystyr newydd i

⁷³ Griffith Jones (Glan Menai), *Cyfystyron y Gymraeg: sef Y Casgliad Buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Gwrecsam, 1889* (Wrecsam, 1888).

⁷⁴ E. Vincent Evans, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Gwrecsam 1888* (Lerpwl, 1889), t.504.

⁷⁵ Griffith Jones, op. cit., t.v.

⁷⁶ Ibid.

⁷⁷ Ibid., t.vi.

CYFYSTYRON Y GYMRAEG:

SEF

Y CASGLIAD BUDDUGOL

YN EISTEDDFOD GENHEDLAETHOL GWRECSAM, 1888.

GAN

GRIFFITH JONES (GLAN MENAI).

WREXHAM:
CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, 53, HOPE STREET.

eiriau a oedd eisoes yn bodoli. Yn nhyb Jones, gwastraff ar iaith oedd bodolaeth dau air a olygai union yr un peth. Eto i gyd câi iaith ei chyfoethogi'n fawr pan lwyddid i briodoli ystyr newydd i un neu ddau air a arferai olygu'r un peth. Rhagorai'r Saesneg dros y Gymraeg yn hyn o beth oherwydd ysgrifennwyd nifer o weithiau safonol ar y pwnc yn Saesneg ond ni wnaethpwyd hynny yn Gymraeg. Teimlai Jones fod gwir angen arweiniad ar y Cymry yn enwedig wrth i ddysg, celfyddyd a llenyddiaeth ddatblygu a chan fod ysgrifenywyr Cymraeg yn cymysgu ystyron geiriau ac yn eu camddefnyddio. At hyn, 'roedd perygl i lawer o eiriau fynd yn angof:

Ac yna, fe ddichon, rywbyrd wedi hyn, pan y teimlir eu hangen, bydd i'r anwybodaeth yn yr hwn yr ydym wedi gadael ein hunain o'r adnoddau a gynigid gan yr iaith i foddioni gofynion meddwl, ein gyrru ar led i chwilio am gynrychiolwyr estronol i eiriau a feddwn eisoes gartref.⁷⁸

Lluniodd Griffith Jones *Cyfystyron y Gymraeg*, sy'n cynnwys tua 1,300 o brifeiriau, gyda chymorth nifer o weithiau Saesneg - *Trench on The Study of Words*,⁷⁹ *Tenby's Synonyms, Dictionary of English Synonyms* Edward Howell⁸⁰ a *Crabb's English Synonyms*⁸¹ – cyfres o ysgrifau yn y *Beirniad* a gwahanol eiriaduron Cymraeg. Nid yw'n dangos rhannau ymadrodd ond mae'n nodi manylion am etymoleg ambell brifair gan gyfeirio at eiriau Lladin, Groeg, Hebraeg, Sansgrit, Saesneg a'r ieithoedd Celtaidd eithr yn aml iawn mae'r wybodaeth sydd ganddo yn gyfeiliornus.

Cynigir hyd at bump neu chwech o gyfystyron ar gyfer y prifeiriau a dilynir y mwyafrif ohonynt gan frawddeg neu ddwy'n esbonio'r defnydd gwahanol a wneir o'r cyfystyron. Dyma'r nodwedd a gafodd ei chanmol gan Silvan yn ei feirniadaeth ac o edrych ar y cofnodion ar gyfer 'perthynas' a 'tywallt' er enghraifft, gwelir esboniadau digon eglur:

Perthynas, (Ll. *Pertinio*) – câr, ceraint, teulu, tylwyth. *Perthynas* yw y gair cyffredinol am y sawl a gysylltir â'u gilydd trwy waedoliaeth; *câr* a ddefnyddir yn unig am y person neillduol y byddis yn *perthyn* iddo: *ceraint* yw y term cyffredinol a gynwys bawb fyddo yn dal *perthynas*. *Teulu* a olyga gysylltiad agosach na *perthynas*, ond gall *tylwyth* gynwys rhai heb fod yn *berthynasau* o gwbl, hyny ydyw, y cyfryw nas gellir olrhain y *berthynas*

⁷⁸ Ibid., t.viii.

⁷⁹ Richard Chenevix Trench, *On the study of words: lectures addressed (originally) to the pupils at the diocesan training school* (Winchester, 1855).

⁸⁰ Methwyd â chael hyd i gyfeiriadau at weithiau Tenby ac Edward Howell.

⁸¹ George Crabb, *Crabb's English synonyms: arranged alphabetically with complete cross references throughout* (Llundain, 1816).

trwyddynt. Sonir am *dylwyth* teg, neu am genedl gyfan o dan yr enw *tylwyth*, ond weithiau cyfyngir ef i deulu, megys "*tylwyth* ei dy."

Tywallt, - arllwys, colli. *Tywelltir* o fwriad, a *chollir* trwy ddamwain: y blaenaf yn symiau bychain – wrth reol: yr olaf yn symiau mawr. Y mae *tywallt* yn dal perthynas â'r derbynydd, megys y cymylau yn tywallt eu cynwys i'r ddaear, tra nad yw *colli* yn cyfeirio dim at ganlyniad y weithred. *Tywallt* a olyga ddisgyn o uchder: *arllwys* yr afon ei chynwys i'r môr, a *thywallta* y cymylau iddo.

Yn aml iawn, cyfeiria at y defnydd arbennig a wneir o air yn y Beibl gan ddyfynnu adnodau enghreifftiol. Gan fod Griffith Jones wedi ymgynghori â geiriaduron cyfystyron Saesneg wrth baratoi'r gwaith, daeth yn ymwybodol o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn ambell gofnod nododd:

Nid yw y gwahaniaeth yma i'w gael yn Saesneg.⁸²

Nododd hefyd ddiffygion rhai geiriaduron Cymraeg. Nid yw *Cyfystyron y Gymraeg* heb ei feiau ychwaith. Wrth nodi ym mha gyd-destun y gellir defnyddio'r cyfystyron, ni lwyddodd Griffith Jones i egluro'n gryno ac eglur bob tro. Tuedda i ymhelaethu gormod o bryd i'w gilydd ac mae ambell gofnod o'i eiddo, megis yr enghreifftiau a ganlyn, yn ddigon aneglur a niwlog:

Bwriad – pwrpas, arfaeth, meddwl, amcan. Y mae bwriad a phwrpas yn golygu mwy na meddwl. Y mae bwriad yn cynwys lluwys o wrthddrychau; pwrpas, un yn unig: y mae bwriad yn golygu rhagfeddwl a threfn a myfyrdod; pwrpas sydd yn golygu *rhym* beth sefydlog, yn gofyn penderfyniad. Y mae bwriad yn gyrhaeddadwy; pwrpas yn sefydlog. Y mae dynion anwadal yn bwriadu llawer; y sawl a fyno gyrhaedd ei amcan ni ddylai wrando ar ormod o gynghorwyr. Y mae pwrpas a bwriad yn gwahaniaethu gyda golwg ar natur a gwaith y gwrthddrych; byddwn yn pwrpasu yn ddifrifol; yn bwriadu yn benagored: byddwn yn dechreu ar yr hyn a bwrpaswn, ond yn oedi yr hyn a fwriadwn: dibyna y pwrpas ar y dyn ei hun; y bwriad ar amgylchiadau.

Colofn, (Li. column) – post, piler. Gwasanaetha piler gan mwyaf fel colofn neu gynhalydd, ac mae y golofn bob amser yn biler; ond nid yw piler bob amser yn gwasanaethu felly, ac yna gelwir ef wrth ei enw ei hun. Pan yn gwneyd fel attegydd gelwir ef yn golofn. Defnyddir y gair colofn mewn ystyr foesol am yr hyn fyddo yn attegu.

Er mwyn atal y gyfrol rhag chwyddo'n ormodol, mae Griffith Jones yn croesgyfeirio ond mae'n bosib iawn fod yn rhaid iddo orffen y gwaith ar frys oherwydd ni ofalodd fod y croesgyfeiriadau'n gywir. Yn hanner olaf y geiriadur er enghraifft, ceir nifer o gofnodion sy'n cyfeirio'r darlennydd at gofnodion eraill nad ydynt yn bodoli! Oherwydd natur cynnwys *Cyfystyron y Gymraeg*, gellir tybio iddo fod yn waith poblogaidd yn ei ddydd. Fe'i cyhoeddwyd am yr eildro ym 1892.⁸³

⁸² Griffith Jones, op. cit., t.81.

⁸³ Griffith Jones, *Cyfystyron y Gymraeg: sef y casgliad buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Gwreccsam, 1888* (Wreccsam, 1892).

Yn ystod ei oes, bu Griffith Jones yn newyddiadurwr, yn ddarlithydd ac yn llyfrwerthwr teithiol.⁸⁴ Er na luniodd ragor o weithiau ieithyddol, cyhoeddwyd gweithiau eraill o'i eiddo. Traethodau buddugol gwahanol eisteddfodau oedd nifer ohonynt, er enghraifft *Pryddest er coffadwriaeth am T. H. Jones ...*,⁸⁵ *Enwogion Sir Aberteifi*,⁸⁶ *Traethawd bywgraffyddol a beirniadol ar fywyd yr athrylith Lewis Morris*⁸⁷ a *Bywyd Crefyddol y diweddar W. E. Gladstone*.⁸⁸ Cyhoeddwyd ei gyfieithiadau a'i weithiau barddol yn *Caneuon Glan Menai*,⁸⁹ *Hywel Wyn, neu, Ganlyniadau anufydd-dod*⁹⁰ a daw ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth a hanes i'r amlwg eto yn ei draethawd ar Edmwnd Prys,⁹¹ ei gyfrol ar ardal Llanfairfechan⁹² a'i ysgrifau yn *Y Geninen*.⁹³

⁸⁴ Lloyd Hughes, *Llanfair mewn lluniau. Llanfairfechan: a pictorial history* (Pen-y-groes, 1989), t.82.

⁸⁵ Griffith Jones, *Pryddest er coffadwriaeth am T. H. Jones, Ysw., Neuadd Fawr, ail fuddugol yn Eisteddfod Llanbedr, Mehefin 22 1859* (Caerfyrddin, 1859).

⁸⁶ Griffith Jones, *Enwogion Sir Aberteifi: traethawd buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, 1865* (Dolgellau, 1868).

⁸⁷ Griffith Jones, *Traethawd bywgraffyddol a beirniadol ar fywyd yr athrylith Lewis Morris: yn fuddugol yn Eisteddfod Pont Menai, Awst, 1873* (Caerfyrddin, 1873).

⁸⁸ Griffith Jones, *Bywyd Crefyddol y diweddar W. E. Gladstone* (Llanfairfechan, 1898).

⁸⁹ Griffith Jones, *Caneuon Glan Menai* (Bangor, 1868).

⁹⁰ Griffith Jones, *Hywel Wyn, neu, Ganlyniadau anufydd-dod: hanesyn i'r ieuenctyd* (Caernarfon, 1861), sef cyfieithiad o gerdd Saenseg Giles Witherne.

⁹¹ Griffith Jones, *Traethawd bywgraffyddol a beirniadol ar Edmwnd Prys* (Conwy, 1899).

⁹² Griffith Jones, *Llanfairfechan and Aber: with notes historical and topographical, a complete guide (illustrated) to walks and places of interest* (Caernarfon, I, 1890).

⁹³ Llythyr Glan Menai ar 'Y Ffyrdd Rhufeinig yn Sir Gaernarfon', *Y Geninen* 6 (1888), tt.209-10; Glan Menai, 'Y Parchedig John Jones (Idrisyn)', *Y Geninen* 7 (1889), tt.64-71; Glan Menai, 'Mynyddoedd Sir Gaernarfon', *Y Geninen* 12 (1894), tt.57-8 a tt.132-4; Glan Menai, 'Perthynas yr Eglwys a Llenyddiaeth Gymreig', *Y Geninen* 14 (1896), tt.170-7 a t.295; *Y Geninen* 15 (1897), tt.34-6, tt.125-9, tt.200-2 a tt.279-80; Glan Menai, 'Adgofion Eisteddfodol', *Y Geninen* 2 (1903), tt.207-12.

(vi)

Owen Morgan Edwards (1858-1920)

Gan nad oedd, yn nhyb O. M. Edwards:

... Eiriadur hawdd ei gael i lenyddiaeth Cymreig y cyfnod rhwng Gruffydd ab Cynan a Beibl 1588 ...⁹⁴

aeth ati i lunio geiriadur ei hun ar gyfer y sawl a astudiai lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol.⁹⁵ Ei fwriad gwreiddiol oedd cywiro a thalfyrru geiriadur Thomas Jones, yr Almanaciwr ond fe'i hanogwyd gan John Morris-Jones i fynd gam ymhellach.⁹⁶ Darllenodd Edwards destunau ei hun ac ymgynghorodd â geiriaduron eraill - yn enwedig *Archaeologia Britannica* Edward Lhuyd a geiriaduron Pughe a Silvan - er mwyn creu geiriadur gweddol gynhwysfawr. Dywedodd:

Mor bell ac y gallwn farnu, - oddiwrth lenyddiaeth, enwau lleoedd, a'r defnydd a wneir ar lafar o eiriau'n awr, - yr oedd pob gair sydd yn y Geiriadur hwn ar arfer yn 1588.⁹⁷

Bu O. M. Edwards yn paratoi'r gwaith hwn tra'n Gymrawd a Thiwtor hanes yng Ngholeg Lincoln, Rhydychen. Ni wyddys faint o amser y bu wrthi ond yn gynnar ym 1905 ymddangosodd y *Geiriadur Cymraeg a Saesneg Byr* o'r wasg a chodwyd 1/6 amdano.⁹⁸ Cyfrol yng nghyfres enwog O. M. Edwards - *Cyfres y Fil* - ydoedd. Rhwng 1901 a 1916 cyhoeddodd dri deg saith o gyfrolau a oedd, yn bennaf, yn ymwneud gweithiau llenorion unigol megis Iolo Goch, Dafydd ap Gwilym, Iolo Morganwg ac Ann Griffiths.

Ceir tudalen yn dangos yr wyddor Gymraeg ar gychwyn y gyfrol ynghyd â rhestr 'Enwau' ac 'Enwau Lleoedd' ac yna ceir prif gorff y geiriadur sy'n cynnwys oddeutu 7,000 o brifeiriau. Mae'r cynnwys yn ddigon tebyg i'r hyn a geir yng ngeiriadur Thomas Jones, er enghraifft:

⁹⁴ Owen M. Edwards, *Geiriadur Cymraeg a Saesneg Byr*. Yn bennaf ar sail "Dictionarium Britannico-Latinum" Dr. John Davies o Fallwyd. Ac ar "Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb" Thomas Jones o'r Amwythig" (Llanuwchllyn, 1905), t.iii.

⁹⁵ Syr John Edward Lloyd, R. T. Jenkins, a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., tt.179-80.

⁹⁶ Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb, neu Helaeth Eir-lyfr Cymraeg a Saesneg. The British Language in its Lustre, or a Copious Dictionary of Welsh and English* (Llundain, 1688).

⁹⁷ Owen M. Edwards, op. cit., t.iv.

⁹⁸ *Seren Gomer* (1905), t.165.

GEIRIADUR
CYMRAEG A SAESNEG

BYR.

YN BENNAP AR SAIL
DICTIONARIUM BRITANNICO-LATINUM
DR. JOHN DAVIES o Fallwyd.

AC AR
"Y GYMRAEG YN EI DISGLEIRDEB"
THOMAS JONES o'r Amwythig.

Llanuwchllyn, AB OWEN.
Cenwy, R. E. JONES AT FRODYR.
1905.

Y GYMRAEG YN EI DISGLEIRDEB (1688)	GEIRIADUR CYMRAEG A SAESNEG BYR (1905)
Cyfnwid, <i>a change or exchange.</i>	Cyfnwid, a change or exchange; cyfnwidwriaeth, an exchange of one for another; cyfnewidio, to exchange; cyfnewidiau, changes.
Cyfnwidwriaeth, <i>an exchange of one for another.</i>	
Cyfnewidio, <i>to exchange.</i>	
Cyfnewidiau, <i>changes.</i>	
Cyfnifer, cynnifer, cymaint rhyfedi, <i>as many, also, even, or not odds.</i>	Cyfnifer, cynifer, as many, even; cyfniferawg, of an even number.
Cyfniferawg, o'r un faint o'r un rhi, <i>of an even number.</i>	
Cyfnither, <i>the first cozen female.</i>	Cyfnither, the first cousin female.

ond fe welir bod Edwards wedi hepgor rhai o'r cyfystyron Cymraeg a geid yng ngeiriadur 1688. Hepgorodd ambell brifair hefyd yn ogystal â newid ychydig ar yr orgraff. Prifair Cymraeg ac un neu ddau gyfieithiad Saesneg sydd yn y *Geiriadur Cymraeg a Saesneg Byr*. Nid yw'r rhannau ymadrodd yn cael eu nodi ac am ei fod yn nodi enwau a berfenwau gyda'i gilydd fel a ganlyn, yn hytrach nag ar wahân, ceir yr argraff ei fod yn ceisio arbed lle:

Teulu, a family; **teuluaidd**, familiar, domestic, hospitable; **teuluwriaeth**, household order, or government; **teuluwas**, a household servant; **teuluedd**, peace, concord.

Eto i gyd, ni ddewisodd gael gwared â rhai o esboniadau Thomas Jones. Fe'u cynhwysodd hwy fel ag yr oeddent:

Y GYMRAEG YN EI DISGLEIRDEB (1688)	GEIRIADUR CYMRAEG A SAESNEG BYR (1905)
Pendro, <i>giddiness, or dizziness in the heads of beasts, which cause them to whirl, rowl and turn round.</i>	Pendro, giddiness, or dizziness in the heads of beasts, which cause them to whirl, roll, and turn round; penddar , penddaredd , a disease, which causes a swimming of the head, with a kind of mistiness, or sparkling of the eyes.
Penddar, penddaredd, clefyd pen, <i>a disease, which causes a swimming of the head, with a kind of mistiness, or sparkling of the eyes.</i>	
Rhuso, <i>to leap, or skip back, to stand still as an ill qualified horse will do in defiance of his rider.</i>	Rhus, a leaping, or skipping back; rhuso, to leap, or skip back, to stand still as an ill qualified horse will do in defiance of his rider.

Nid yw'n nodi pa ddefnydd a wneir o'r prifeiriau yn y gorffennol ac nid yw'n cynnwys enghreifftiau ohonynt mewn cyd-destun ychwaith. Geiriadur digon syml yw eiddo O. M. Edwards - geiriadur y gellid troi ato'n sydyn am gyfieithiad Saesneg, nid geiriadur i bori drwyddo a myfyrio dros ei gynnwys.

Ceir awgrym ar ddiwedd y rhagymadrodd bod O. M. Edwards yn awyddus i barhau â'i waith geiriadurol wrth iddo wneud apêl arbennig:

A gaf fi ofyn i efrydwyr hanes a llenyddiaeth Cymru yn y canol oesoedd roddi prawf arno [y geiriadur], a gwneud rhestrau o eiriau a dyfyniadau, fel y gallaf ei wella.⁹⁹

Hyd y gwyddys, nid aeth Edwards yn ei flaen i wneud rhagor o waith ym maes geiriaduraeth. Ceisiodd oleuo'r Cymry na wyddent lawer am hanes eu gwlad trwy gyhoeddi llyfrau a chylchgronau Cymraeg poblogaidd a chyfresi megis *Cyfes y Fil*, a grybwyllwyd uchod a *Llyfrau Ab Owen*. Cyhoeddodd lyfrau ac erthyglau ar hanes Cymru,¹⁰⁰ golygodd a chyhoeddodd gylchgronau megis *Cymru* a *Cymru'r Plant*, ysgrifennodd lyfrau i blant¹⁰¹ a chychwynnodd gymdeithas arbennig ar eu cyfer ym 1896, sef Urdd y Delyn. At hyn, cafodd gryn ddylanwad ar y gyfundrefn addysg yng Nghymru yn sgil ei benodiad fel prif arolygydd cyntaf ysgolion Cymru ym 1907.

⁹⁹ Owen M. Edwards, op. cit., t.iv.

¹⁰⁰ Owen M. Edwards, *Hanes Cymru: i ysgolion, cyfarfodydd llenyddol a theuluoedd. Rhan I, Hyd farwolaeth Gruffydd ab Llywelyn yn 1063* (Caernarfon, 1895).

Owen M. Edwards, *Hanes Cymru: i ysgolion, cyfarfodydd llenyddol a theuluoedd. Rhan II, hyd farwolaeth Gruffydd ab Cynan yn 1137* (Caernarfon, 1895).

Owen M. Edwards, *Ystraeon o hanes Cymru i safon III* (Wrecsam, 1894-1895).

Owen M. Edwards, *Cartrefi Cymru* (Wrecsam, 1896).

Owen M. Edwards, *Wales* (Llundain, 1901).

¹⁰¹ Owen M. Edwards, *Llyfr Del* (Wrecsam, 1906).

Owen M. Edwards, *Yr Hwiangerddi* (Llanuwchllyn, 1911).

Owen M. Edwards, *Llyfr Nest* (Wrecsam, 1913).

(vii)

Peter Williams (Pedr Hir, 1836-1906)

Brodor o Lanynys, Dyffryn Clwyd, oedd Peter Williams.¹⁰² Ar ôl derbyn addysg yn ysgol J. D. Jones y cerddor, bu'n dal amryw o swyddi cyn troi'n blismon ym 1870.¹⁰³ Pan gafodd ei anfon i Bentrefoelas yng ngwanwyn 1871, dechreuodd farddoni ac aeth ati o ddifrif i astudio Saesneg a Lladin oherwydd 'roedd yno "lyfrgell gyhoeddus go lew".¹⁰⁴ Rhoddodd Williams y gorau i'w yrfa fel plismon cyn diwedd 1880 gan droi at bregethu ac urddwyd ef yn weinidog gyda'r Bedyddwyr flwyddyn yn ddiweddarach. Bu'n gweinidogaethu yn Abergele, Tredegar a Bootle hyd ddiwedd ei oes. Datblygodd Williams yn un o bregethwyr mwyaf ei enwad a chyfansoddodd nifer o emynau, yn eu plith 'Bydd canu yn y nefoedd'.

Yn ystod yr wythdegau, bu'n cystadlu'n gyson mewn eisteddfodau – fe'i gwobrwywyd am fugeilgerdd yn eisteddfod genedlaethol Llundain ym 1887 ac am 'Rhamant Rhys ap Thomas' yn eisteddfod Aberhonddu ym 1889. Cyhoeddwyd ei weithiau yn *Odlau Pedr Hir*,¹⁰⁵ *Yr Aifft*,¹⁰⁶ *Breuddwyd Sion y bragwr*¹⁰⁷ a *Damhegion y Maen Llog*.¹⁰⁸ Yn ddiweddarach trodd ei sylw at gyfansoddi dramâu gan gyhoeddi tair drama ysgrythurol¹⁰⁹ ac un arall ar Owain Glyndŵr.¹¹⁰

Yn sgil diwygiad 1904-5, ysbrydolwyd Peter Williams i gyhoeddi cyfrol fechan – *A Key and Guide to the Welsh Language* – er mwyn cynorthwyo'r Cymry ieuanc

¹⁰² Syr Edward Lloyd, R. T. Jenkins a Syr William Llewelyn Davies (goln.), op. cit., t.1000.

¹⁰³ Ibid., tt.461-462.

¹⁰⁴ Llsgr Bangor 16745.

¹⁰⁵ Peter Williams, *Odlau Pedr Hir* (Llangollen, 1879).

¹⁰⁶ Peter Williams, *Yr Aifft* (Lerpwl, 1885).

¹⁰⁷ Peter Williams, *Breuddwyd Sion y bragwr: neu, Weledigaeth Dinas Malltod* (Corwen, 1890).

¹⁰⁸ Peter Williams, *Damhegion y Maen Llog* (Lerpwl, 1922).

¹⁰⁹ Peter Williams, *Moses bach: drama Gymraeg at wasanaeth gobeithluedd* (Lerpwl, 1903); Peter Williams, *Moses o'r cawell i'r môr coch: drama Gymraeg at wasanaeth gobeithluedd* (Lerpwl, 1907); Peter Williams, *Electra, sef y llances o wlad Israel* (Y Bermo, 1907).

¹¹⁰ Peter Williams, *Owain Glyndwr* (Lerpwl, 1915).

. . . A . . .
Key and Guide to the Welsh
Language.

A WELSH-ENGLISH DICTIONARY AND GRAMMAR
COMBINED.

BY
PEDR HIR.

Text Book : The Welsh Bible.

LIVERPOOL :
Hugh Evans & Sons, *Brython* Office, 356-358 Stanley Road, Liverpool.

i ddarllen y Beibl yn y Gymraeg.¹¹¹ Fe'i cefnogwyd ac fe'i cynorthwywyd gan nifer o wŷr dysgedig megis John Morris-Jones,¹¹² Edward Anwyl a Thomas Shankland a chan ei fab W. U. Williams, y Parch. D. Powell a Mr. Charles H. Hunt yn llyfrgell Bootle.¹¹³ Anelodd y gyfrol hefyd at y rhai na fedrent y Gymraeg o gwbl a dyna paham y cynhwysodd ramadeg Cymraeg byr wedi ei ysgrifennu yn Saesneg ar y cychwyn. Fe'i dilynir gan *A Key and Guide to the Welsh Language*, sef geiriadur Cymraeg-Saesneg sy'n cynnwys tua 5,400 prifair. Nodir rhan ymadrodd a ffurf luosog y prifeiriau ac, fel arfer, un neu ddau gyfieithiad Saesneg. Gwnaeth Williams ddefnydd o Feibl y Gymdeithas a Beibl Rhydychen ond pan wahaniaethent o ran orgraff, dywedodd:

... rhoddais y gair i mewn yn y ddwy orgraff, a nodir gair sydd yn orgraff Rhydychen â'r gair talfyredig Ox.¹¹⁴

Yr hyn sy'n anarferol am y cofnodion yw'r cyfeiriadau Beiblaidd ar gyfer pob prifair, er enghraifft:

Nain, n.f., a grand-mother, 2 Tim. 1.5; pl., neiniau.

Ystên, n.f., a pitcher, Jer. 19.10; pl., -au, Mc. 7.4. Ystenaïd, n.f., a pitcherfull, Mc. 14.13.

Ystyriaf, I regard, take heed, consider, 1 Sam. 4.20, Rhuf. 4.19;
ystyr, 3 p.s., Jonah 1.6; 2 s.imp., Ps. 142.6.
ystyried, Hb. 13.5; ystyrio, vb.-n., Diar. 5.6.

Er mwyn cynnwys:

... pob gair ac engraifft o bob priod-ddull o eiddo'r iaith a'r y sydd yn y Beibl Cymraeg ...¹¹⁵

cyfeddyf Peter Williams iddo dreulio oriau maith yn darllen y Beibl a bod chwilio am ambell i eiryn bychan wedi mynd â chryn dipyn o'i amser.¹¹⁶

Geirfa gyffredin, bob dydd, yw mwyafrif y prifeiriau ond ceir hefyd nifer fawr o ferfau person cyntaf yn y presennol, megis 'anturiaf', 'cyfresaf', 'newynaf' ac 'ystoriaf'. Mewn cofnodion o'r fath, fel y gwelir wrth edrych ar y cofnod ar gyfer

¹¹¹ Griffith Jones, *A Key and Guide to the Welsh Language: a Welsh-English dictionary and grammar combined* (Lerpwl, 1911).

¹¹² Llsgr Bangor 12078.

¹¹³ Griffith Jones, op. cit., tt.v-vi.

¹¹⁴ Ibid., t.vi.

¹¹⁵ Ibid., t.vi.

¹¹⁶ Cyfeirir at y ffaith fod Peter Williams wedi darllen y Beibl deirgwaith wrth baratoi ar gyfer y *Key and Guide* yn: Thomas Richards, 'Yng Nghwmni Pedr Hir', *Seren Gomer* (1930), t.131.

'ystyriaf' uchod, mae'n nodi berfenw yn ogystal â chyfeiriadau at yr adnodau y ceir hwy. Gydag ambell i gofnod megis 'af' a 'gallaf' mae'n manylu cryn dilyn.

Cyhoeddwyd *A Key Guide to the Welsh Language* trwy danysgrifiad a chynhwyswyd y rhestr ar ddiwedd y gyfrol. Enwau gweinidogion sy'n ei britho ond fe welir ambell enw adnabyddus yn eu plith megis Syr Edward Anwyl, Eifion Wyn, Owen Edwards, John Morris-Jones a D. Lloyd George. Cafodd y gyfrol dderbyniad digon gwresog oherwydd nad geiriadur hanesyddol o'r Gymraeg yn cynnwys manylion am wreiddeiriau ydoedd ond geiriadur syml i'r werin bobl.¹¹⁷

¹¹⁷ Seren Gomer (1912), t.56.

(viii)

J. Bodvan Anwyl (1875-1949)

Pan fu farw William Spurrell ym 1889, etifeddodd ei fab, Walter, y busnes argraffu yng Nghaerfyrddin. Gan fod geiriaduron Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg ei dad yn boblogaidd ac yn gwerthu'n dda, aeth ati i geisio cynnal y gwerthiant hwnnw trwy gyhoeddi argraffiadau diwygiedig ohonynt. Ym mis Mawrth 1911, anfonodd lythyr at John Bodvan Anwyl¹¹⁸ yn gofyn a fyddai'n barod i ddiwygio'r geiriaduron gan roi sylw arbennig i'r orgraff yn sgil y gwaith diweddar a wnaed yn y maes hwnnw. Ymddengys fod Bodvan wedi ymateb gyda throad y post oherwydd dridiau'n ddiweddarach anfonodd Spurrell lythyr arall yn diolch iddo am gytuno i ymgymryd â'r gwaith.

'Roedd Bodvan yn ŵr digon abl a chymwys i gyflawni'r gwaith golygu. Cenhadwr gyda Chenhadaeth y Mud a'r Byddar ym Morgannwg ydoedd yr adeg hon ond 'roedd eisoes wedi paratoi rhai gweithiau ar ran Cymdeithas Genhadol Llundain¹¹⁹ yn ogystal â chyhoeddi cyfieithiad o *Welshmen* Thomas Stephens¹²⁰ a chyfieithiad o waith Basil Matthews ar Livingstone.¹²¹ Ymddiddorai mewn materion ieithyddol a gohebai gyda gwŷr megis Huw Edwards, Pontyberem,¹²² Craven H. Walker,¹²³ W. J. Watson,¹²⁴ R. J. Jones,¹²⁵ William Davies, Llanegryn,¹²⁶ John Morris-Jones,¹²⁷ T. H. Parry-Williams¹²⁸ ac Ifor Williams¹²⁹ ynghylch ystyron geiriau a geiriau tafodieithol. Unwaith i Bodvan gychwyn ar y gwaith o olygu'r geiriaduron, cynigiodd nifer o'i ohebwy ei helpu ac ym 1914 addawodd T. Gwynn Jones gynorthwyo gwaith Bodvan ar ffurfiau tafodieithol.¹³⁰ Ni wyddys yn iawn pa waith oedd hwn ond mae'n amlwg bod Jones yn awyddus

¹¹⁸ Papurau Bodvan Anwyl, 1/1100. Llythyr dyddiedig 25/3/1911.

¹¹⁹ Annie Sherman a J. Bodvan Anwyl, *Ynys y merthyron, neu, Madagascar: y wlad, y bobl, a'r cenadaethau* (Llundain, 1908).

W. A. Elliot a J. Bodvan Anwyl, *Aur o'r graig* (Llundain, 1911).

¹²⁰ J. Bodvan Anwyl, *Y Cymru: braslun o'u hanes o'r oesoedd boreuaf hyd farwolaeth Llywelyn eu Llyw Olaf* (Conwy, 1902).

¹²¹ J. Bodvan Anwyl, *Livingstone: y llwybrydd* (Llundain, 1914).

¹²² Papurau Bodvan Anwyl, 1/310.

¹²³ *Ibid.*, 1/1284.

¹²⁴ *Ibid.*, 1/1286.

¹²⁵ *Ibid.*, 1/1742, 1/744.

¹²⁶ *Ibid.*, 1/269, 1/270, 1/277, 1/279.

¹²⁷ *Ibid.*, 1/889.

¹²⁸ *Ibid.*, 1/945, 1/947.

¹²⁹ *Ibid.*, 1/1368, 1/369, 1/370 – 1/374.

¹³⁰ *Ibid.*, 1/759.

i Bodvan fwrw ymlaen â'r gwaith oblegid anfonodd slipiau ar gyfer y geiriadur ato gan bwysleisio pa mor hanfodol oedd hi i gael geiriadur yn nodi'r ffurfiau tafodieithol gwahanol.¹³¹

Pan fu Bodvan yn paratoi'r geiriadur Cymraeg-Saesneg fe'i cynorthwywyd gan ei frawd, Edward, John Morris-Jones, W. J. Gruffydd, E. Lorimer Thomas, Ifor Williams a Thomas Powel.¹³² Edward Anwylaysgrifennodd ragair y geiriadur Cymraeg-Saesneg ac ynddo mae'n nodi pa mor anodd oedd hi i ddethol geiriau ac yna eu dehongli'n gywir. Aethpwyd ati i chwynnu geiriau o hen eiriaduron gan ddewis y geiriau pwysicaf ond ar yr un pryd ymdrechwyd i gadw cydbwysedd rhyngddynt a'r geiriau a arferid bob dydd ar lafar. Er mwyn atal y gyfrol rhag chwyddo'n ormodol ac er mwyn cadw'r pris yn isel, bu'n rhaid crynhoi'r ystyron a pheidio â chynnwys llawer o ddyfyniadau heblaw am rai o'r Beibl.

Ymhen tua blwyddyn ar ôl i Walter Spurrell a Bodvan gychwyn trafod y gwaith golygu, 'roedd y proflenni'n barod¹³³ ac fe'u hanfonwyd at holl athrawon ac isathrawon Cymraeg colegau Aberystwyth, Bangor, Caerdydd a Llambod¹³⁴ ac erbyn mis Ebrill 1914, 'roedd y gyfrol ar werth am 2/6.¹³⁵ 30,000 prifair oedd yn y geiriadur Cymraeg-Saesneg gwreiddiol ac oddeutu 19,500 sydd yn argraffiad 1914. Y ddwy brif nodwedd a gafodd sylw gan Bodvan oedd yr orgraff a'r geiriau anarferedig a oedd yng ngeiriadur Spurrell. Y gyfrol newydd oedd y geiriadur cyntaf i ddefnyddio orgraff ddiwygiedig Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac fe'i canmolwyd oherwydd hynny.¹³⁶ 'Roedd y ffaith fod Bodvan wedi:

... alltudio'r holl ddefnyddiau di-fudd yn yr hen eiriaduron megis ffurfiau gau, ystyron amhriodol a geiriau hynafol.¹³⁷

hefyd yn plesio'r adolygwyr eithr beirniadwyd ef am beidio â manteisio ar y cyfle i dynnu sylw at y ffurfiau anghywir a arferid ar ddechrau'r ugeinfed ganrif megis

¹³¹ Ibid., 1/760.

¹³² *Seren Gomer* (1914), t.224.

¹³³ Papurau Bodvan Anwyl, 1/1102 - 1/1104.

¹³⁴ John Morris-Jones, *Y Beirniad Cyfrol 4* (1914), t.151.

¹³⁵ J. Bodvan Anwyl (gol.), *Spurrell's Welsh-English Dictionary* (Caerfyrddin, 1914). 6ed argraffiad geiriadur Cymraeg-Saesneg William Spurrell.

¹³⁶ *Y Traethodydd*, Cyfres 2, t.287.

¹³⁷ John Morris-Jones, op. cit., t.151.

'hyd yn oed' a 'gwyneb'.¹³⁸ Nodwyd y symbol † wrth ochr y geiriau nad oeddent yn cael eu defnyddio bellach a phan geid dwy ffurf ar air, nodwyd y ffurf fwyaf derbyniol a chyffredin yn gyntaf. O bryd i'w gilydd, gwelir † wrth ochr geiriau digon annisgwyl, geiriau a oedd yn cael eu harfer yn ddyddiol yn ysgrifenedig ac ar lafar mae'n rhaid, er enghraifft 'brodyr', 'cyferbyniad' a 'hybu'.

Yn fuan ar ôl i argraffiad 1914 ymddangos, derbyniodd Bodvan sylwadau ac ychwanegiadau gan Lorimer E. Thomas,¹³⁹ T. H. Parry-Williams,¹⁴⁰ William Davies, Caerdydd,¹⁴¹ William Davies, Llanegryn,¹⁴² R. J. Jones¹⁴³ a W. H. Harries, Ystradgynlais¹⁴⁴ ar gyfer argraffiad pellach o'r geiriadur. 'Roedd Walters Spurrell yn awyddus iawn i Bodvan baratoi hwnnw'n syth¹⁴⁵ ond pwysodd arno hefyd i ganolbwyntio ar ddiwygio'r geiriadur Saesneg-Cymraeg.¹⁴⁶ Ymddengys mai i'r geiriadur Cymraeg-Saesneg y rhoddwyd blaenoriaeth oherwydd 'roedd proflenni'r geiriau newydd i'w hychwanegu ato'n barod erbyn mis Awst 1914 ac yna ym 1915 daeth yr argraffiad diweddaraf o'r wasg. Wedi hynny, trodd Bodvan ei sylw at y geiriadur Saesneg-Cymraeg. Anfonodd gopi o'r gwaith at Spurrell ym mis Ebrill 1915 yna ym 1916 'roedd ar gael am bedwar swllt.¹⁴⁷

Nododd Bodvan iddo gofio "beunydd am y darllenydd uniaith" wrth ddiwygio'r geiriadur felly helpu'r Cymro i ddysgu Saesneg oedd prif nod y gyfrol. Yn wahanol i William Spurrell, ni chynhwysodd Bodvan ganllawiau ynganu yn ei argraffiad ef ac oherwydd hynny gallodd ychwanegu rhagor o brifeiriau gan gynnwys geiriau a ddefnyddid ar lafar.¹⁴⁸ Unwaith eto, cafodd ei ganmol am:

... alltudio'r holl ddefnyddiau difudd y; yr hen eiriaduron, megis ffurfiau gau, ffurfiau amheus, ystyron amhriodol, a geiriau hynafol na ellir eu harfer yn y dyddiau hyn.¹⁴⁹

¹³⁸ *Y Traethodydd*, op.cit., t.287.

¹³⁹ Papurau Bodvan Anwyl, 1/1219, 1/1224, 1/1228.

¹⁴⁰ Ibid., 1/949.

¹⁴¹ Ibid., 1/266-1/268.

¹⁴² Ibid., 1/270-1/275.

¹⁴³ Ibid., 1/734-1/736.

¹⁴⁴ Ibid., 1/742.

¹⁴⁵ Ibid., 1/1113.

¹⁴⁶ Ibid., 1/1114.

¹⁴⁷ J. Bodvan Anwyl (gol.), *Spurrell's English-Welsh Dictionary* (Caerfyrddin, 1916). 7fed argraffiad geiriadur Saesneg-Cymraeg Spurrell.

¹⁴⁸ Gw. T. J. Morgan, 'Geiriau hynafol geiriadur Bodvan', *Bulletin of the Board of Celtic Studies* 8, tt.318-28.

¹⁴⁹ John Morris-Jones, *Y Beirniad Cyfrol* 7 (1917), t.127.

Ond cafodd ei feirniadu - yn ddigon teg - am olygu a chwynnu gormod hefyd.¹⁵⁰
Un cyfieithiad Cymraeg yn unig sy'n cael ei gynnig ganddo ar gyfer nifer fawr o brifeiriau ac nid oedd hynny bod amser yn ddigonol.

Gan fod Bodvan wedi addasu gweithiau Spurrell at anghenion yr oes a chreu dau eiriadur newydd i bob pwrpas, dangosodd y cyhoedd gryn ddiddordeb ynddynt ac 'roedd yr awydd i'w prynu gymaint ag erioed. Rhydd yr ohebiaeth rhwng Walter Spurrell a Bodvan syniad i ni o ba mor llwyddiannus oedd y cyfrolau yn ogystal ag amcangyfrif o'r ffigurau gwerthiant. Bu Bodvan yn gyfrifol am wyth argraffiad o eiriadur Cymraeg-Saesneg Spurrell:

1914: 6ed argraffiad;	1925: 10fed argraffiad;
1915: 7fed argraffiad;	1930: 11eg argraffiad;
1918: 8fed argraffiad;	1934: 12fed argraffiad;
1920: 9fed argraffiad;	1937: 13eg argraffiad.
1922: ail brintiad o'r 9fed argraffiad;	

Gwerthwyd tua 2,000 copi o bob un ac eithrio'r 7fed a'r 10fed argraffiad - gwerthwyd yn nes at 3,000 ohonynt hwy. Gellir amcangyfrif bod y gwerthiant rhwng 1914 a 1937 bron yn 20,000.¹⁵¹ Cafwyd llwyddiant tebyg, ond dim cystal, gyda'r geiriadur Saesneg-Cymraeg. Golygodd Bodvan bum argraffiad ohono:

1916: 7fed argraffiad;	1922: 8fed argraffiad;
1921: ail brintiad o'r 7fed argraffiad;	1926: 9fed argraffiad;
1922: trydydd printiad o'r 7fed argraffiad;	1932: 10fed argraffiad;
1922: 8fed argraffiad;	1937: 11eg argraffiad.

Prynwyd tua 3,000 copi o'r argraffiad a ymddangosodd ym 1916 ond wedi hynny gwelwyd cwmp yn y ffigurau gwerthiant gyda thua mil o ail a thrydydd printiad yr argraffiad hwnnw yn cael eu gwerthu ym 1921 a 1922. At ei gilydd, cyfanswm o tua 12,000 - 15,000 o gopïau o'r geiriadur Saesneg-Cymraeg a werthwyd.¹⁵²

¹⁵⁰ Ibid.

¹⁵¹ Richard. E. Hughes, 'Geiriaduron Spurrell a'u anhygoel [sic] werthiant', *Y Casglwr*, Rhif 42 (Nadolig 1990), t.20.

¹⁵² Ibid.

Yn sgil y gwaith golygu a wnaeth Bodvan ar eiriaduron Spurrell, ymgwymerodd â'r dasg o baratoi geiriadur Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg bychan a'i alw'n *Spurrell's Pocket Welsh Dictionary*.¹⁵³ Ystyriai Bodvan y gwaith, sy'n cynnwys oddeutu 5,7000 prifair ar yr ochr Gymraeg-Saesneg a thua'r un faint ar yr ochr Saesneg-Gymraeg, yn eiriadur cwbl newydd. Meddai:

This dictionary is no more abridgement of the large 'Spurrell', but is a new and distinct work founded upon it, printed in different type, from fresh copy.¹⁵⁴

Hyderai y byddai'n ateb y galw am eiriadur bychan, cryno ar gyfer disgyblion ysgol a'r Cymro cyffredin. Cyfeiriodd unrhyw un a ddymunai ragor o wybodaeth ar y geiriaduron eraill:

The advanced student will have recourse to the large dictionaries for rare words and expression, and to the fuller explanation and exemplification of common ones ...¹⁵⁵

Cyhoeddwyd *Spurrell's Pocket Welsh Dictionary* mewn rhediad o 5,000 o gopïau ac fe'i hailargraffwyd ym 1929. Flwyddyn yn ddiweddarach, cyhoeddwyd trydydd argraffiad gyda nifer o ychwanegiadau o dan y teitl newydd *Spurrell's Schools Dictionary* ac ymddangosodd pedwerydd argraffiad ym 1937.¹⁵⁶

Pan fu farw Walter Spurrell ym 1934, prynwyd y wasg argraffu gan Capt. J. W. Nicholas, newyddiadurwr o Landeilo, ond cadwyd yr enw Spurrell ar gynnyrch y wasg. Wedi ei farwolaeth yntau ym 1943, bu ei deulu'n cadw'r wasg eithr ni fu mor llwyddiannus ac fe'i gwerthwyd eto ym 1957 i H. G. Walters, newyddiadurwr ac argraffydd yn Arberth.

Er bod galw yn y farchnad am eiriaduron Spurrell/Bodvan yn dal i fod yr adeg honno, ni chafwyd argraffiad newydd ar ôl 1937 ond defnyddiwyd teip cadw i gynhyrchu rhagor o gopïau yn dwyn y dyddiad hwnnw. Rhwng 1937 a 1957, amcangyfrifwyd y gellir ychwanegu 10,000 at werthiant y tri geiriadur gan godi cyfanswm gwerthiant geiriaduron Spurrell/Bodvan rhwng 1914 a 1957 i dros 55,000.¹⁵⁷ Yn ddiweddarach, gwerthodd H. G. Walters hawlfraint geiriaduron

¹⁵³ J. Bodvan Anwyl, *Spurrell's Pocket Welsh Dictionary* (Caerfyrddin, 1919).

¹⁵⁴ J. Bodvan Anwyl, 'Rhagymadrodd', op. cit.

¹⁵⁵ Ibid.

¹⁵⁶ J. Bodvan Anwyl, *Spurrell's School Dictionary* (Caerfyrddin, 1937).

¹⁵⁷ Richard E. Hughes, op. cit., t.20.

Spurrell am £5000 i Wm. Collins & Co., Llundain a Glasgow ac ailgchwynnwyd ar y gwaith o baratoi argraffiad newydd.

Ochr yn ochr â'r gwaith o olygu'r geiriaduron, bu Bodvan yn paratoi argraffiadau newydd o *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg*,¹⁵⁸ *Drych y Prif Oesoedd*¹⁵⁹ a gweithiau eraill ar gyfer y wasg.¹⁶⁰ Ym 1921, cychwynnodd ar weithgarwch geiriadurol pwysig arall, pan apwyntiwyd ef yn ysgrifennydd geiriadur Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru a dyna, wrth gwrs, gychwyn stori arall sef stori creu *Geiriadur Prifysgol Cymru*.¹⁶¹

¹⁵⁸ Ellis Wynne, *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg gan Ellis Wynne; gyda nodiadau eglurhaol gan D. Silvan Evans, wedi ei ddiwygio a chyda nodiadau ychwanegol gan Bodfan* (Caerfyrddin, 1927).

¹⁵⁹ Theophilus Evans, *Drych y Prif Oesoedd* (Caerfyrddin, 1932). 5ed argraffiad gyda nodiadau eglurhaol gan Bodfan.

¹⁶⁰ John Bodvan Anwyl, *Englynion* (Wrecsam, 1933).

John Croesus Jones, *Yr Arian Mawr* (Caerfyrddin, 1934).

John Cymro Jones, *Fy Hanes i fy Hunan* (Caerfyrddin, 1933).

¹⁶¹ Gareth A. Bevan, 'Gwaith Pwysfawr a Llafurus yw Cyfansoddi Geirlyfr', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1995), tt.27-39.

Casgliad

Rhwng cyfnod y Dadeni Dysg yng Nghymru a dechrau'r ugeinfed ganrif, yr un cymhellion sydd gan bron bob un geiriadurwr, sef cariad at y Gymraeg a thosturi tuag at y Cymro uniaith. Yr awydd i ddyrchafu a safoni'r iaith oedd wrth wraidd gweithgarwch y Dyneiddwyr ac o'r cyfnod hwnnw ymlaen ystyrid yr orchwyl o lunio geiriadur yn ffordd o gyflawni'r awydd hwnnw. Gallai geiriadur fod yn brawf diymwad a pharhaol o ardderchowgrwydd y Gymraeg. Trwy gydol yr amser, teimlid hefyd fod angen i'r Cymro uniaith ddod ymlaen yn y byd a bod angen arf arno i'w helpu i ddysgu Saesneg. Llunnid geiriaduron yn y gobaith y byddent o fudd ymarferol iddo. Yn amlach na pheidio mae'r bwriad o roi bri ar y Gymraeg a'r awydd i ddysgu Saesneg yn ymblethu ac fe welir y cyfuniad hwn gyntaf yng ngwaith William Salesbury.

Gosododd Salesbury - arloeswr y geiriadur printiedig - gynseiliau y gallai eraill adeiladu arnynt ond ni chyhoeddwyd yr un geiriadur Cymraeg rhwng 1547 ac 1632. Serch hynny, ceir tystiolaeth sy'n dangos bod rhai ysgolheigion wedi ymddiddori yn y maes hwn. Yn rhagymadrodd y *Dictionarium Duplex* enwodd John Davies y rhai a fu'n ymhel â'r syniad o lunio geiriadur wedi ymddangosiad geiriadur Salesbury – Yr Esgob William Morgan, David Powel(I),¹ Siôn Dafydd Rhys,² Henri Perri, Henry Salesbury³ a Thomas Wiliems. O'r pum ysgolhaig a enwodd, yr unig un a aeth ati o ddifri i geisio diwallu'r angen am eiriadur Cymraeg, oedd Thomas Wiliems. Nodweddir ei waith gan fethiant a llwyddiant. Wedi'r holl lafur caled, ni chyhoeddwyd ei gampwaith – *Thesaurus Linguae*

¹ Mae'n debyg y bwriadasai David Powel(I) gyhoeddi geiriadur Cymraeg. Pan argraffodd ei fab, Daniel, y *Llyfr Plygain* ym 1612, yn ei ragymadrodd rhydd hanner addewid i gyhoeddi 'Dictionari Cymreig, sef Trysor-eiriau fy nhad'. Gw. *Y Llyfr Plygain* (Adargraffiad Gwasg Prifysgol Cymru Caerdydd, 1931), t.5.

² Lluniodd Siôn Dafydd Rhys eirfâu ar amryw destunau. Gw Thomas Parry, 'Bywyd a Gwaith y Dr. Siôn Dafydd Rhys'. (Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, Bangor, 1929), t.232.

³ Paratodd Henry Salesbury eiriadur Cymraeg-Lladin 'Geiria Tavod Comroig'. Ni chafodd ei gyhoeddi ond cadwyd copi ohono yn Llsgr. LLGC 13215, tt.315-400. Bu'n ymgynghori â'r geirfâu barddol a'r tafodieithoedd a lluniodd eiriau newydd ei hun a'u cynnwys yn y geiriadur. Gwnaeth eraill ddefnydd o'i waith, er enghraifft yng ngeirfa Ieuan Fardd [Llsgr. LLGC 1973, sef Llsgr. Panton 4] nodir H.S. ar ôl nifer o'r eitemau ac mae dylanwad Henry Salesbury hefyd i'w weld ar yr eirfa Gymraeg-Saesneg-Lladin anghyflawn yn Llsgr. Coleg Iesu 10.

Latinae et Cambrobrytannicae – ond nid aeth y cyfan yn ofer oherwydd ymddangosodd mewn ffurf dalfyredig maes o law yn *Dictionarium Duplex* John Davies.

Cyhoeddi'r *Dictionarium Duplex* ym 1632 oedd un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes y Gymraeg yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg. Trwy ddarllen geiriau Davies yn y rhagymadrodd a sylweddoli pa mor ddygn y bu'n gweithio ar hyd ei oes, down yn agos at amgyffred yr ymdrech aruthrol a wnaethai i gyfansoddi'r geiriadur. Cafodd yr ymdrech hon ei chydabod a'i gwerthfawrogi gan Goronwy Owen mewn llythyr a anfonodd at William Morris ar 1 Gorffennaf 1754. Dywedodd:

Mae'n ddigon er peri i galon o gallestr wylo hidl ddagrau wrth weled fal yr oedd yr hen gorph druan yn cwyno yn ei ragymadrodd rhan byrred yw hoedl dyn, ac yn mynegi pa sawl cynnig a roisai lawer o wyr dysgedig ar wneuthur Geirlyfr Cymraeg, ond bod Duw wedi torri edau'r einioes cyn i'r un ohonynt, oddigerth un, gael amser i gwblhau ei waith. Ac yntau ei hun yn ennyd fawr o oedran, gwell oedd ganddo yrru ei lyfr i'r byd heb ei gwbl orphen na'i adael megis erthyl ar ei ol, yn nwylaw rhyw rai ysgatfydd na adawsant iddo fyth weled goleuni haul; a diammau mai diolchgar y dylem oll fod iddo, a mi yn anad neb; oblegid efe a ddysgodd i mi fy Nghymraeg, neu, o'r lleiaf a'm cadwodd rhag ei cholli yn nhir estron genedl.⁴

Ar ddiwedd ei ragymadrodd, mae Davies yn disgrifio'i hun fel rhywun a arloesai'r ffordd. Yn anffodus, er iddo osod sylfaen a phatrwm i ieithyddion ac ysgolheigion eraill ac er i'w waith gael dylanwad mawr ar gyfieithwyr ac offeiriaid yr unfed ganrif ar bymtheg, ni fentrodd neb gerdded yn ôl ei droed wedi iddo farw. Ystyriwyd y *Dictionarium Duplex* yn eiriadur safonol yr iaith am ganrif a hanner neu fwy eithr cynulleidfa gyfyngedig a fedrai ei werthfawrogi. Geiriadur ar gyfer yr ysgolheigion neu'r Lladinwyr ydoedd, geiriadur i aelodau diwylliedig y gymdeithas ac wrth reswm nid oedd yn ddefnyddiol i'r rhai na ddeallent Ladin. Nid oedd y gyfrol yn fawr o werth ymarferol i'r Cymro cyffredin a'r bardd annysgedig.

⁴ J. H. Davies (gol.), *The Letters of Goronwy Owen* (Caerdydd, 1924), tt.118-9.

Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, wrth i bobl ymdrechu i geisio adfywio iaith a llenyddiaeth Cymru, gwelwyd yr angen am eiriadur bychan syml. Nododd Charles Edwards, er enghraifft, pa mor fuddiol fyddai:

Dicsionari Cymraeg bychan, sef Gair lyfr cryno i'r Gwerin, yn dangos anwyddocâd yr holl eiriau Cymreig.⁵

Rhaid felly, oedd cael geiriadur i helpu pobl i ddeall geiriau anghyfarwydd. Nododd G. J. Williams fod Charles Edwards a Stephen Hughes wedi rhoi "agoriad" ar eiriau "y sydd anhysbys i rai pobl yn Neheubarth Cymru" yn eu llyfrau⁶ ac ar ddechrau *Tryssor i'r Cymru* a gyhoeddwyd ym 1677, anerchodd Stephen Hughes y darlennydd trwy ddweud:

Ac o herwydd nad oes *Dictionary cymraeg iw gael yn Llundain* am arian, ac fod diffyg o hono, tuagat cyfieuthu llyfrau yng hymraeg, a thuagat cael cyfarwydd-deb i ddeall amryw eiriau y sydd yn rhai llyfrau cymraeg yn brintiedig, a thrwy ganlyniaeth fod o hono yn anghenrheidiol tuagat helaethu gwybodaeth o Dduw a'i ewyllys, y mae hi yn can-rhowyr i feddwl am ei brintio drachefn, ar gôst y wlâd, fel y mae'r Bibl yn awr yn cael ei brintio. Ac oni egyr Duw galonnau Boneddigion a Gwenidogion y wlâd i fod mewn côst iw ail brintio fe, ni phrintier byth mo hono (mewn pôb tybygoliaeth) mwy nag y printiasit y Bibl heb gymmeryd y cwrs hynny.⁷

Ym 1688 daeth geiriadur Cymraeg-Saesneg newydd o'r wasg, sef *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb neu helaeth eir-lyfr Cymraeg a Saesneg*. Thomas Jones yr almanaciwr a'i lluniodd a dyma, i bob pwrpas, oedd y gyfrol gyntaf yn Gymraeg a atebodd y galw am eiriadur i'r bobl gyffredin.

Yn y ddeunawfed ganrif, daeth galw am eiriadur Saesneg-Cymraeg ac fe nododd G. J. Williams ddau reswm posib am y galw hwnnw.⁸ Yn gyntaf, gwelwyd fod angen ehangu geirfa'r Gymraeg, fel y gellid ymdrin ag amrywiol bynciau ynddi. Yn ail, sylweddolwyd nad oedd geiriaduron Lladin a Chymraeg Wiliems a Davies yn fawr o gymorth i'r gwŷr a ddechreuodd gyfieithu llyfrau o'r Saesneg i'r Gymraeg. 'Roedd yn rhaid cael geiriadur pwrpasol arall at y gwaith hwnnw. Offeiriaid dysgedig oedd llawer o'r cyfieithwyr. Bu Theophilus Evans, Samuel Williams, Moses Williams a Siôn Rhydderch er enghraifft, i gyd yn trosi

⁵ Caryl Davies, *Affeillion Babel: Agweddau ar Syniadaeth Ieithyddol y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), t.26.

⁶ Ibid., t.41.

⁷ Stephen Hughes, *Tryssor i'r Cymru*, (Llundain, 1677).

⁸ G. J. Williams, 'Edward Lhuyd', *Llên Cymru*, 6, t.124.

llyfrau o'r Saesneg. Gramadegwr a geiriadurwr oedd Siôn Rhydderch a bu Moses Williams hefyd yn paratoi ar gyfer creu geiriadur. Wrth gyfieithu, mae'n rhaid bod y ddau mewn sefyllfa i weld cryfderau, gwendidau a bylchau yng ngeirfa'r Gymraeg. Tybed felly ai'r profiad hwn a barodd iddynt weld bod angen geiriadur Saesneg-Cymraeg? Lluniwyd y geiriadur Saesneg-Cymraeg cyntaf gan Siôn Rhydderch er mwyn helpu'r Cymro i ddysgu Saesneg. Mae arwyddocâd arbennig yn perthyn iddo, oherwydd dyma'r geiriadur Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd trwy danysgrifiad ac ynddo gwelir yr ymgais gyntaf i ddangos cyfieithiadau o idiomau Saesneg.

Er na chyhoeddodd Edward Lhuyd eiriadur fel y cyfryw, mae iddo le pwysig yn hanes geiriaduraeth am ei fod wedi annog ac ysbrydoli nifer i ymgymryd â gwaith geiriadurol a hynny ar adeg pan alwai'r gwŷr dysgedig am argraffiad diwygiedig o eiriadur John Davies. 'Roedd gan Lhuyd rwydwaith o gynorthwywyr a gohebwy'r ac mae'r llythyron a gadwyd yn brawf bod dynion - offeiriaid a mân uchelwyr gan amlaf - yn dal i ymddiddori mewn hen lenyddiaeth, hanes Cymru ac achau a'u bod yn copïo llawysgrifau ac yn llunio geirfâu.⁹ Wrth ystyried eu gweithgarwch hwy, fe'n hatgoffir o ymdrechion y Dyneiddwyr Cymreig. Bu gwŷr megis Thomas Lloyd, Moses Williams a William Gambold yn ymhel â gwaith geiriadurol, eto ni lwyddasant hwy i gyhoeddi unrhyw waith gorffenedig ychwaith. Sylweddolwyd eu gwerth er hynny. Dywedodd Caryl Davies:

Ar sylfaen gadarn y rhestrau di-ben-draw o eiriau a gynhyrchwyd yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed y codwyd adeiladwaith ieitheg gymharol wedi 1800.¹⁰

Parhaodd y diddordeb yng ngeirfa'r iaith ac mewn tafodiaith a pharhaodd y casglu, y copïo a'r cofnodi. Gellir gweld ôl dylanwad Edward Lhuyd a'r offeiriaid llengar ar ddysg Gymraeg y ddeunawfed ganrif, yn enwedig ar un o nodweddion amlycaf y ddysg honno, sef geiriaduraeth. Cwblhawyd yr orchwyl y ceisiodd Moses Williams ei chyflawni gan Thomas Richards o Langrallo pan gyhoeddwyd *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* ym 1753. Wrth ddarllen llythyr Richards

⁹ Gw. er enghraifft Geraint H. Jenkins, 'Bywiogrwydd Crefyddol a Llenyddol Dyffryn Teifi, 1689 - 1740', *Ceredigion*, 8 (1979), tt.439-77.

¹⁰ Caryl Davies, op. cit., t.27.

'At y Cymry', fe'n hatgoffir unwaith eto o ddelfrydau ac amcanion y Dyneiddwyr Cymreig. Dywedodd Richard M. Crowe:

Fel y mwyafrif o eiriadurwyr yn y ddeunawfed ganrif roedd [Thomas Richards] o'r farn fod geiriaduron yn gallu sefydlogi, neu hyd yn oed rewi ieithoedd drwy ddangos sillafiad cywir ac ystyr geiriau.¹¹

Nod pennaf Richards oedd arbed y Gymraeg rhag cael ei llygru a'i cholli ond llwyddodd yn ogystal i gyflwyno elfen gwbl newydd yn ei eiriadur sef cofnodi llu o eiriau tafodieithol. Cyhoeddwyd *Antiquae linguae Britannicae thesaurus* trwy danysgrifiad a bu'r cynllun yn llwyddiant ond wrth gwrs nid dyna a ddigwyddai bob amser fel y tystia methiant William Gambold i gasglu digon o danysgrifwyr ac arian i gyhoeddi 'Lexicon Cambro-Britannicum'.

Cyfrolau wedi eu hanelu at y Cymro cyffredin yw'r tair a gyhoeddwyd yn ail hanner y ddeunawfed ganrif. Bwriad William Evans, William Richards a Thomas Jones oedd creu geiriaduron ymarferol a roddai hwb i bobl feistrolï'r Saesneg eithr aeth William Evans un cam ymhellach trwy gynnwys canllawiau ar sut i ynganu geiriau Saesneg. Gellir tybio bod ynganiad digon arswydus yn dod o enau rhai o'r Cymry a fedrai siarad ychydig o Saesneg yr adeg hon felly bu cyfarwyddiadau Evans o fudd mawr iddynt mae'n rhaid!¹²

Heb os, *An English-Welsh Dictionary* John Walters oedd geiriadur mwyaf nodedig y ddeunawfed ganrif nid yn unig oherwydd ei faint ond oherwydd yr ymdrech aruthrol a wnaeth Walters i anadlu bywyd newydd i'r Gymraeg trwy gyfieithu llu o ymadroddion o'r Saesneg a phriodoli cyfystyron Cymraeg i eiriau anghyffredin neu arbenigol. Unwaith yn rhagor, daw'r ysbryd dyneiddiol i'r amlwg yng ngwaith Walters a theimlir y gallai'n hawdd fod wedi perthyn i gyfnod y Dadeni Dysg. Bwriad William Owen Pughe hefyd oedd anadlu bywyd newydd i'r Gymraeg a diwallu anghenion yr oes ond, yn bennaf oherwydd ei frwdfrydedd tanbaid, aeth Pughe dros ben llestri gan lyncu'r syniad bod modd rhannu ieithoedd yn eirynnau unsill. Yn ôl Geraint H. Jenkins:

¹¹ Richard M. Crowe, 'Thomas Richards a John Walters: Athrawon Geiriadurol Iolo Morganwg', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr* (Llandysul, 1998), t.233.

¹² T. J. Morgan, 'Geiriadurwyr y ddeunawfed ganrif', *Llên Cymru*, 9 (1966), t. 12.

... credai Pughe fod angen elfen o hunanfynegiant, gallu creadigol a hyd yn oed ychydig o ffugio er mwyn profi i'r Cymry eu hunain a'r byd y tu hwn fod yr iaith Gymraeg yn gyhyrog, yn hyblyg ac yn rymus.¹³

Y canlyniad oedd cyhoeddi geiriadur Cymraeg-Saesneg annibynadwy yn cynnwys oddeutu 100,000 o brifeiriau ym 1803.

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg 'roedd perygl i'r Saesneg dreiddio i bron bob agwedd ar y bywyd Cymreig a dymunai llawer wthio'r Gymraeg i'r cyrion a chyfyngu'r defnydd ohoni i'r aelwyd a'r capel. Y Saesneg oedd iaith dod ymlaen yn y byd a chlywid llawer o sôn am fanteision dwyieithrwydd. Heb os, cynorthwyo datblygiad y gymdeithas ddwyieithog oedd pwrpas nifer o'r geiriaduron a gyhoeddwyd rhwng 1805 a 1850 ond gwelir ar yr un pryd mai ymgais gan y geiriadurwyr i ddiogelu'r Gymraeg oeddynt. Daw'r syniad bod modd i eiriaduron sefydlogi neu 'rewi' ieithoedd i'r amlwg unwaith yn rhagor yn rhai o'r rhagymadroddion. Yn rhagymadrodd *Geirlyfr Cymraeg a Saesneg* Titus Lewis a gyhoeddwyd ym 1805 er enghraifft, dywedir:

... y mae Geirlyfrau o fawr ddefnydd i ymgeleddu iaith rhag ei cholli ac hefyd i'w chadw yn ddilwgr.

Ni lwyddodd y Gymraeg i ennill ei lle yng nghyfundrefn addysg y dosbarth canol yr adeg hon ac nid oedd ôl y diwylliant gwerinol a chrefyddol Cymreig arni ychwaith.¹⁴ Cwynai Titus Lewis fod y Cymry yn:

... dysgu iaith estronaidd i'w plant, cyn dysgu iddynt iaith eu mamau; neu eu hanfon i ysgolion i ddysgu Saesneg, cyn y medront ddarllen Cymraeg ...

a mynegodd Iolo Fardd Glas farn debyg ar ddechrau'r *Cyneirlyfr* a gyhoeddodd ym 1826. Er bod Iolo'n canmol y defnydd a wnaed o'r Gymraeg gan yr Ysgolion Sul a'r Cymdeithasau Cymreig, ceisiodd annog y Cymry i newid eu harferion:

... dylai pawb o hiliogaeth yr hen Frytaniaid ddwyn i fynu eu plant yn gyntaf yn yr wybodaeth lythyrenawl o yr iaith Gymraeg, cyn eu dysgu mewn un iaith estronawl ...

¹³ Geraint H. Jenkins, 'Adfywiad yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg 1660 - 1800' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb ...* op. cit., t.391.

¹⁴ Jac L. Williams, 'Addysg' yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir* (Llandybïe, 1968), t.115.

Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd sawl ffasiwn neu arfer newydd ymhlith geiriadurwyr. Yn gyntaf, cychwynnodd tuedd ymhlith rhai megis Titus Lewis ac Iolo Fardd Glas yn enwedig, i gynnwys ambell gofnod na fyddai'n edrych allan o le mewn gwyddoniadur, tebyg i *Cymru* Owen Jones.¹⁵ Yn ail, daeth y 'geiriadur llogell' yn fwyfwy poblogaidd. Y cyntaf a aeth ati'n fwriadol i ateb y galw am eiriadur bychan, hwylus oedd Tomos Glyn Cothi. Fe'i dilynwyd gan Evan Jones a heb os ni cheir yr un geiriadur sy'n llawer llai na *Geiriadur Cymreig a Seisonig* Arfonwyson a gyhoeddwyd ym 1833. Yn drydydd, trefnwyd cynnwys rhai geiriaduron yn adrannau arbennig, er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddisgyblion ysgol ac ymwelwyr i Gymru ddysgu geirfa Saesneg neu Gymraeg. Unwaith eto, Tomos Glyn Cothi oedd y cyntaf i wneud hynny ac yn ddiweddarach gwnaeth Thomas Roberts ac Evan Griffiths yr un peth.

Daethai llawer o fathiadau John Walters a William Owen Pughe - rhai sy'n adnabyddus i ni heddiw - yn boblogaidd yn ystod y cyfnod hwn a cheir hyd iddynt mewn geiriaduron diweddarach. Ceir hyd i nifer o fathiadau eraill ynddynt hefyd, bathiadau digon chwithig a di-fudd o eiddo Pughe. Gellir tybio mai mewn geiriaduron yn unig yr ymddangosodd rhai o'r bathiadau yma ac na chawsant eu defnyddio fel arall ar lafar nac mewn print. Geiriau geiriaduron ydynt. Digwydd yr un peth mewn geiriaduron ieithoedd eraill a chyfeirir atynt weithiau fel 'ghost words'. Disgrifiwyd y broses o godi 'ghost word' o un geiriadur a'i gynnwys mewn geiriadur arall gan Sidney I. Landau:

Once a term is in a dictionary it acquires the quiet authority of print and may spread to other innocent dictionaries, thus acquiring more authority, until it appears, by virtue of its ubiquitous representation, to be firmly established in the language.¹⁶

Dyna hanes nifer o'r termau Cymraeg a geir yn y geiriaduron a gyhoeddwyd yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Gyda thwf y gwyddorau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sylweddolwyd bod angen mynd ati ar fyrder i lunio cyfystyron Cymraeg ar gyfer termau arbenigol yn y Saesneg. Bathodd Caerfallwch a Daniel Silvan Evans dermau newydd ar

¹⁵ Owen Jones (gol.), *Cymru: yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (Llundain, 1875).

¹⁶ Sydney I. Landau, *The Art and Craft of Lexicography* (Caergrawnt, 1984), tt.27-8.

gyfer amrywiaeth o feysydd a mabwysiadwyd nifer ohonynt eithr o bryd i'w gilydd fe'u beirniadwyd hwy am ymyrryd mewn materion gwyddonol heb ddealltwriaeth drylwyr o'r maes. Dyma gŵyn un meddyg, Conway Davies:

Y mae Caerfallwch a Silvan Evans yn ysgolheigion Cymreig gwych, ond amlwg yw nad ydynt yn fferyllwyr, oddiwrt h y geiriau a gynigant.¹⁷

Gwelir ôl dylanwad Pughe ar Gaerfallwch ac ar Silvan yn ei ddyddiau cynnar. Erbyn canol y pumdegau, dechreuasai Silvan amau dilysrwydd y ffurfiau a geid yng ngeiriadur Pughe ac unwaith iddo ddod yn gyfarwydd â'r astudiaethau diweddaraf ar ieitheg a geirdarddiaeth gwelodd fod angen geiriadur Cymraeg-Saesneg newydd sbon a fyddai'n disodli damcaniaethau ieithyddol cyfeiliornus y geiriadur hwnnw. Er iddo weithio'n ddyfal i'w lunio a llwyddo i gyhoeddi'r rhannau cyntaf ohono, methiant fu ei ymgais i raddau am iddo fabwysiadu cynllun rhy uchelgeisiol ac am ei fod wedi ceisio cyflawni gormod ei hun.

Bu hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod cynhyrchiol yn hanes geiriaduraeth Gymraeg ond, heblaw am weithgarwch Silvan, ni pharhaodd yr un brwdfrydedd yn y maes o 1850 tan ddiwedd y ganrif. Clywir ambell eiriadurwr, megis Cynddelw, yn clodfori Pughe o hyd ond ar y cyfan llacio'n araf a wnaeth ei ddylanwad. Pan aeth Gweirydd ap Rhys ati i olygu trydydd argraffiad geiriadur Pughe, newidiwyd tipyn ar ei gynnwys a chafodd y wybodaeth am eirdarddiad ei dileu'n llwyr.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif daeth galw o'r newydd am eiriaduron. Atebwyd y galw hwnnw gan gyfrolau Spurrell/Bodvan ac mae'r ffigurau gwerthiant - tua 55,000 o gyfrolau rhwng 1914 a 1957 - yn brawf o'u poblogrwydd. Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuasai geiriaduron nodedig o fath arall ymddangos megis *Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon*¹⁸ a *Welsh Vocabulary of the Bangor District Fynes-Clinton*¹⁹ ac ym 1921 dechreuwyd creu *Geiriadur Prifysgol Cymru*.

¹⁷ J. C. Davies (Democritus), *Traethawd ar y Llosgnwy Tanddaearol* (Aberdar, 1875), t.5.

¹⁸ John Jones, *Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon: eu hystyr a'u hanes* (Pwllheli, 1907).

¹⁹ O. H. Fynes-Clinton, *Welsh Vocabulary of the Bangor District* (Rhydychen, 1913).

Atodiad 1

Nodir pa eiriau sy'n eisiau o eiriadur Siôn Rhydderch gan (1). Mae'r geiriau a ddynodir gan (2) a (3) yn eisiau o eiriaduron William Evans a John Walters.

The Christian in Compleat¹ Armour.

Part 3.

Ephes. 6. 17

And take the Helmet¹ of Salvation²

These words present us with another Piece in the Christians Panoply¹. A Helmet to cover his head in the day of battle. It makes the fifth in the Apostles order, And which is observable, This with most of the Pieces in this magazin are Defensive³ Arms, and all to defend the Christian from sin, none to secure him from suffering¹.

Firstly^{1, 2, 3}, they are most defensive³ Arms. Indeed there is but one of all the Pieces in the whole Panoply¹ for offence¹, i.e. The Sword. It may be to give us this hint. That this spiritual Warre of the Christian lies² chiefly on the defence, and therefore requires Arms most of this kind to wage it. God hath deposited a rich treasure of grace in every Saints heart; and this is the Devils great spight^{2, 3}, to plunder him of which, and with it of his happinesse, he commenceth a bloody warre againts him: So that the Christian overcommes his enemy, when himself is not overcome by him. He wins the day² when he doth not lose his grace; his work being rather to keep what is his own, than to get what is his enemies. And truly this one thing well heeded, that the Saints war lies chiefly on the defence, would be of singular use to direct the Christian how to manage his Combates both with Satan, and also with his instruments. Firstly^{1, 2}, with Satan. Look Christian, thou standst always in a defensive³ posture, with thy armour on, as a souldier upon thy Works ready to defend the Castle of thy soul which God hath

set thee to keep, and valiantly¹ to repel Satans assaults when ever he makes his approach. But be not perswaded out of the Line of thy place and calling that God hath drawn about thee. No, not under the specious¹ pretence of zeal, and hope to get the greater victory¹ by falling into the enemies Quarters². Let Satan be the Assaylant^{1. 2}, and come if he will to tempt thee; but go not thou in a baravado to tempt him to do it. It is just he should be foyled, that seeks his own danger. This got *Peter* his fall in the High Priests Hall, who was left therefore cowardly to deny his Master, that he might learn humbly^{1. 2} to deny himself ever after^{1. 2}. Secondly¹, with Satans Instruments. Maybe they revile & reproach thee. Remember now thy part lies² on the defence. Give not railing for railing^{1. 2}, reproach for reproach. The Gospel allows thee no liberty to use their weapons, and return them quid pro quo², I Pet. 3.8,9. *Be pitiful, be courteous, not rendering evil for evil, or railing for railing*^{1. 2}, but *contrariwise blessing*. Thou hast here a Girdle and Brestplate to defend thee from their bullets; the comfort¹ of thy own sincerity and holy walking² with which thou mayest wipe off the dirt thrown upon thy own face, but no weapon for self-revenge^{1. 2. 3}. A shield is put into thy hand, which thou mayest lift up to quench their fiery darts, but no darts of bitter words to retort upon them. Thou art shod² with peace that thou mayest walk safely² upon the injuries they do thee, without any prick or pain to thy spirit, but not with pride to trample² upon the persons that wrong thee.

Secondly¹, As most of the Pieces are defensive³, so all of them to defend from sin, none to secure the Christian from suffering¹. They are to defend him in suffering¹, not priviledge him from it. He must prepare the more for suffering¹, because he is so well furnisht with Armour to bear it. Armour is not given for men to wear by the fire-side at Home, but in the Field. How shall the Maker² be praised, if the mettal of his Arms be not known? And where shall it be put to the proof², but amidst Swords and Bullets? He that desires to live all his dayes in an Isle¹ of *Providence*, where the whole year is Summer¹, will never make a good Christian. Resolve for hardship, or lay down² thine Arms. Here is the true Reason why so few^{1. 2} come at the Beat¹ of Christs Drum to his Standard; and so many² of those few that have lifted themselves by an external profession under him, do within awhile drop away^{1. 2. 3}, and leave his Colours¹, it is suffering¹ work they are sick of. Most men are more tender of their skin, than

conscience; and had rather the Gospel had provided Armour to defend their Bodies from death and danger, then their souls from sin and Satan. But I come to the words, *And take the Helmet of Salvation*: In which we may observe,

- 1) The copulation¹ that clasps this to the former piece, [*And*]
- 2) The piece of Armour itself. *The Helmet of Salvation*.

Cyfieithiad Thomas Jones

EPH. VI. 17.

CYMMERWCH' HEFYD HELM YR IECHYDWRIAETH

Y mae'r geiriau hyn yn gosod o'n blaen ddarn arall o arfogaeth y Cristion; Helm i guddio ei ben yn nydd y frwydr. Dyma'r pummed darn yn ol trefn yr Apostol. Ac y mae'n beth i sylwi arno, fod hwn, a'r rhan fwyaf o'r darnau yn yr Arf-dy yma, yn *arfau amddiffynol*, a'r cwbl i amddiffyn y Cristion rhag pechod, heb un i'w ddiogelu rhag dioddef.

Yn gyntaf, Arfau amddiffynol ydynt, yn fwyaf. Yn wir nid oes ond un darn yn yr holl arfogaeth er *niweidiad*; sef, Cleddyf. Fe allai i roi i ni hyn o amnaid, fod rhyfel ysprydol y Cristion yn sefyll, yn bennaf, mewn amddiffyniad; ac am hynny yn gofyn arfau o'r fath yma, yn fwyaf, i'w ddwyn y'mlaen. Y mae Duw wedi gosod trysor gwerthfawr o ras i gadw y'nghalon pob sant; at hwn y mae llid mawr y Diafol; ac i'w yspeilio o hwn, a'i ddedwyddwch i'w ganlyn, y mae'n codi rhyfel gwaedlyd i'w erbyn. Gan hynny y mae'r Cristion yn gorchfygu ei elyn, os bydd ond heb gael ei orchfygu ganddo. Y mae'n ynnill y dydd, pan yw heb golli ei ras; am mai ei waith ef yw cadw ei eiddo ei hun, yn hytrach nâ chael eiddo ei elynion. Ac yn ddiâu, o ystyried hyn yn dda, mai ar yr amddiffyniad, yn bennaf, y mae rhyfel y Saint, fe fyddai o ddefnydd neillduol at gyfarwyddo'r Cristion pa fodd i drin ei ymladdfeydd, â Satan, ac â'i offerynau hefyd. *Yn gyntaf*, A Satan. Edrych, Gristion, ar i ti sefyll yn wastad mewn agwedd amddiffynol, â'th arfogaeth am danat, fel milwr ar y muriau, yn barod i amddiffyn castell dy enaid,

y gosodwyd di gan Dduw i'w gadw; a sâf yn wrol yn erbyn ymgyrchiadau Satan, pa bryd bynnag y rhuthro arnat. Ond na chymmer dy ddenu allan o glych dy le, a'th alwad, a gododd Duw o'th gwmpas. Paid â hyn, hyd yn nod dan yr esgus teg o zel, a gobaith am fuddugoliaeth fwy, wrth anturio i wersyll y gelynion. Gâd i Satan ddechreu'r ymladd, a dyfod, os myn, i dy demtio di: ond na ddôs di, mewn gwag hyder, i'w demtio ef i'th demtio. Cyfiawn i hwnnw gael ei faeddu, sy'n chwilio am berygl i redeg iddo. Hyn a ddygodd ei gwymp i *Pedr*, yn llys yr Archoffeiriad: fe'i gadawyd ef yn wan-galon i wadu ei Feistr, fel y dysgai feddwl yn wael am dano ei hun byth wed'yn. *Yn ail*, Ag offerynau Satan. Fe allai eu bod yn dy ddirmygu a'th waradwyddo. Cofia mai ar yr amddiffyniad yr wyt ti i sefyll. Na ddyro sen am sen, dirmyg am ddirmyg. Nid yw'r efengyl yn rhoi dim cennad i ti ddefnyddio eu harfau hwy, a gwneuthur fel y gwnant hwythau, 1 *Pedr* iii. 8, 9. Byddwch yn drugarogion, yn fwynaid: *Nid yn talu drwg am ddrwg, neu sen am sen: eithr y'ngwrthwyneb yn bendithio*. Dyma i ti ffrwyn, a dwyfronneg i'th amddiffyn rhag eu bwledi hwy; y cysur o'th uniondeb a'th rodiad duwiol, â'r hwn y gelli sychu ymaith y budreddi a daflant hwy ar dy wyneb di; ond nid oes yma un arf i ymddial. Dyma darian at dy law, i ti ei godi i fynu at ddiffodd eu piccellau tanlyd hwy: ond dim piccellau o eiriau chwerwon, i'w taflu yn ol arnynt. Y mae i ti esgid o dangnefedd, fel y gallech rodio'n ddiogel ar y cammau a wnant hwy â thi; ond nid esgid o falchder i sathru ar y personau a fo am dy ddrygu.

Yn ail, Megis y mae'r rhan fwyaf o'r darnau yn amddiffynol, felly y maent i gyd yn amddiffyn rhag pechod; heb un i ddiogelu'r Cristion rhag dioddef. Maent i'w amddiffyn ef wrth ddioddef, nid i'w freinio rhag hynny. Rhaid iddo ymbarattô'n fwy i ddioddef, o herwydd ei wisgo mor dda i'r diben. Ni roddir arfogaeth i ddynion i'w wisgo yn ochr y tân gartref, ond yn y maes. Pa fodd y caiff y gwneuthurwr ei glod, os na wybyddir mettel ei arfau? A ph'le mae ei brofi, ond ym mysg cleddyfau a bwledi? Nid Cristion da fydd y dyn, sydd am dreulio ei fywyd mewn gwlad lle y mae'n haf trwy'r flwyddyn. Ymrodda at galedi; neu dyro dy arfau i lawr. Hyn yw'r gwir reswm am fod cyn lleied nifer yn dyfod dan faner Crist, wrth ei alwad; a chynnifer, o'r ychydig sydd wedi rhoi eu henwau yn ei fyddin trwy broffes allanol; ym mhen tro yn diangc ymaith, ac yn gadael ei wersyll: gwaith dioddef yw'r hyn y maent yn glaf o hono. Mae'r rhan fwyaf yn

fwy tyner o'u croen, nâ'u cydwybod: a gwell fuasai ganddynt, fod yr efengyl wedi darparu arfogaeth i gadw eu cyrph rhag angau a pherygl, nâ'u heneidiau rhag pechod a Diafol.

Ond yr wyf yn dyfod at y geiriau, *Cymmerwch hefyd helm yr iechydwriaeth*. Yn y rhai ni a allwn sylwi.

1. Ar y gair cyssylltiol, sy'n cydio hwn wrth y darn o'r blaen, *Hefyd*.
2. Ar y darn ei hunan o'r arfogaeth, *Helm yr iechydwriaeth*.

Atodiad 2

Bathiadau cydnabyddedig John Walters (A - C) sy'n ymddangos yn argraffiad cyntaf geiriadur Thomas Jones.

anhrwm	brechog	crasgnoi
anghyfiawnadwy	breingochl	crec-iar
allryw	breiniarlaeth	crêd-lythyr
amcanwaith	breninolaeth	crefyddgarwch
amdoriad	brigbori	crehyrfa
amddiffynglawdd	brigynnog	creider
ameugarwch	brithlyfr	creirfa
amfesur	brochwyr	creirgell
amfesuro	bronglawdd	cresteniad
amgeniad	bron-glwm	crëydd
amgrymedd	brwmstanaidd	cribingaib
amgyrraedd	brwydwaith	cringingeibio
amhendant	brwydydd	crinelliad
amhlaid	brydlonedd	croenllyd
amhleidydd	brysgar	croenrhwym
amhlwyfol	brysgarwch	crog-len
amhresenoldeb	bugeilgan	crogydd
amlbriodas	bwnglerwaith	crommen
amlgellog	bwrdeisfaint	crwydreiaeth
amliaith	bwrdeisty	crwyn-llys
amlieithog	bwriadlawn	crychdor
amlinell	bwydfa	crychleisio
amlwr	bychanedd	crÿch-nôd
amlwrageddog	bychanwr/bychanydd	crydaidd
amlwraig	bydolfryd	crynaidd
amlwriog	byddariad	crynnedd
amlygiadol	byddiniaeth	crynnyn
amod-weithred	byng-glorio	crwnn-wreiddiog
ammoraidd	byrgynghair	cuddiadwy
amryfalu	byrnod	cuddneges
amseroldeb	bytgar	cwrelaidd
anaddasu	bytholwydd	cwteru
anarbedus	bywydoliaeth	cwynfynag
anarcholladwy	bywyneiddrwydd	cwyngar
anargyhoeddadwy	bywynnaidd	cwyngarwch
anataliedig	bywnnog	cwyrli
anatebadwy	cabldraith/cabl-draith	cydhanfod
anchwant	cabldraethydd	cÿd-nod
anegluradwy	caboled	cydolsain
anfadrwydd	cacynaidd	cydrywiaeth
anfanylwydd	cadeir-draw	cydweithiol
anfucheddoldeb	cadeirfainc	cyfan-werth
anffaeledigrwydd	cadeiriwr	cyfanwerthu
anrhefnedig	cadfaes	cyfanwerthydd
anhrigiant	cadfwyall	cyfarchwylfa
annhryloyw	cadgerbyd	cyfartalai
anhyboen	cadwyndorch	cyfarwynebiad
anhybris	cadwyngi	cyfatebwr
anhyfeth	caeth-ddeiliad	cyfeillio
annyspyddadwy	caethgyfieithiad	cyfeirgi
aniandeddf	caethwasaid	cyfeirnod
anianyddiaeth	cafniad	cyflafanaidd
anifeileiddrwydd	canghennu	cyflafanol
annadleuadwy	caletgorff	cyflafareddiad
annarbodus	callestraidd	cyflawniadol

annatodadwy	calloriad	cyflegru
annholledig	calloryn	cyflogaidd
annhyngwŷr	camamseru	cyflunedd
